# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 4 MAWRTH 2013 am 2.00 o'r gloch | | MONDAY, 4 MARCH, 2013 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

W T Hughes, Eric Jones, Ieuan Williams (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), G O Jones, G W Roberts OBE a E Schofield

**LLAFUR/LABOUR**

R Dylan Jones

**LLAIS I FÔN**

S Williams (Cadeirydd/Chair)

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Vaughan Hughes, W I Hughes a E G Davies

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

H E Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERIONYN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION 26 TACHWEDD, 2012** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod–

- 26 Tachwedd, 2012
- 10 Rhagfyr, 2012 (arbennig)
- 21 Rhagfyr, 2012 (cyfarfod galw penderfyniad i mewn)
- 28 Ionawr, 2013 (arbennig)

3 **MATERION CYLLIDEBOL : ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3 2012/13** (Tudalennau 17 - 66)

• **Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfalaf – Chwarter 3 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid).

• **Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 3 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid).

• **Cyllideb 2013/14 a Strategaeth Refeniw ar gyfer y Tymor Canol**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)

4 **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 67 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol)

5 **CYTUNDEB COMPACT YNYS MÔN A PHOLISI GWIRFODDOLI** (Tudalennau 97 - 116)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB 2011/12** (Tudalennau 117 - 144)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)

7 **RHEOLI RISG** (Tudalennau 145 - 168)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Vaughan Hughes, Eric Jones, H. Eifion Jones, W. T. Jones, Gareth W. Roberts OBE, Elwyn Schofield. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (ar gyfer eitemau 4, 5 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) (ar gyfer eitem 3.2)<br>Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro (ar gyfer eitem 8)<br>Cyfrifydd – Cyfalaf (Mr Ben Davies) (ar gyfer eitem 3.1)<br>Swyddog Cyfathrebu (Gwen Sion) (ar gyfer eitem 6)<br>Swyddog Adnoddau Dynol (Morfudd Davies) (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Sgriwtini (Bev Symonds)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr G. O. Jones, R. Dylan Jones, W. I. Hughes, Mr. Keith Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Bryan Owen (Arweinydd y Cyngor), W. J. Chorlton (Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid, TG ac Adnoddau Dynol), Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Lloyd Hughes (Deilydd Portffolio ar gyfer Cynllunio), Cynghorydd G. O. Parry MBE (Deilydd Portffolio ar gyfer Addysg). |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2012 yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Eric Jones hefyd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 3 MATERION CYLLIDEBOL

### 3.1 Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf 2012/13 – Chwarter 2 2012/13

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynglŷn â sefyllfa'r gyllideb gyfalaf am ail chwarter blwyddyn ariannol 2012/13 fel oedd wedi ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012.

Dywedodd y Cyfrifydd Cyfalaf wrth y Pwyllgor nad oedd yna unrhyw faterion sylweddol yn codi hyd yn hyn o safbwynt gwariant a chyllido cyfalaf. Bydd gwariant ar y rhaglen gyfalaf yn arbennig yng nghyswllt y cynlluniau mwyaf yn cael ei broffilio ymhellach tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol a dyna'r rheswm pam bod cyfanswm y gwariant hyd ddiwedd Medi 32% yn is na'r hyn a ddisgwylid. O safbwynt cynlluniau mawr, fe ddisgwylir i gynllun adleoli Ysgol y Bont lithro i 2013/14 ond ni ragwelir y bydd y llithriad hwn yn cael effaith ar yr arian grant nag ar y dyddiadau y bwriedir cwblhau/agor yr ysgol. Mae



DRAFT

menter benthyca Llywodraeth Leol yn symud ymlaen fel y rhagwelwyd. Y rhain yw'r ddau brif gynllun grant lle mae yna elfen o risg ac roedd y gwasanaeth yn fodlon gyda'r sefyllfa ar adeg cyflwyno'r adroddiad. O safbwynt adnoddau sy'n dod i mewn, disgwylir y bydd y rhagamcan ynglŷn â derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn wedi eu cyflawni neu y bydd y ffigwr terfynol yn agos iawn ato ac mae yna ddigon o hyblygrwydd o ran capasiti benthyca gyda chefnogaeth i ariannu'r rhaglen. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud fod disgwyl i'r rhaglen mân ddaliadau fod £2m y tu ôl i incwm am y flwyddyn sydd i raddau'n gwrthbwyso'r llithriad ar gynllun adleoli Ysgol y Bont. Rhagwelir swm bychan o lithriad ar gynlluniau eraill ond bydd y rhan fwyaf o'r llithriad yn dod o arian wrth gefn heb ei ddyrannu ac roedd manylion am hynny yn adran 4 yr adroddiad. O ran y sefyllfa a'r rhagolygon gyda'r gyllideb refeniw bresennol, efallai y bydd angen torri i lawr ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r symiau sydd heb eu clustnodi a allai roi mwy o hyblygrwydd. I grynhoi, disgwylir y byd y targedau incwm yn cael eu cyflawni ac y bydd yna beth llithriad ar y cynlluniau mawr.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro at adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Sgriwtini yng nghyswllt mân-ddaliadau ble nodwyd bod y rhaglen yn llithro'n sylweddol o ran incwm - fodd bynnag, roedd hyn yn fwy o fater diffyg amser na mater incwm ddim yn dod i mewn.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion canlynol yn y drafodaeth a ddilynodd.

- Y mewnbwn cyfyngedig sydd gan Aelodau ar hyn o bryd o ran siapio'r rhaglen gyfalaf a dylanwadu ar ei chynnwys yn nhermau'r cynlluniau i'w blaenoriaethu. Yn achos y broses o osod cyllideb 2013/14, argymhellwyd y dylid dilyn yr un trefniadau ar gyfer y gyllideb gyfalaf a'r gyllideb refeniw lle mae'r Aelodau yn gallu dylanwadu ar flaenoriaethau ac yn gallu cymryd perchnogaeth o'r rhaglen gyfalaf. Cadarnhaodd y Deilydd Portffolio Cyllid mai dyma oedd y bwriad ar gyfer y flwyddyn hon.
- Yr angen i'r rhagamcanion ynglŷn â darparu a gwario ar brosiectau cyfalaf gael eu gosod ar lefelau mwy realistig fel eu bod yn gyraeddadwy o fewn y cyfnod amser.
- Ceisiwyd cael eglurhad am y sefyllfa ynglŷn ag arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu. Cafwyd trafodaeth fanwl yn ymwneud ag unrhyw oblygiadau refeniw oedd yn codi o arian wrth gefn heb ei ddyrannu a oedd yn parhau i fod heb ei wario.
- Oedi gyda derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau a ffyrdd posibl o gyflymu'r broses werthu.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa gyda'r gyllideb gyfalaf fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2012/13.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i gyflwyno adroddiad monitro / cynnydd ar y gyllideb gyfalaf ar gyfer Trydydd Chwarter 2012/13 i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd o'r Pwyllgor hwn.**

3.2 Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynglŷn â sefyllfa'r gyllideb refeniw am ail chwarter blwyddyn ariannol 2012/13 fel yr oedd ar 30 Medi 2012 ac fel y'i cyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012.

Dygodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro sylw'r Aelodau at y patrymau oedd yn dod i'r amlwg ynglyn â chyllidebau gwasanaeth ac yn benodol y gorwariant ar gyllidebau'r Gwasanaeth Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden a Diwylliant a'r risg oedd ynghlwm wrth y patrymau hynny pe baent yn parhau heb eu rheoli. Eglurodd mewn mwy o fanylder beth oedd y rhesymau am y gorwariant o safbwynt cyllidebau'r meysydd gwasanaeth penodol oedd dan bwysau a chyfeiriodd at y camau adferol oedd yn cael eu cymryd i ddod â'r cyllidebau hynny yn ôl i drefn. Nododd y Swyddog y sefyllfa yng nghyswllt y cyllidebau corfforaethol a'r cyllidebau risg corfforaethol fel y cawsant eu hamlinellu yn Adran 2 yr adroddiad ynghyd â chynnydd hyd yn hyn o ran cyflawni'r rhaglen arbedion gan grybwyll yn arbennig y rhagolygon yng nghyswllt yr arbedion corfforaethol nad oeddent wedi eu gwneud a'r sefyllfa ynglyn â diswyddiadau. Dywedodd y Swyddog y rhagwelir y byddai'r arian wrth gefn unwaith ac am byth o £1.2m a gymeradwywyd yng nghyllideb 2012/13 yn ddigon i dalu am y cynigion diswyddo gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyda'r posibilrwydd y byddai arian yn weddill. Fodd bynnag, efallai y byddai'n rhaid adolygu hyn. O safbwynt y sefyllfa gyffredinol, roedd yna risg sylweddol o orwario ar bedair cyllideb gwasanaeth a gallai'r swm fod yn £2.5m ar ei waethaf. Rhagwelir y bydd cyllidebau risgiau corfforaethol wedi gorwario £75k a'r rhagamcan cyffredinol yw diffyg am y flwyddyn o hyd at £2.6m.

Mewn ymateb i bryderon penodol yr Aelodau ynglyn â maint y diffyg ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr oedd ar 30 Medi a'u hymholiadau ynglyn â natur y mesurau oedd yn cael eu cymryd i wella'r sefyllfa, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) amlinelliad byr o'r mesurau oedd yn cael eu cymryd i reoli'r gwariant o fewn y Gwasanaethau Plant. Yna aeth ymlaen i roi esboniad manwl i'r Pwyllgor o'r gweithgareddau diweddar a chyfredol o fewn y Gwasanaethau Oedolion sydd â'r nod o sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu'n fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon o fewn yr adnoddau sydd ar gael a hefyd er mwyn ceisio bod yn weithredol wrth reoli'r galw i'r graddau yr oedd hynny'n ymarferol posibl. Cyfeiriodd at y goblygiadau posibl o safbwynt yr oedi gyda throsglwyddo gofal. Dywedodd yr Aelodau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus o fewn cyd-destun fframwaith rheoli risg yr Awdurdod. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at y strategaeth tymor hir o safbwynt gofal cymdeithasol pobl hŷn a bod gweithredu hynny yn hanfodol i iechyd cyllidebol tymor hir y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn rhywbeth fydd yn gweld golygu newid sylweddol o ran rôl yr Awdurdod – bydd yn newid o fod yn ddarparwr sylweddol i fod yn un sy'n comisiynu gwasanaeth gyda'r nod o leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau mewnol. Yna, rhoddodd mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ynglyn â rhagamcanion diwedd y flwyddyn mewn perthynas ag iechyd meddwl, anableddau corfforol a chyllidebau pobl hŷn a'r mesurau argyfwng y mae angen eu rhoi yn eu lle dros y 4 mis sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Ceisiodd yr Aelodau gael eglurhad ar rai materion o fewn yr adroddiad ac ymatebodd y Swyddog i hynny. Oherwydd sensitifrwydd y sefyllfa o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a statws statudol y Gwasanaeth ac oherwydd y risgiau a oedd ynghlwm, y bwriad oedd trefnu cyfarfod pellach o'r Pwyllgor hwn i ymchwilio'n fanylach ac yn ddyfnach i'r penawdau cyllidebol unigol geir o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol a'u proffil risg.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini wrth yr Aelodau bod y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) yn rhoi adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglyn â rhaglen drawsnewid y Gwasanaethau Oedolion a bod y Cynghorydd E. Schofield fel cynrychiolydd y Pwyllgor hwn ar y Panel Darparu Rhaglen Arbedion yn gallu adrodd yn ôl ar gynnydd gyda chyflawni'r arbedion a ragamcenir ar gyllidebau gwasanaeth. Yn ogystal, mae'r Adain Sgriwtini mewn cydweithrediad â swyddogion y Gwasanaeth Cyllid wedi trefnu i gyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini ym mis Ionawr ystyried sefyllfa gyllidebol 2013/14 a hefyd fe drefnwyd gweithdai i aelodau ar gyfer 4 Rhagfyr a 29 Ionawr.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nodi'r sefyllfa yng nghyswllt y gyllideb refeniw ar ddiwedd Chwarter 2 ym mlwyddyn ariannol 2012/13.**

**CAMAU GWEITHREDU :**

- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i ddarparu adroddiad monitro / cynnydd ar y gyllideb refeniw ar gyfer Trydydd Chwarter 2012/13 i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd o'r Pwyllgor hwn.**
- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ynglyn â'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn yn nhermau cyfanswm yr arbedion a sicrhawyd.**
- **Y Pwyllgor i dderbyn atborth fel sy'n briodol gan gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Panel Darparu Rhaglen Arbedion.**

**4 ADOLYGU RHESYMOLI PARTNERIAETHAU**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r gwaith Rhesymoli Partneriaethau sy'n cael ei wneud ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd ac fel a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) grynodeb o'r datblygiadau hyd yn hyn mewn perthynas â'r agweddau canlynol o'r rhaglen Rhesymoli Partneriaethau –

- Ffurfio uned gefnogi integredig newydd, y broses ar gyfer recriwtio i'r uned honno a'r rhaglen amser ar gyfer trosglwyddo staff.
- Trefniadau lletya. Mae Prif Weithredwyr y ddau Gyngor (Gwynedd a Môn) wedi cytuno mai Gwynedd fydd yn lletya'r uned newydd ar gyfer y prosiect arbennig hwn ac y bydd staff presennol yn trosglwyddo i Wynedd o dan drefniadau TUPE.
- Swyddi cymorth grant sy'n cefnogi gwaith y partneriaethau presennol.

DRAFT

- Materion ariannol a risgiau. Y bwriad yw y bydd y cydweithredu wedi ei gynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac y bydd yn fodd o wneud arbedion. Pennwyd targed arbedion 10% ar gyfer staff craidd. Mae trafodaethau i gyflawni hyn yn parhau. Bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn newydd ynglyn ag ymrwymiad ariannol y Cyngor tuag at yr uned newydd.
- Swyddfeydd. Ymchwiliwyd i opsiynau ar gyfer lleoli'r uned newydd gan y Bwrdd Prosiect gyda golwg ar nodi lleoliad canolog fydd yn gwasanaethu'r ddwy sir.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan fynegi nifer o amheuon ynglyn â threfniadau a gweithgareddau parhaol mewn perthynas â'r Rhaglen Rhesymoli Partneriaethau gyda Gwynedd fel a ganlyn -

- Costau tebygol swyddfeydd newydd ar gyfer yr uned integredig newydd a'r posibilrwydd y gallai'r costau hynny orbwyso unrhyw arbedion a geir o'r holl broses gyfuno / rhesymoli. Roedd y Pwyllgor yn hollol glir yn ei safbwynt y dylid ailystyried y mater o gael swyddfeydd newydd yng ngoleuni'r hinsawdd bresennol o gyllidebau'n lleihau a phwysau ariannol o blaid defnyddio'r swyddfeydd sydd ar gael ar hyn o bryd yn y ddau Gyngor ac / neu wneud y mwyaf o dechnoleg ar ffurf rhannu desgiau ac / neu weithio o'r cartref.
- Roedd pryderon ynglyn ag effeithlonrwydd y Bartneriaeth newydd o safbwynt cynhyrchu arbedion. Pwysleisiwyd y dylai'r rhaglen rhesymoli a'r broses o sefydlu'r uned gefnogi integredig newydd fod wedi ei sylfaenu ar achos busnes cadarn fyddai'n nodi'r arbedion a ragwelir a'r gwariant proffiliedig gan gynnwys costau swyddfeydd. Cynigiwyd a chafodd ei gefnogi gan yr Aelodau y dylai'r Prif Weithredwr gael ei wahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn i egluro'r trefniadau a sut y daethpwyd i gytundeb arnynt ac i roddi costiadau manwl i'r Pwyllgor am y bartneriaeth newydd a'r uned i gynnwys swyddfeydd ac arbedion.
- Yr angen i'r Bartneriaeth sicrhau bod y ddau bartner yn gyfartal o ran staff, cyfraniad strategol a phroffil a bod diddordebau arbennig Ynys Môn yn cael eu diogelu o fewn y Bartneriaeth.
- Roedd yna bryder bod gormod o amser yn cael ei dreulio ar adolygu partneriaethau a chreu gwaith ar draul meysydd risg uchel eraill o fewn y Cyngor y dylid bod yn rhoi blaenoriaeth iddynt o ran amser a sylw. Awgrymwyd bod gan yr Awdurdod flaenoriaethau pwysicach sy'n gofyn am sylw ac y dylid treulio amser swyddogion yn diogelu'r amcanion hynny.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau gan bwysleisio cyd-destun ehangach y gweithgareddau oedd yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad a'r hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru o ran rhesymoli partneriaethau.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r gwaith rhesymoli partneriaethau gyda Gwynedd.**
- **Argymell bod blaenoriaeth i ran amser a sylw swyddogion yn cael ei roi i feysydd risg uchel y Cyngor yn hytrach nag i'r gweithgareddau rhesymoli partneriaethau cyfredol gyda Gwynedd.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y Rheolwr Sgriwtini i ofyn i'r Prif Weithredwr fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a drefnwyd ar gyfer 10 Rhagfyr ac i ddarparu ar gyfer y Pwyllgor gynllun busnes manwl ar gyfer y rhaglen Rhesymoli Partneriaethau a sefydlu'r uned gefnogi integredig newydd yn cynnwys arbedion a gwariant a ragamcanwyd a chostau tebygol swyddfeydd.**

**5 CYNLLUN INTEGREDIG SENGL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gwaith ar y Cynllun Integredig Sengl fel yr oedd wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau y bydd y Cynllun drafft yn cael ei ryddhau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus o ddiwedd mis Tachwedd hyd fis Ionawr 2013.

Nododd yr Aelodau'r sefyllfa ynghyd â'r bwriad i drefnu gweithdy ar 10 Rhagfyr fel y gallai Aelodau sgriwtineiddio'r Cynllun Integredig Sengl drafft yn llawn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i roi copi i'r Aelodau o'r Cynllun Integredig Sengl drafft yn y gweithdy a drefnwyd ar gyfer 10 Rhagfyr.**

**6 STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor gopi o'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol drafft. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yr hyn yr oedd y Strategaeth yn ceisio ei gyflawni a sut yr oedd yn cysylltu gyda chynlluniau strategol eraill y Cyngor. Roedd y Strategaeth hefyd yn amlinellu beth oedd swyddogaethau'r Aelodau etholedig a staff mewn perthynas â'r broses cyfathrebu corfforaethol ac roedd ynddo hefyd brotocol cyfryngau yn rhoi cyfarwyddyd i aelodau a staff ynglyn â delio â'r cyfryngau.

**Penderfynwyd derbyn y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol a nodi ei gynnwys gyda'r argymhelliad y dylid adolygu'r ffotograffau a ddefnyddiwyd o fewn y Strategaeth er mwyn sicrhau ymdriniaeth deg.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i ymgorffori argymhellion y Pwyllgor yng nghyswllt y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol mewn adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**

**7 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd ddiwedd Mawrth 2013, er gwybodaeth. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini wrth yr Aelodau bod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn wedi ei drefnu ar gyfer 10 Rhagfyr i dderbyn yr adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 oedd yn hwyr a hefyd i gynnwys gweithdy ar y Cynllun Integredig Sengl. Bydd cadarnhad yn cael ei anfon i'r Aelodau yn y man ynglyn â'r cyfarfodydd sgriwtini cyllideb a drefnwyd ar gyfer diwedd mis Ionawr a'r gweithdai cysylltiedig ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.

**Penderfynwyd nodi'r Flaenraglen Waith.**

**CAMAU GWEITHREDU : Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Sgriwtini leihau'r niferoedd o eitemau ar y rhaglen ar gyfer Pwyllgor 14 Mawrth 2013 fel sy'n briodol yn ôl blaenoriaeth ac arwyddocâd pob eitem unigol.**

**8 GWEITHGOR ABSENOLDEB SALWCH**

Cafwyd diweddariad llafar gan y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro yn ymwneud â datblygiadau mewn perthynas â'r Gweithgor Absenoldeb Salwch.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro wrth yr Aelodau bod y Tîm Uwch Arweinyddiaeth wedi gofyn am sefydlu Grŵp Tasg i edrych ar absenoldeb salwch yn y Cyngor a sut y gellid mynd i'r afael â hynny. Sefydlwyd Grŵp Tasg ac arno'r Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro, y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, y Pennaeth Gwasanaeth (Uned Ddarparu) a'r Swyddog Adnoddau Dynol. Roedd y Grŵp wedi edrych ar absenoldeb salwch o sawl persbectif gyda golwg ar symud ymlaen gyda'r mater hwn a lleihau'r costau cysylltiedig ac roedd wedi cynnig y dylid mynd i'r afael ag absenoldeb salwch yn hytrach fel rheoli presenoldeb gyda'r bwriad bod staff yn derbyn cymaint ag sy'n bosibl o gefnogaeth trwy wahanol gynlluniau – archwiliadau iechyd / therapi galwedigaethol ac ati i fynychu'r gwaith gyda'r nod yn y pen draw o leihau lefelau absenoldeb salwch. I'r perwyl hwn, bydd adnodd arbennig ar ffurf swydd monitro cynnydd yn cael ei greu i gefnogi adrannau / Penaethiaid Gwasanaeth unigol yn y gwaith hwn. Roedd bid dwf i ariannu'r swydd wedi ei pharatoi ar sail gwario i arbed er mwyn lleihau costau absenoldeb salwch. Dywedodd y Swyddog bod y lefelau absenoldeb salwch presennol yn annerbyniol o uchel ac y bydd yr adnodd hwn yn darparu cefnogaeth i wasanaethau wrth iddynt wella'r lefelau presennol o absenoldeb salwch.

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r wybodaeth yr oedd wedi ei chyflwyno gan wneud y pwynt y dylai pob Pennaeth Gwasanaeth sgriwtineiddio'r cofnodiadau absenoldeb salwch gyda golwg ar sefydlu a oedd yna unrhyw batrymau o absenoldeb ai peidio. Awgrymwyd y dylai cadw cofnodion o'r fath gael ei dderbyn fel arfer orau yn yr Awdurdod ac y dylid dilyn hynny i fyny yn awtomatig gyda chamau gweithredu priodol lle byddai angen hynny.

**Penderfynwyd derbyn yr arddodiad a nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chyflwyno ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau ar yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Selwyn Williams**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Vaughan Hughes, Eric Jones, R. Dylan Jones, Gareth W. Roberts OBE (ar gyfer eitem 1), Elwyn Schofield. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 4)<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)(ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Sgriwtini (Bev Symonds)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr W. I. Hughes, H. Eifion Jones<br>Y Cynghorwyr Keith Evans, Mrs Fflur Hughes, E. Llewelyn Jones (wedi eu gwahodd ar gyfer eitem 1). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd W. J. Chorlton (Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid), y Cynghorydd Robert Lloyd Hughes (Deilydd Portffolio ar gyfer Cynllunio) wedi eu gwahodd ar gyfer eitem 1 : Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Kenneth Hughes, Alun Mummery, J. V. Owen, R. L. Owen<br>Carol Wyn Owen (Rheolwr Polisi a Strategaeth), Gareth Bayley Hughes, Geraint Roberts (Swyddogion Cefnogi Sgriwtini), Rhian Bayley Hughes (Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaeth Lleol), Chris Davies (Swyddog Cefnogi Polisi). |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol ac estynnodd groeso arbennig i'r Aelodau a'r Swyddogion oedd wedi eu gwahodd i gymryd rhan yn y gweithdy o dan eitem 1 ar y rhaglen.

**1 GWEITHDY AR Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL**

Rhoddodd y Rheolwr Strategaeth Polisi gyflwyniad byr yng nghyswllt y Cynllun Integredig Sengl, ei gyd-destun, pwrpas a'r themâu yr oedd yn eu hadlewyrchu. Ymrannodd yr Aelodau oedd yn bresennol yn ddau grŵp er mwyn ystyried y themâu a'r blaenoriaethau cysylltiol mewn mwy o fanylder. Roedd y trafodaethau yn y grwpiau wedi eu hwyluso gan y Rheolwr Sgriwtini a'r Swyddogion Cefnogi Sgriwtini.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

*Ystyriwyd a phenderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.*

**4 RHESYMOLI PARTNERIAETH**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn rhoi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â gweithgaredd rhesymoli partneriaeth gyda Gwynedd; sefydlu Partneriaeth Strategol ar y Cyd ac Uned Gefnogi ynghyd ag ystyriaethau perthynol a chostau a risgiau.



DRAFT

Nododd y Prif Weithredwr y materion canlynol fel ffactorau allweddol o fewn y proses rhesymoli partneriaeth –

- Pwysau'r disgwyliadau o du Llywodraeth Cymru yn nhermau mwy o gydweithredu a chydweithio mewn perthynas â'r Byrddau Gwasanaeth Lleol ac awydd Llywodraeth Cymru i leihau'r nifer o bartneriaethau lleol er budd effeithlonrwydd ac economi ac i ddileu unrhyw ddyblygu lle bo hynny'n bodoli. Roedd y gweithgaredd rhesymoli partneriaeth a oedd i'w weld yn yr adroddiad uchod ac mewn adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor ac i'r Pwyllgor Gwaith yn crynhoi'r cynnydd ar y mater hwn wedi digwydd mewn ymateb i ofynion y rhaglen genedlaethol ehangach hon.
- Mae'r broses rhesymoli partneriaeth yn ymwneud â chyrff statudol ac anstatudol eraill yn ychwanegol i gynghorau Ynys Môn a Gwynedd ac yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r Trydydd Sector. Cafwyd consensws nad oedd y system bartneriaeth gyfredol a nifer y cyfarfodydd yr oedd hynny yn ei olygu yn gynaliadwy yn arbennig yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau a hefyd ail strwythuro'r Heddlu a'r Gwasanaethau Iechyd. Roedd y rhesymeg y tu ôl i resymoli partneriaeth felly yn un gadarn.
- Cyngor Gwynedd fydd yr awdurdod lletya ar gyfer Cyd Fwrdd Gwasanaeth Lleol Ynys Môn a Gwynedd a'r Uned Bartneriaeth gyda hynny'n golygu y bydd ganddo drosolwg o'r agweddau ymarferol er enghraifft y gyflogres, contractau ac ati. Fodd bynnag, bydd y cyfeiriad strategol yn cael ei ddarparu gan y Cyd Fwrdd Gwasanaeth Lleol ei hun gyda'r ddau Gyngor yn cael eu cynrychioli arno.
- Cafwyd trafodaethau manwl ynglŷn â lleoliad yr Uned Cefnogi Cydbartneriaeth yn cynnwys yr ymarferoldeb o nodi swyddfeydd newydd mewn lleoliad canolog er mwyn sicrhau bod y tîm wedi ei integreiddio'n llawn ond dim ond os bydd yr achos busnes yn caniatáu hynny. Pe bai hynny'n anghynaladwy yna bydd opsiynau eraill yn cael eu hystyried yn cynnwys gweithio trwy sefydlu swyddfa rithiol.
- Mae tri pheth sylfaenol yn gyrru'r cydweithio - lle bo ffurfio trefniadau ar y cyd yn cynhyrchu arbedion; lle y bo'n gwella ansawdd y gwasanaethau ac yn cynyddu capasiti; a lle y mae o fudd i bartneriaid eraill ond heb greu anfantais i Fôn nac yn arwain at ddirywiad yn y ddarpariaeth ym Môn yn y proses. Mae'r proses rhesymoli partneriaeth uchod yn bodloni'r meini prawf olaf yn bennaf oherwydd ei fod yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner Ynys Môn o safbwynt llyfnhau'r trefniadau presennol gyda golwg ar weithio mewn ffordd fwy effeithlon a chost effeithiol.
- Y pwysigrwydd o beidio â cholli golwg ar y cynllun integredig a'r hyn y mae'n ei gynrychioli o safbwynt crynhoi dyheadau gwasanaethau cyhoeddus o ran darparu ar gyfer dinasyddion Môn. Mae'r system sy'n waelodol iddo yn ffordd o gyflawni'r dyheadau hynny. Mae'r cyd Fwrdd Gwasanaeth Lleol newydd yn adlewyrchu cynrychiolaeth gref o'r ddwy sir a mater i Fôn yw defnyddio ei llais ar y Bwrdd i wneud i'r system weithio drosti mewn ffordd gost effeithiol.

Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad yn fanwl a mynegwyd y pryderon canlynol yng nghyswllt y wybodaeth a gyflwynwyd iddynt -

- Bod y Pwyllgor yn cael ei hun mewn sefyllfa o gynnig sgriwtini ôl-ddyddiol oherwydd bod y gwaith o sefydlu'r Gyd Bartneriaeth Strategol newydd a'r Uned eisoes ar y gweill gyda phenderfyniadau wedi cael eu gwneud.
- Yr angen am drefniadau monitro cadarn i sicrhau bod y bartneriaeth strategol newydd yn darparu gwerth am arian. Awgrymwyd a chytunwyd gan y Pwyllgor y dylid gwneud darn o waith ac yna ei ystyried gan y Pwyllgor ar ddiwedd yr ail chwarter yn 2013/14 pan fydd y Bartneriaeth wedi cael amser i sefydlu ei hun mewn perthynas â gweld a yw'n darparu gwerth am arian.
- Pryder ynglŷn â chynaliadwyaeth swyddi yn y Cyd Bartneriaeth a ariennir â grant a'r effaith dymor hir tebygol ar y Bartneriaeth ac ar gyllideb graidd yr Awdurdod pe bai'r grantiau hynny yn dod i ben.
- Pryder ynglŷn â diffyg eglurder ynghylch cyfanswm y costau o sefydlu'r Bartneriaeth Strategol ar y Cyd a'r Uned Gefnogi yng nghyd-destun cyllidebau sy'n gostwng â thoriadau ariannol.
- Ymrwymiad ariannol asiantaethau/cyrff partner eraill at gostau'r Uned a'r Bartneriaeth Strategol ar y Cyd.
- Colli dylanwad dros wneud penderfyniadau a chyllidebu yn y meysydd hynny fydd yn dod o dan ofal y Bartneriaeth Strategol ar y Cyd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys gyda chais ar i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn perthynas â'r mater.**

**CAMAU GWEITHREDU –**

- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i gyfleu yn yr adroddiad cynnydd nesaf i'r Pwyllgor Gwaith ar weithgaredd Rhesymoli Partneriaeth y pryderon a leisiwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn perthynas â'r broses.**
- **Y Rheolwr Sgriwtini i ymgorffori o fewn y Rhaglen Waith Sgriwtini 2013/14 eitem mewn perthynas â monitro agwedd a gwerth am arian y Bartneriaeth Strategol ar y Cyd.**

**5 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL – CHWARTER 2 2012/13**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn cynnwys data perfformiad am Chwarter 2 o gyfnod adrodd yn ôl 2012/13. Dywedodd y Swyddog am y cynnydd a wnaed o ran perfformiad yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd ar draws y meysydd allweddol o flaenoriaethau darparu / gwella fel oedd yn yr adroddiad ynghyd â'u statws risg cyfredol a'r camau a gymerwyd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau yng nghyswllt y wybodaeth a gyflwynwyd –

- Bod yr adroddiad wedi ei gosod ar lefel rhy uchel a chyffredinol i'r Pwyllgor fedru cymryd sicrwydd bod cynnydd a gwelliant yn digwydd. Roedd angen i'r Aelodau gael gwybodaeth fwy manwl fyddai'n dangos y cynnydd.
- Dylid rhoddi ystyriaeth i adolygu symudiad rhwng y categorïau goleuadau traffig fel na fydd meysydd sy'n 'aros yn llonydd' lle nad oes cynnydd wedi ei wneud yn parhau heb eu newid ond y dylid yn hytrach eu dosbarthu tuag i lawr h.y. o amber i goch i ddynodi cynnydd negyddol.
- Bod y Pwyllgor yn dangos ei fwriad i ddynodi un maes / agwedd penodol o berfformiad ar gyfer sgriwtini mwy manwl yn y cyfarfod nesaf lle bo'r dosbarthiad yn parhau yn 'Goch' neu lle bo'r perfformiad wedi dirywio e.e. o adroddiad Chwarter 2 – y ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal i fynd i'r afael â digartrefedd sydd wedi mynd yn ôl o ddosbarthiad 'Amber' i 'Goch'.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU : Y Rheolwr Sgriwtini i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ddarparu i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf wybodaeth ynglŷn â'r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad yng nghyswllt rheoli a mynd i'r afael â materion digartrefedd.**

**Y Cynghorydd Selwyn Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**
**(Galw Penderfyniad i Mewn)**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G. Davies, W.I. Hughes, W.T. Hughes, Vaughan Hughes, Eric Jones, Elwyn Schofield. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo)<br>Swyddog Sgriwtini (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr H. Eifion Jones, R. Dylan Jones, Ieuan Williams, W.J. Chorlton (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a TGCh) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones (yr Aelod Arweiniol o ran galw'r Penderfyniad i mewn), y Cynghorydd R.G. Parry OBE (Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo, Mân-ddaliadau a Rheoli Asedau). |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorydd W.T. Hughes ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen gan ei fod yn denant mân-ddaliad, ond dywedodd ei fod yn bresennol heddiw oherwydd mai cyfarfod oedd hwn yn bennaf ynghylch mater polisi. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol gan y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol a'i fod wedi cael gwybod ganddo nad oedd ei ddiddordeb yn un oedd yn rhagfarnu.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Yn unol ag Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ystyriwyd a phenderfynwyd gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**3 MATERION A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR AM SYLW MEWN PERTHYNAS Â GALW PENDERFYNIAD I MEWN**

Cyflwynwyd Ffurflen Galw Penderfyniad i Mewn a arwyddwyd gan 5 aelod o'r Cyngor nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, sef y Cynghorwyr Thomas Jones, Eric Jones, Elwyn Schofield, W.I. Hughes a Vaughan Hughes. Roedd y ffurflen yn ymwneud â phenderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo, Mân-ddaliadau a Rheoli Asedau a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a TGCh mewn perthynas â gwerthu amryfal eiddo mân-ddaliadau.

Cyflwynwyd i sylw'r pwyllgor gofnod o'r Rhybudd o Benderfyniad dyddiedig 27 Tachwedd 2012 ynghyd ag adroddiad eglurhaol yn nodi'r rhesymau am y penderfyniad.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cafwyd amlinelliad o'r rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn gan y Cynghorydd Thomas Jones fel yr Aelod Arweiniol. Roedd y rhesymau hyn yn cynnwys y gred fod y penderfyniad a wnaed, yn rhannol, yn newid yn y polisi o ran rheoli mân-ddaliadau ac y dylai fod yn destun sgriwtini.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) gyd-destun a chefndir y cynigion a ffurfiai'r penderfyniad gweithredol a wnaed a dywedodd bod y cynigion hynny wedi eu hystyried fel eithriad i'r polisi yn hytrach



DRAFT

na newid polisi.  Cyfeiriodd at nodau ac amcanion y rhaglen gwella mân-ddaliadau a'r hyn yr oedd y rhaglen wedi ei gyflawni hyd yma, yn ogystal â'r hyn a oedd ar ôl i'w wneud a'r opsiynau dan sylw. Cyfeiriodd hefyd at gyfrifoldebau'r Cyngor Sir fel landlord.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wyntyllu eu barn am y penderfyniad a wnaed o ran gwerthu'r mân-ddaliadau a'r cynigion cysylltiedig.  Tynnwyd sylw at y materion isod yng nghwrs y trafodaethau -

- Bod yr aelodau o'r farn bod creu polisi a newid polisi yn dod o dan gylch gorchwyl y Cyngor Sir a'u bod yn credu bod y cynigion yn yr adroddiad mewn perthynas â gwerthu un o'r mân-ddaliadau mwyaf yn tynnu'n groes i bolisi.
- Pwysigrwydd y stad mân-ddaliadau fel endid ac fel cyfrwng a sefydlwyd i sicrhau darpariaeth o dir sylweddol ar gyfer cyfleon ffermio.
- Yr angen i ailystyried rhai agweddau ar reolaeth mân-ddaliadau er budd gwneud gwaith cynnal a gwella a hefyd,
- yr angen i adolygu'r sefyllfa sydd ohoni ynghyd â'r cyfeiriad teithio i'r dyfodol a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) a'r Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo, Mân-ddaliadau a Rheoli Asedau i'r materion a godwyd ac eglurwyd rhai pwyntiau mewn perthynas â'r polisi a'r hawl i gymeradwyo polisïau.  Esboniodd y Swyddog bod y Pwyllgor Gwaith, ym mis Tachwedd 2010, wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo cynlluniau, polisïau a dogfennau strategol i'r Aelod Portffolio ac eithrio'r cynlluniau hynny sydd wedi eu neilltuo i'w penderfynu gan y Cyngor llawn h.y. y cynllun rheoli asedau corfforaethol.

**Penderfynwyd –**

**Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo, Mân-ddaliadau a Rheoli Asedau a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a TGCh i'w ail-ystyried am y rhesymau isod:**

- **Er mwyn cydymffurfio gyda pholisi**
- **Ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi**
- **Sefydlu Panel o 5 aelod gyda chydbwysedd gwleidyddol i adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â'r stad mân-ddaliadau o ran incwm a gwariant a'r blaenoriaethau ar gyfer y stad i'r dyfodol.**

*(Ni chymerodd y Cynghorydd W. T. Hughes ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater uchod).*

**Y Cynghorydd Selwyn Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr E.G.Davies, Eric Jones, G.O.Jones, H.Eifion Jones, G.W.Roberts, OBE, Elwyn Schofield |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau Dynol)<br>Rheolwr Gwasanaethau TG (Mr Barry Eaton)<br>Rheolwr Sgriwtini (Bev Symonds)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, W.I.Hughes, W.T.Hughes, R.Dylan Jones, Selwyn Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr W.J.Chorlton (Deilydd Portffolio Cyllid), Ms Gill Lewis (Uwch Ymgynghorydd Ariannol), Mr Tony Furber (Cyfrifydd) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod Arbennig hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynwyd er sylw ac ystyriaeth y Pwyllgor, gynigion drafft cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2013/14 fel yr oeddent wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori 'Wynebu'r Heriau'. Roedd yr adroddiad yn crynhoi cynigion Cyllidebol/Gwella penodol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 ynghyd â'i strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a blaenoriaethau'r Cyngor o fewn y cyd-destun o galedi ariannol ac economaidd a'r ffactorau lleol a oedd yn dylanwadu ar y broses o osod y gyllideb mewn perthynas â'r heriau a'r cyfleoedd cymdeithasol - economaidd; patrymau poblogaeth, materion ffordd o fyw, a pherfformiad y Cyngor.

Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad byr ar y prif ystyriaethau y gallai'r Pwyllgor fod angen rhoi sylw iddynt wrth drafod cynigion cyllideb 2013/14, gan gyfeirio hefyd at y ceisiadau am wybodaeth ar gyfer gwaith sgriwtini paratoadol a gododd o'r cyfarfodydd rhwng cadeiryddion / is-gadeiryddion sgriwtini a gweithdai yn ystod y broses o ffurfio'r gyllideb yn y cyfnod cyn ac ar ôl y Nadolig.

Rhoddodd Mrs Gill Lewis, y Prif Ymgynghorydd Ariannol, ddisgrifiad o sut y lluniwyd y gyllideb ddisymud ar gyfer 2013/14 a'r ffactorau a oedd yn effeithio ar y broses honno gyda chyfeiriad arbennig at yr adroddiad ar y cynigion cyllidebol cychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Ionawr 2013. Roedd bwlch cyllido blwyddyn ariannol 2013/14 ar hyn o bryd yn £2.85m er bod gwaith ar adolygu a diweddaru'r ffigurau yn parhau. Roedd strategaeth gyllidebol wedi ei ffurfio a oedd yn caniatáu diogelwch i gyllidebau addysg a gofal cymdeithasol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gyda hynny'n golygu bod gofyn i wasanaethau eraill nodi arbedion ar lefel o

7%. Gofynnwyd i'r gwasanaethau hynny ddangos beth fyddai arbedion o 7% yn ei olygu ac roedd y wybodaeth honno i'w gweld yn Atodiad B ac roedd Atodiad C yn dangos yr effaith ar wasanaethau unigol. Roedd bidiau twf i'w gweld yn Atodiad CH i adroddiad 7 Ionawr, gyda nodyn eglurhaol yn dweud a oeddent wedi eu hargymell ai peidio fel rhan o becyn y gyllideb. Cyfeiriodd y Swyddog at y sefyllfa o safbwynt Arian Argyfwng, Arian wrth Gefn a Balansau, gan wneud sylw arbennig ar ddigonolrwydd arian wrth gefn yr Awdurdod ar hyn o bryd yng nghyd-destun dyfyniad gan Brif Weithredwr CIPFA oedd yn cynghori y dylid bod yn wyliadwrus wrth ddefnyddio arian wrth gefn unwaith-yn-unig i gyllido diffygion mewn cyllid ailadroddus. Roedd y cyngor hwn yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd Swyddogion yn gweld pethau. Dywedodd y Prif Ymgynghorydd Ariannol bod yn rhaid cael cydbwysedd rhwng cael cyllideb gynaliadwy wrth symud ymlaen a bod yn ofalus i gynnal lefel yr arian wrth gefn. Roedd y balansau wedi eu hadolygu a gwnaed cynnig i ddefnyddio rhywfaint ohonynt sy'n caniatáu ar gyfer peidio rhoi swm o'r neilltu yn 2013/14 tra'n cynnal lefel gyffredinol o arian wrth gefn sy'n ddigonol.

Cafwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn benodol ar gynigion i arbed yn y gwasanaethau corfforaethol a'r targed o £239k oedd yn Atodiad C. Cyfeiriodd at y buddsoddiad sylweddol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol yn y gwasanaethau corfforaethol er mwyn cryfhau capasiti i gyfarfod â gofynion ychwanegol ac eglurodd ei bod yn rhagweld y gellid gwneud nifer o arbedion corfforaethol unwaith yr adolygir y gwasanaethau TG ac ar ôl gwneud mwy o waith mwy manwl ar faterion trawsnewid. Felly, tra bo'r arbedion ar gyfer 2013/14 i'w gweld yn gyfyngedig, y farn yw bod y gwasanaethau corfforaethol angen mwy o amser i roi rhai o'r rhaglenni trawsnewid ar waith o safbwynt defnyddio TG yn fwy effeithiol a gweithredu systemau mawr newydd fel y Ledjer a'r Systemau AD ac i'r arbedion ddod i'r amlwg. Aeth y Swyddog ymlaen i egluro mai un o'r prif amcanion ac un o'r ffynonellau tebygol o fedru gwneud arbedion yw trwy drawsnewid y ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithio a'r lefel o fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth y dulliau o weithredu. Ymhelaethodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) wedyn ar sut y byddai cyflwyno'r system Ledjer ariannol newydd yn cynhyrchu arbedion.

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r holl wybodaeth a gyflwynwyd yng nghyswllt cynigion Cyllideb 2013/14. Roedd y canlynol yn faterion yr oedd yr Aelodau angen cael eglurhad ac esboniad arnynt ac fe wnaed y sylwadau a ganlyn -

- Cronfeydd argyfwng. Gofynnwyd i Swyddogion egluro beth oedd pwrpas y gwahanol gronfeydd a oedd wedi eu nodi yn Atodiad A i adroddiad Ionawr 7 i'r Pwyllgor Gwaith ac yn adran 4.1 yr adroddiad, eu statws cyfredol, y swm oedd wedi ei ddyrannu i bob cronfa argyfwng a'r amcanion wrth wneud y dyraniadau hynny. Cyfeiriwyd yn arbennig at y gronfa ar gyfer cost newid a'r diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn oedd yn dod o dan y gronfa o safbwynt capasiti ychwanegol i yrru'r rhaglenni newid yn eu blaenau.
- Cyfeiriwyd yn arbennig hefyd at y Gronfa Ddiswyddo a holwyd a oedd y £1m a oedd wedi ei osod o'r neilltu ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 wedi ei wario; a oedd hynny wedi arwain at leihad yng nghostau cyffredinol staff a gwir lefel y gostyngiad, ac a oedd y strategaeth yn cynrychioli gwerth am arian o ystyried bod cyfanswm costau cyflogau'r Awdurdod yn 2013/14 yn uwch nag yn 2012/13.
- Arian wrth gefn. Gofynnwyd i Swyddogion ddarparu dadansoddiad o lefelau cyfredol yr arian wrth gefn ar draws y Cyngor, yn cynnwys arian wrth gefn a glustnodwyd, balansau cyffredinol ac arian wrth gefn y gwasanaethau ac egluro'n fanylach beth sy'n cael ei gyfrif fel lefel dderbyniol o ran digonolrwydd yr arian wrth gefn. Ceisiwyd cael eglurhad hefyd o'r rhesymeg dros y cynnig bod £500k ychwanegol yn cael ei ddyrannu i arian wrth gefn canolog ac a oedd hyn yn gynnig anarferol. Gan gyfeirio at arian wrth gefn gwasanaethau, roedd yna gwestiynau yn arbennig ynglŷn â'u defnydd arfaethedig a chyflwynwyd safbwynt y dylai'r ychwanegiad arfaethedig o £500k i'r arian wrth gefn canolog gael ei dynnu o falansau'r holl wasanaethau.
- Gwnaed awgrymiadau mewn perthynas â gwneud defnydd gwell a mwy creadigol o Fenthyca Pwyllog mewn hinsawdd o logau/cyfraddau benthyca isel, yn arbennig yng nghyd-destun uwchraddio'r stad fân ddaliadau ac effaith hynny o ran creu gwaith.
- Cafwyd awgrymiadau mewn perthynas â gwneud gwell defnydd o adeiladau'r Awdurdod a gwneud defnydd o leoedd gwag sydd yn yr adeiladau ar hyn o bryd gyda golwg ar ostwng gorbenion a hefyd y posibilrwydd o werthu unedau nad oes mo'u hangen.
- Staff contractyddol ac asiantaeth. Cyfeiriwyd at ddefnyddio staff asiantaeth dros dymor hir a staff o dan gontractau yn y gwasanaethau corfforaethol a cheisiwyd cael eglurhad o'r



DRAFT

cynlluniau i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth nad ydynt yn rhai parhaol a'r costau cysylltiedig.

- Ceisiwyd cael eglurhad ar y gostyngiad o £20k a ragwelwyd yng nghyfanswm costau lwfansau'r Aelodau. Roedd teimlad bod y swm yn rhagamcan ceidwadol ac nad oedd yn adlewyrchu'r gwir arbediad yn dilyn lleihau nifer yr Aelodau ar ôl Mai 2013.
- Ceisiwyd cael eglurhad ar y cais am arian twf £300k fel buddsoddiad a chyfraniad y Cyngor i'r Rhaglen Ynys Ynni o ran ar ba sail yr oedd wedi ei gynnwys fel rhan o'r gyllideb; a oedd yn wariant unwaith-yn-unig neu'n gyllid ailadroddus ac am beth y byddai'r cyllid yn talu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy bod y cais yn un am £300k am 3 blynedd a'i fod yn cynrychioli gwariant fyddai'n denu arian cyfatebol a gwasanaethau o ffynonellau ac asiantaethau eraill ac a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ffrydiau gwaith, sgiliau, y gadwyn gyflenwi ac isadeiledd strategol.
- Risgiau. Ceisiwyd cael eglurhad a oedd ystyriaeth wedi ei rhoi i'r risg o beidio â gweithredu'r arbedion yn llawn ac a oedd y rheini wedi eu cynnwys yn y gofrestr risg.
- Statws y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ac a oedd y rhaglen hon wedi ei disodli gan gynigion arbedion 2013/14.
- A oedd gostwng cyllidebau cynnal a chadw Priffyrdd a chynnal ysgolion mewn gwirionedd yn gam gwag oherwydd y gallai arwain at orfod gwario mwy yn y tymor hir? Eglurodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod cyfeiriad wedi ei wneud at leihau cyllidebau cynnal a chadw ysgolion yn y cynnig gwreiddiol o arbedion posibl a nodwyd, ond nid oedd y cynnig wedi ei gynnwys yn Atodiad B2 yn y pecyn ymgynghori terfynol.
- Ffioedd a thaliadau. Awgrymwyd y dylid ystyried adolygu'r cap o 2% ar gynnydd mewn ffioedd a thaliadau, a hynny er mwyn lliniaru'r baich ar y trethdalwr fel bod y cynnydd yn disgyn ar y defnyddiwr gwasanaeth.

Ymatebodd y Swyddogion a'r Deilydd Portffolio Cyllid gan roi eglurhad ar bob un o'r materion a godwyd. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth y Pwyllgor y byddai yna Raglen Flaenoriaethau Fforddiadwy newydd yn seiliedig ar agwedd fwy strategol i greu arbedion mewn paratoad ar gyfer y Cyngor newydd. Dywedodd bod angen cynnydd o'r adolygiadau gwasanaeth i greu strategaeth arbedion wedi ei chysylltu gyda'r rhaglenni trawsnewid gwasanaeth mewn perthynas ag ysgolion, gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd a gofal cymdeithasol. Rhaid hefyd ystyried arbedion o ran ffyrdd o weithio, ail-gyflunio'r defnydd o adeiladau, a gwneud gwell defnydd o systemau TG. Dywedodd y Swyddog y bydd yn rhaid i'r Cyngor newydd gymeradwyo'r Strategaeth Arbedion ar ôl mis Mai 2013, ond byddai mewnbwn gan yr aelodau presennol yn cael ei groesawu trwy gyfarfod arbennig neu anffurfiol o'r pwyllgor hwn neu drwy ddulliau eraill.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynigion Cyllideb drafft 2013/14 fel yr oeddynt wedi eu cyflwyno.**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Sgriwtini a'r Grŵp Llywio Sgriwtini i ffurfio ymateb sgriwtini ffurfiol i Gynigion Cyllidebol y Pwyllgor Gwaith.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Rheolwr Sgriwtini i gydlynu'r ymateb sgriwtini ffurfiol i Gynigion Cyllidebol 2013/14 cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.**
- **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i gylchu data Chwarter 3 i'r Aelodau ynglŷn â lefel yr arian wrth gefn a'r balansau unwaith y bydd yr wybodaeth ar gael.**
- **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i roi eglurhad ysgrifenedig i'r Aelodau ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig o £500k i ailgyflenwi'r arian wrth gefn.**

**Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)**
**Yn y Gadair**

DRAFT

This page is intentionally left blank

*RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN .........*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **4 MAWRTH 2013** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF 2012-13 - CHWARTER TRI** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |
| **Rheswm am yr adroddiad:**<br>Ar gais y Pwyllgor Sgriwtini. | |

Ynghlwm mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 February 2013. Gwahoddir y Pwyllgor Sgriwtini i ystyried yr adroddiad ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Gwaith.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **18 CHWEFROR 2013**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 CHWEFROR 2013** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – TRYDYDD CHWARTER 2012-13** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **EINIR WYN THOMAS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **EINIR WYN THOMAS (FFÔN: 2605)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Fel y gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllidebau ar lefel gorfforaethol.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

1. **CEFNDIR**

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb cyfalaf am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad A, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.

**1.2** Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, adolygwyd sawl brosiect mawr, yn cynnwys rhaglen y cartrefi preswyl a'r rhaglen rhesymoli'r canolfannau hamdden. Roedd y ddwy raglen hyn angen cyfeiriad newydd. Mae hyn yn golygu nad yw'r cyllidebau cyfalaf cysylltiedig wedi cael eu dyrannu (ynghyd â chyllideb o £1.2m a glustnodwyd ar gyfer cartrefi preswyl).

2. **CYNNYDD**

**2.1** Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Ragfyr yn £8.7m ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 45% o'r gyllideb gyfan. Mae hyn yn debyg i'r un cyfnod y llynedd (£6.7m, 44%). Mae hyn oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar nifer o'r cynlluniau mwy eleni, yr un modd â llynedd, yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn. Eleni er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar brosiectau adleoli Ysgol y Bont a gwella Safle Mwynderau Sifig Penhesgyn a phrosiect Y Tair Tref (Cydgyfeiriant) yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, cychwynnwyd gwaith yn ddiweddar ar ddau gynllun mawr a gyllidir gyda grantiau (Grant Menter Canolfan Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Grant Gwaith Strydlun). Llynedd cafodd y rhan fwyaf o'r arian ar nifer o gynlluniau mwy megis prosiect Y Tair Tref (Cydgyfeiriant), y cynllun benthyciadau Tai Fforddiadwy a'r gwaith cychwynnol ar adleoli Ysgol y Bont ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn.

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Medi ar gynlluniau tai oedd £7.5m, sef 63% o'r gyllideb gyfan. Mae'r gwariant ar yr un lefel â'r un cyfnod y llynedd (£6.4m, 56%). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gwaith CRT yn mynd rhagddo ar yr un lefel â llynedd. Mae'r gwaith SATC bellach wedi'i gwblhau a rhagwelir llithriad ar y gwaith cynnal wedi ei gynllunio a'r gwaith o ffeirio systemau tanwydd.

**2.3** Mae'r cyfanswm gwariant hyd at ddiwedd Medi yn 52% o'r gyllideb. Mae hyn oherwydd bod dwy ran o dair o'r rhaglen gyfalaf yn ymwneud â chynlluniau ac eithrio tai ac yn cynnwys cynlluniau mawr y bydd y rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario arnynt tuag at ddiwedd y flwyddyn.

**2.4** Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio fel arfer ar gynlluniau a gyllidir gydag arian grant a phrosiectau eraill lle gall fod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel y dywedwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd ar y gweill. Hefyd, mae pump o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar y gweill, un o'r rhain yw'r cynllun i adleoli Ysgol y Bont.

**2.5** Y gyllideb ar gyfer Ysgol y Bont yw £6.2m ar gyfer 2012-13 allan o'r cyfanswm a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect, sef cyllideb o £10.9m. Dywedwyd eisoes y rhagwelir y bydd £5.0m wedi cael ei wario ar y cynllun erbyn diwedd y flwyddyn. Oherwydd yr oedi a gafwyd yn sgil y tywydd mawr, mae'r gwaith adeiladu 6 wythnos ar ei hôl hi ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd modd dal i fyny yn ystod y flwyddyn nesa a chwblhau'r prosiect yn unol â'r disgwyl ddiwedd yr haf 2013. Mae risg i gyllideb grant eleni ond ar hyn o bryd, mae'r Swyddogion wrthi'n gweithio i sicrhau fod y risg yn cael ei finimeiddio.

**2.6** Yn ogystal, adroddwyd yn flaenorol, bod y Gwasanaethau Eiddo, oherwydd yr oedi o ran cael derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau a'r ffaith bod y derbyniadau hynny'n llai, wedi diwygio'r cynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud ac mae pethau'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl ond, oherwydd cyflwr y farchnad, mae incwm o dderbyniadau yn parhau i fod yn isel o gymharu â'r disgwyliadau blaenorol. Bellach, cyflwynwyd opsiynau i'r Aelodau Portffolio ar gyfer Eiddo a Chyllid mewn perthynas â gwerthu eiddo i gefnogi'r rhaglen. Cafodd eu penderfyniad ar yr opsiynau hyn ei alw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a cyhoeddwyd y penderfyniad a ailddatganwyd yn Ionawr 2013.

**B – Ystyriaethau**

**3. <u>ADNODDAU</u>**

**3.1** Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid Cydgyfeiriant, uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac mae'r cyllid cyfatebol hefyd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau hyn. Nid yw bidiau pellach yn bosib ar hyn o bryd. Mae posibilrwydd y bydd cyllid ychwanegol ar gael, ac os bydd hynny'n digwydd, bydd yr opsiynau'n cael eu hadolygu.

**3.2** Mae'r derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio ar gyfer eleni ac y cyllidebwyd ar eu cyfer, ar ôl effaith canlyniadau 2011-12 a'r derbyniadau hyd yma, fel a ganlyn:-

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Derbyniwyd hyd at Mis 9 £'000 |
|---|---|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 100 | 70 |
| Gwerthu Tir | Dim | Dim |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | | |
| Taliadau a ad-dalwyd | } 200 | 133 |
| Grantiau a ad-dalwyd | | |
| Arall | | |
| Mân-ddaliadau | [250] | 389* |
| Cyffredinol | | |
| Diwydiannol | } 800 | 363 |

**Incwm Mân-ddaliadau yn erbyn cyllideb ddangosol*
*Nid yw'r diffyg yn nerbyniadau cyfalaf y llynedd wedi ei adlewyrchu uchod. Adolygir effaith hynny fel rhan o gynlluniau rhesymoli asedau.*

Mae cyllid yr Awdurdod yn y flwyddyn ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yn deillio o dderbyniadau cyfalaf a ragwelir pan fydd safle Ysgol y Graig yn cael ei werthu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol a diwydiannol pellach oddeutu £100k a £200k. Mae'n bosib, felly, y bydd lefel y derbyniadau'n is na'r lefel y cyllidebwyd ar ei chyfer. Mae hyn oherwydd cyflwr cyfredol y farchnad gydag amseriad a lefel y derbyniadau'n llai ffafriol na'r hyn a ragwelwyd i gychwyn.

## 4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

**4.1** Nid oes unrhyw newidiadau neu newidiadau posib wedi dod i'r amlwg, ar wahân i'r rheini yr adroddwyd arnynt yn y chwarteri blaenorol.

**4.2** Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | Dygwyd Ymlaen 2011-12 £'000 | Cyllideb 2012-13 £'000 | Dyrannwyd 2012-13 £'000 | Cyfanswm ar gael 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | 848 | Dim | 113 | 735 |
| Cronfa wrth gefn – Gwelliannau Hamdden | 195 | Dim | Dim | 195 |
| Cronfa wrth gefn – benthyca digefnogaeth | Dim | 1,000 | Dim | 1,000 |
| Cronfa wrth gefn heb ei dyrannu – (cartrefi preswyl) | 1,202 | Dim | Dim | 1,202 |
| Heb ei dyrannu | 1,000 | 800 | Dim | 1,800 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | 460 | 100 | 30 | 530 |

Crafangir yn ôl y cyllidebau refeniw heb eu dyranu.

## 5. RISG ARIANNOL

**5.1** Y prif risgiau ariannol ar gyfer eleni yw'r risgiau sy'n ymwneud â'r prosiectau mwy a gyllidir gan Ewrop. Wrth edrych i'r dyfodol, pery risgiau'n ymwneud â darparu Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**5.1.1** Mae'r Prosiect Arfordirol a'r Rhaglen Tair Tref yn cynnwys prosiectau adeiladu cymhleth gyda materion cydymffurfiaeth a photensial i redeg dros y gyllideb. Mae'r ddau brosiect hyn yn cael eu rheoli trwy dechnegau rheoli prosiect a oruchwylir gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy.

**5.1.2** Dywedwyd eisoes bod swyddogion wedi cychwyn proses o werthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Phartneriaethau Lleol i adolygu amrediad o gynigion sydd wedi eu halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau, opsiynau darparu a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniadau yn y man pan fydd y gwaith o werthuso'r opsiynau wedi dod i ben.

**5.1.3** Adroddwyd eisoes fod y Cynllun Band A ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) yn mynd rhagddo ac y bydd angen cyflwyno Achos Amlinellol Strategol (AAS) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod y chwarter, cyflwynodd yr Adran Hamdden adroddiad i'r pwyllgor hwn o'r enw 'Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn Ynys Môn – Caergybi a Chanol Ynys Môn'. Yn dilyn yr adroddiad hwnnw, gwnaeth y pwyllgor hwn nifer o benderfyniadau gan gynnwys yr opsiwn i ymgynghori'n ffurfiol ynghylch cau'r ysgolion cynradd a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect hwn, lleoliad yr ysgol newydd ac y bydd adroddiad ar nifer o faterion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith cyn mynd allan i ymgynghori ac y bydd y materion hynny'n cynnwys perchenogaeth tir, diogelwch ffyrdd a fforddiadwyedd. O'r herwydd, rhoddwyd y gorau i'r AAS am y tro.

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Cynhwysir y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Rhagfyr yn £8.7 (45% o'r gyllideb gyfan). Gwariwyd £7.5m ar gynlluniau tai (63% o'r gyllideb gyfan) hyd at fis Rhagfyr. Roedd y gwariant cyffredinol yn 52% o'r gyllideb gyfan gan fod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mwy, fel ail-leoli Ysgol y Bont, yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Cafwyd cyfanswm o £0.6m mewn derbyniadau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr (heb gynnwys derbyniadau a oedd wedi eu clustnodi'n benodol ar gyfer y mân-ddaliadau). Disgwylir i dderbyniadau cyffredinol a diwydiannol gyrraedd rhwng £0.5m a £0.6m erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer mân-ddaliadau, sydd wedi cael eu clustnodi'n benodol ar gyfer y rhaglen gwella mân-ddaliadau, fod £2m yn is na'r gwariant erbyn diwedd y flwyddyn ond y byddant yn dal i fyny yn y flwyddyn wedyn.

Yn wyneb y sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r gyllideb refeniw a'r canlyniadau a ragwelir, efallai y bydd angen torri'n ôl ar y defnydd posib o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu.

Mae'r prif risgiau ariannol yn ymwneud â Chynlluniau Cydgyfeiriant, sy'n cael eu goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, a chyflawni rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, sy'n rhedeg ar yr un pryd â'r rhaglen rhesymoli asedau. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Phartneriaethau Lleol i adolygu amrediad o gynigion sydd wedi'u halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau, opsiynau darparu a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Wedi i'r gwaith o werthuso'r opsiynau ddod i ben, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y man fel y gall wneud penderfyniadau. Dywedwyd eisoes fod y Cynllun Band A ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) yn mynd rhagddo ac y bydd Achos Amlinellol Strategol (AAS) yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod y chwarter, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ymchwilio i nifer o feysydd yn ymwneud â'r prosiect hwn ac, o'r herwydd, rhoddwyd y gorau i'r AAS am y tro.

| D - Argymhelliad |
| --- |
| Nodi cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf. |

**Enw awdur yr adroddiad:** Einir Wyn Thomas
**Swydd:** Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
**Dyddiad:** 6 Chwefror 2013

| Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A: Cyllideb Cyfalaf 2012-13 - Crynodeb Rhagfyr 2012 |

| Papurau Cefndirol: |
| --- |
| Dim |

**EINIR W THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **6 CHWEFROR 2013**

## Cyllideb Cyfalaf 2012-13 : Rhagfyr 2012

| Prosiectau | Cyllideb 2012-13 £'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | Gwariant % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **11,040** | **912** | **11,952** | **7,531** | **63** | |
| Tai Cyngor | 9,800 | 0 | 9,800 | 6,728 | 69 | Yn gyffredinol, mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r disgwyl. Yn unol â'r rhaglen, cwblhawyd gwaith SATC yn ystod Rhagfyr. Mae gwaith isadeiledd ar y gwasanaethau mewn perthynas â'r cynllun newid tanwydd wedi cychwyn mewn 3 lleoliad. Bydd prosiect mawr arall yn cychwyn yn ystod Ebrill 2013 a bydd ymrwymiad sylweddol yn cael ei drosglwyddo i 2013-14. Rhagwelir llithriad ar y gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. Rhagwelir y bydd oddeutu £8.0m yn cael ei wario ar y rhaglen CRT gyfan yn ystod y flwyddyn. |
| Preifat-Grantiau | 1,200 | 458 | 1,658 | 600 | 36 | Cafodd y polisi grantiau tai newydd ei fabwysiadu yn ystod y chwarter ac mae gwariant ac ymrwymiadau ar grantiau/benthyciadau ychydig yn is na'r disgwyl. Disgwylir y bydd llithriad ar ddiwedd y flwyddyn oddeutu'r un lefel â llynedd. |
| Tai Fforddiadwy | 40 | 454 | 494 | 203 | 41 | |
| **Addysg** | **7,456** | **1,008** | **8,464** | **3,604** | **43** | |
| Ail-leoli Ysgol y Bont | 6,110 | 93 | 6,203 | 2,581 | 42 | Cafwyd rhywfaint o oedi gyda'r rhaglen waith a bydd hynny'n arwain at lithriad ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y prosiect yn dal i fyny yn y misoedd nesaf ac y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau ar amser. Disgwylir y bydd gwariant erbyn diwedd y flwyddyn oddeutu £4 - £4.5m. Mae Swyddogion mewn cyswllt gyda LlC i sicrhau nad oes unrhyw risg i'r cyllid grant. |
| Addysg: Arall | 1,346 | 915 | 2,261 | 1,023 | 45 | Mân gynlluniau yw'r rhain sy'n werth £1.4m ac mae swm wrth gefn o £0.9m tuag at gostau Ysgolion y 21ain Ganrif. Disgwylir y bydd y mân gynlluniau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Adfywio** | **7,390** | **-361** | **7,030** | **3,380** | **48** | |
| Datblygu Economaidd - Isadeiledd Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 150 | 0 | 150 | 0 | 0 | Fel y dywedwyd eisoes, mae swyddog prosiect wedi cael ei benodi ac mae'r prif gynllun wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. |
| Dat Econ : Arall | 545 | 721 | 1,265 | 209 | 16 | Mae rhan fawr o'r llithriad yn ymwneud ag astudiaethau dichonoldeb cyfalaf a chyllid partneriaeth. Mae gweithgaredd yn y maes hwn yn codi momentwm ac mae'r rhan fwyaf o'r balansau wedi eu hymrwymo. |
| Eiddo: Amgylchedd Arfordirol | 502 | 0 | 502 | 432 | 86 | Mae'r holl waith adeiladu wedi'i gwblhau. Mae trafodaethau ynghylch cyfrifon terfynol prosiect Pier Biwmares yn parhau. |
| Eiddo: Rhaglen Wella'r Mân-ddaliadau | 535 | -1,081 | -546 | 658 | -121 | Mae'r newidiadau i'r rhaglen waith fel yr adroddwyd arnynt yn chwarter 2 yn mynd rhagddynt yn dda ond, oherwydd cyflwr y farchnad, mae incwm o dderbyniadau gwerthu yn parhau i fod yn is na'r disgwyl blaenorol a hynny'n golygu y bydd y diffyg a ragwelir mewn perthynas â'r prosiect yn cael ei gadarnhau yn y man. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, disgwylir penderfyniad ynghylch cynigion eraill mewn perthynas â gwerthu nifer o ddaliadau penodol i gefnogi'r rhaglen wella gyffredinol a disgwylir y bydd y rhain yn cyfrannu at y proffil incwm yn ystod 2013/14. |
| Rheoli Gwastraff: Safle Mwynderau Sifig - Penhesgyn | 1,000 | 0 | 1,000 | 230 | 23 | Cychwynnodd gwaith ar y safle ym mis Medi. Roedd disgwyl y byddai'r prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys y tywydd, disgwylir y bydd y prosiect yn awr wedi'i gwblhau ym mis Ebrill y flwyddyn hon. Rhagwelir y bydd y gost derfynol £150k yn fwy na'r gyllideb gychwynnol. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 1,601 | 0 | 1,601 | 739 | 46 | Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith eleni yn gysylltiedig â chynllun Treftadaeth Tref Caergybi ac mae rhai cynlluniau grant bellach wedi cael eu cymeradwyo. |
| Priffyrdd: Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2012-13 | 1,700 | 0 | 1,700 | 866 | 51 | Llawer o waith wedi'i wneud. Disgwylir y bydd modd cyflawni'r cyfan o'r amcanion erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Menter Canolfan Trafnidiaeth Gynaliadwy 2012-13 | 480 | 0 | 480 | 25 | 5 | Mae'r cynllun Parcio a Theithio (Llanfairpwll) a'r gwelliannau i Lôn Las Cefni yn mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl a bydd y cynlluniau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Gwaith Strydlun ac Amgylcheddol 2012-13 | 585 | 0 | 585 | 13 | 2 | Mae'r prosiectau naill ai wedi cael eu cwblhau neu mae gwaith yn digwydd ar y safle ac am gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Llwybrau Diogel yng Nghymunedau 2012-13 | 293 | 0 | 293 | 208 | 71 | Mae'r holl brosiectau wedi eu cwblhau i raddau helaeth neu byddant wedi eu cwblhau'n llawn cyn diwedd y flwyddyn. |
| **Arall** | **2,886** | **809** | **3,695** | **1,674** | **45** | |
| Hamdden: Unedau Adennill Gwres | 217 | 117 | 334 | 332 | 99 | Y prosiect wedi'i gwblhau |
| Priffyrdd: Arall | 900 | 59 | 959 | 546 | 57 | Mae'r balans yn ymwneud yn bennaf â rhoi wyneb newydd ar gerbydlonydd, gwaith ar strwythurau a cherbydau. Mae gwariant yn mynd rhagddo ar y rhain a disgwylir mai bychan iawn fydd swm y llithriad arnynt. |
| Eiddo: Arall | 653 | 576 | 1,229 | 531 | 43 | Gwaith yn mynd rhagddo'n ôl y disgwyl. |
| Cynlluniau Adrannol Arall | 1,116 | 57 | 1,173 | 265 | 23 | |
| **Cyfanswm** | 28,772 | 2,369 | 31,141 | 16,188 | 52 | |

This page is intentionally left blank

*RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN ………*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **4 MAWRTH 2013** |
| **PWNC** | **MONITRO CYLLIDEB 2012-13**<br>**CYLLIDEB REFENIW TRYDYDD CHWARTER** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |
| **Rheswm am yr adroddiad:**<br>Ar gais y Pwyllgor Sgriwtini. | |

Ynghlwm mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 February 2013. Gwahoddir y Pwyllgor Sgriwtini i ystyried yr adroddiad ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Gwaith.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **18 CHWEFROR 2013**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **18 CHWEFROR 2013** |
| **PWNC** | **MONITRO CYLLIDEB 2012-13<br>CYLLIDEB REFENIW TRYDYDD CHWARTER** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Monitro'r Gyllideb Refeniw: y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am fonitro'r gyllideb ar lefel gorfforaethol ac am wneud penderfyniadau i drosglwyddo arian neu i gywiro gorwariant o fewn yr Awdurdod – wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor Sir.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Hwn yw'r trydydd adroddiad chwarterol ar gynnydd ar gyllideb refeniw 2012-13, ac mae'n ymwneud â'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2012 gyda rhagamcanion wedi eu diweddaru ar gyfer cyllidebau corfforaethol a'r cyllidebau risg gorfforaethol.

Mae'r tabl yn Atodiad A yn crynhoi gwariant yn erbyn y gyllideb refeniw broffiliedig ar gyfer pob Gwasanaeth ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn. Ceir dadansoddiad pellach yn Atodiad B (gwariant) a C (incwm). Manylir ar y symudiadau cyllideb sydd angen awdurdod y Pwyllgor yn Atodiad Ch.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r sefyllfa gyda'r cyfrifon a'r cyllidebau corfforaethol ac yn dwyn sylw at eitemau neu batrymau sylweddol o fewn cyllidebau Gwasanaeth. Mae hefyd yn rhagamcanu'r canlyniadau ar gyfer 2012-13.

## B – Ystyriaethau

### 1. <u>CYLLIDEBAU GWASANAETH</u>

Dangosir isod y patrymau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

#### 1.1 Addysg

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau mawr ar y gyllideb integreiddio ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gorwariant o £399k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd erbyn diwedd Chwarter 3, ac, er bod gwaith yn cael ei wneud i ostwng lefelau staffio, rhagwelir y bydd gorwariant o £500k erbyn diwedd y flwyddyn, gan na ddaw buddiannau'r gwaith yma'n amlwg hyd nes y 4ydd chwarter, gydag effaith blwyddyn lawn yn 2013-14. Mae'r rhagamcan yn cynnwys y £60k o gostau diswyddo y mae'r Adran Addysg yn ei ysgwyddo.

Yn ogystal, mae'r gyllideb integreiddio gynradd yn gorwario (£102k ar chwarter 3). Gwnaethpwyd gwaith i ddod a'r gwariant yn ôl yn unol â'r proffil unwaith eto. Fodd bynnag, ni chyflawnir yr arbedion effeithlonrwydd o £150k a osodwyd yn ystod y cylch gyllideb 2012-13. Disgwylir bydd y gyllideb wedi gorwario £150k. Mae gwaith yn digwydd i ddod a threfn i'r gyllideb.

Yn ychwanegol, rhagwelir gorwariant ar brydau ysgol o £100k, wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan danwariant rhagoledig ar Wasanaeth Ieuenctid (£20k). Rhagweir gorwariant pellach ar swyddogion lles addysg (£44k) i'w gyllido trwy'r rhaglen gwella ar gyfer Addysg.

Cyfanswm y gorwariant a ragwelir yw £774k, sy'n derbyn sylw i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto y flwyddyn nesa. Mae hyn yn £150k yn uwch na'r rhagolwg ar ddiwedd yr ail chwarter.

**1.2 Rheoli Gwastraff**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld tanwariant oddeutu £190k ar ddiwedd y flwyddyn, ychydig o welliant ar yr ail chwarter, pan ragwelwyd tanwariant o £170k.

Rhagwelir y tanwariannau o £30k ar waredu gwastraff (casglu sbwriel a threth tirlenwi), £32k ar gasglu sbwriel a phrynu biniau ar olwynion, £55k ar gostau cyffredinol safle gwaredu gwastraff Penhesgyn, £80k ar Reoli Nwy ym Mhenhesgyn a £20k ar y gwasanaeth glanhau.

O ganlyniad i benderfyniadau blaenorol, defnyddir y gwarged o £80k a ragwelir ar Reoli Nwy ym Mhenhesgyn ar gyfer ad-daliadau pellach ar y benthyciadau sy'n sefyll. Cynllun buddsoddi er mwyn arbed oedd hwn, gyda'r bwriad o ad-dalu'r £1.087m o fenthyca digefnogaeth, ynghyd a log, dros oes y prosiect.

**1.3 Priffyrdd**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £35k yn Chwarter 3, ychydig yn well na'r £40k adroddwyd yn Chwarter 2.

Bydd yr incwm meysydd parcio £55k yn llai na'r targed a gwrthbwysir hyn yn rhannol gan arbedion staff o £30k ar Hebryngwyr Croesfannau Ysgol a mân wahaniaethau eraill. Fel yr adroddwyd eisoes, dylai'r gwasanaeth fedru ymdopi o fewn ei adnoddau.

**1.4 Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae pwysau sylweddol o fewn sawl gwasanaeth yn y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd adroddiad Chwarter 2 yn pwysleisio risg y bydd gorwariant o hyd at £1.9 miliwn yn y Gwasanaeth oni bai y cymerir camau ar fyrder i liniaru'r sefyllfa gyfredol.

Bu craffu manwl ar gynigion gwario, gwell rhagamcanu ar sefyllfa diwedd blwyddyn, monitro agosach ar gyllidebau, ynghyd a chyflwyno cynlluniau arbedion amrywiol yn fodd i gyfrannu at leihad o sylwedd yn y gorwariant net oedd yn cael ei ragweld, y rhagwelir iddo fod yn £0.5m ar 31 Mawrth 2013.

Er hynny mae pwysau sylweddol yn y gwasaaeth ac mae'r adran yn parhau i gyflwyno nifer o fentrau i ddelio â'r meysydd sy'n gorwario. Y meysydd sy'n creu'r pryder mwyaf yw:-

Gwasanaethau Oedolion - Mae gorwariant sylweddol ar gyflwyno llety preswyl yn y sector breifat ar gyfer cleientau oedrannus (£525k) ac ar gyfer cleientau gydag anghenion iechyd meddwl (£286k), er bod gwrthbwyso rhannol trwy arbedion o £205k ar wasanaethau ar gyfer cleientau gydag anghenion dysgu.

Gwasanaethau Plant - lleoliadau nad ydynt yn safonol ar gyfer plant yr edrychir ar eu hôl. Bydd cynnydd yn niferoedd y plant a'r bobl ieuanc yr edrychir ar eu holau gan yr Awdurdod yn golygu gorwario rhagamcanedig o £732k erbyn 31 Mawrth 2013 er bod nifer o weithredoedd wedi eu cymryd i leihau pwysau'r gwariant gan gynnwys:

- Recriwtio rhagor o ofalwyr maeth;
- Creu Panel Lletya Uwch i asesu yr holl becynnau ansafonol ac all-sirol;
- Ail-negydu contractau efo'r cyflenwyr.

Mae ailstrwythuro sylfaenol o fewn y gwasanaeth ac apwyntio nifer o staff parhaol wedi lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Mae adolygiad cyllideb, sy'n parhau, eisoes wedi canfod nifer o arbedion yn codi o newid yn y darpariaeth sy'n rhannol wrthbwyso'r gwariant ychwanegol ar blant yn derbyn gofal.

Uned ddarparu - nifer o arbedion staffio ac mae adolygiad o gyllidebau yn Uned Ddarparu yr Adran eisoes wedi adnabod arbedion a allai fod yn £112k erbyn diwedd blwyddyn.

**1.5 Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld diffyg o £103k erbyn diwedd y flwyddyn yn bennaf oherwydd methu cyflawni'r arbediad am y flwyddyn o'r gyllideb parciau a llecynau agored (£40k), ac oherwydd gostyngiad sy'n cael ei ragweld mewn incwm, yn cynnwys incwm o'r cwrs golff (£53k) yr archifau (£40k) a'r amgueddfeydd ac orielau (£25k). Mae hyn wedi ei wrthbwyso'n rhannol trwy well incwm o'r canolfannau hamdden (£20k) o ganlyniad i well defnydd yn dilyn y Gemau Olympaidd.

Mae'n welliant o £68k ar Chwarter 2 oherwydd gostyngiad yn y diffyg incwm a ragwelir ar amgueddfeydd ac orielau (£25k nawr yn hytrach na £50k yn Chwarter 2) a'r gwelliant yn incwm y canolfannau hamdden (£20k).

**1.6 Gwasanaeth Eiddo**

Unwaith eto eleni, mae arbedion sylweddol trwy fewnoli'r contract glanhau, a fydd yn arbedion ffurfiol yn y flwyddyn nesaf.

**1.7 Gwasanaethau Eraill**

Mae'r gwasanaethau eraill yn gyffredinol yn rhagweld mân amrywiadau y dylid medru eu cywiro, yn y rhan fwyaf o achosion, trwy gymryd camau lliniarol gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn gwasanaeth os oes rhai. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm o danwario yn y blynyddoedd diwethaf.

## 2. CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL A CHYLLIDEBAU RISG GORFFORAETHOL

| | Gwreiddiol £000 | Rhagamcan diwedd y flwyddyn £000 | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Lleolidadu Allsirol – Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,559 | 0 | Disgwylir i fod o fewn y gyllideb |
| Lleoliadau Allsiriol – Addysg | 1,028 | 0 | Disgwylir i fod o fewn y gyllideb |
| Digartrefedd | 307 net | -60 | Nid yw effaith lawn diwygio'r System Les wedi ei gweld hyd yma, net o orwariant ar brydlesu sector breifat |
| Budd-daliadau | 20,721 gros 28 net | +145 | Effaith rheolau budd-dal newydd ynghylch digartrefedd a newid hawliadau blynyddoedd blaenorol. |
| Taliadau Llog a Dyled | 7,077 | 0 | Disgwylir i fod o fewn neu ychydig yn uwch na'r gyllideb. |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 4,910 | -150 | Arbediad Lwfansau Aelodau (£100k) ynghyd ag arbediad ffioedd archwilio grantiau gan yr Archwilydd Allanol (£50k) |
| Y Dreth Gyngor | 26,704 | 300 | Diffyg a ragwelir ar sail y dreth a chasglu. |
| **Rhagamcan Gorwariant** | | 235 | |

**2.1** Disgwylir bydd y gyllideb ar gyfer Digartrefedd yn dangos gwarged o £60k oherwydd y cynllun pontio a weithredwyd yn ystod cyflwyno'r trefniadau Diwygio Lles, sy'n golygu nad yw'r galw hyd yma wedi cyrraedd y lefelau a ofnwyd. Fodd bynnag, bydd newidiadau deddfwriaethol yn dod i rym ar gyfer y pedwerydd chwarter ac mae'n anodd ceisio rhagweld effaith hynny. Mae hyn ychydig yn llai na'r tanwariant o £70k yr adroddwyd yn Chwarter 2 oherwydd cynnydd o £10k yn y gorwariant a ragwelir ar Brydlesu Sector Breifat i £40k.

**2.2** Disgwylir i'r lleoliadau allsirol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg fod o fewn y gyllideb, fel yn Chwarter 2.

**2.3** Disgwylir y bydd bwlch o £173k rhwng y budd-daliadau a dalwyd a'r cymhorthdal a dderbyniwyd. Mae hyn yn £145k yn waeth na'r gyllideb wreiddiol Y prif reswm am hyn yw'r newidiadau yn y rheolau budd-daliadau lles ar gyfer llety gwely a brecwast i bobl ddigartref. Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast wedi ei amlygu fel mater perfformiad y bydd angen rhoi sylw iddo. Mae'r amrywiad hefyd yn cynnwys newidiadau archwiliad i'r ceisiadau cymhorthdal.

**2.4** Disgwylir i'r Gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd fod wedi tanwario gan £150k erbyn diwedd y flwyddyn yn bennaf oherwydd tanwario ar lwfansau aelodau (£100k) yn dilyn yr oedi wrth ddychwelyd i dalu lwfansau cyfrifoldeb, a lleihad yn y ffioedd archwilio cynlluniau grant (£50k) o ganlyniad i ostyngiad yng nghynlluniau grant. Disgwylir diffyg o tua £300k ar y gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor oherwydd y diffyg ar sail y dreth a'r casglu yn dilyn o'r oedi wrth gwblhau eiddo newydd a'u defnyddio.

## 3. RHAGLENNI ARBEDION AC ARIAN WRTH GEFN

**3.1** Fel yr adroddwyd eisoes, mae dau darged arbedion corfforaethol na chant eu cyflawni eleni. Mae’r arbediad Telerau ac Amodau Teithio Staff o £230k wedi ei symud i 2013-14 ar lefel is. Mae’r targed arbedion caffael o £150k wedi ei gyflawni’n rhannol, a disgwylir ei gyflawni’n llawn y flwyddyn nesaf.

**3.2** Sefydlwyd arian wrth gefn yn y gyllideb ar gyfer eleni. Mae’r cronfeydd hyn yn weddol fychan yn wyneb y risgiau i gyflawni’r targedau arbedion. Y prif gronfeydd wrth gefn yw:

- Cronfa wrth gefn ar gyfer llithriad ar raglenni arbedion - £334k;
- Cronfa wrth gefn ar gyfer contractau a aildendrwyd a materion eraill yr oedd ansicrwydd yn eu cylch ar adeg pennu’r gyllideb - £306k;
- Cronfa wrth gefn cyffredinol - £243k.

Ychwanegir arbedion na chyllidebwyd ar eu cyfer a chrafangu’n ôl o gwasanaethau at y gronfa wrth gefn.

Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £172k o’r gronfa wrth gefn ar gyfer contractau. Gwnaed arbediad hefyd na chyllidebwyd ar ei gyfer o £70k yn sgil effaith ail-dendro’r rhaglen yswiriant am ran o’r flwyddyn.

Mae cais yn symud cyllideb yn ymddangos yn Atodiad Ch.

**3.4** Diswyddiadau: Cymeradwywyd cronfa wrth gefn unwaith ac am byth o £1.2m yng nghyllideb 2012-13. Mae hyn yn cael ei reoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y diswyddiadau angenrheidiol dan y rhaglen arbedion yn cael eu rheoli o fewn y gronfa wrth gefn sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae’r galwad ar y gronfa yn £723k ar gyfer diswyddo, taliadau pensiwn (lwmp swm) a thâl yn lle rhybudd gan adael £466k y gellir, fel y mae pethau ar hyn o bryd, ei drosglwyddo i 2013-14.

| Arian wrth gefn | Swm Gwreiddiol | Defnyddiwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Llithriant | £334k | Cyfan : £90k tuag at costau diswyddo wedi oedi; y gweddill yn erbyn arbedion corfforaethol | Wedi ei osod yn erbyn llithriant |
| Contractau | £306k | £172k – gweler Atodiad Ch | Gweddill i’w osod yn erbyn gorwariant |
| Cyffredinol | £269k | £136k – gweler Atodiad Ch. £190k wedi ei grafangu’n ôl o gyllideb gwasanaeth (Atodiad Ch) | Gweddill i’w osod yn erbyn gorwariant |
| Diswyddo | £1,200k | Defnyddiwyd £723k | £466k yn parhau i fod ar gael |

## 4. PWYSAU A RISGIAU ARIANNOL YCHWANEGOL

**4.1** Mae risgiau ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd gan y rheolwyr.

**4.2** Mae’r Grant Cytundeb Canlyniadau wedi ei dalu ar lefel is dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cwrdd yn rhannol â’r Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru. Cafwyd cadarnhad o lwyddiant 100% yng nghanlyniad llynedd – gwelliant o £180k ar y canlyniad 75% yn y gyllideb.

**4.3** Mae'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r arolygiad diweddar gan Estyn wedi ei gadarnhau a bydd y drefn gwella yn arwain at wariant ychwanegol. Rhagwelir y bydd cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer perfformiad, a gyllidir o Grant Cytundeb Canlyniadau, ar gael.

**4.4** Fel rhan o waith cyflwyno systemau cyllid newydd, gwneir gwaith i adolygu a dileu dyledion sy'n heneiddio yn y system mân-ddyledion. Disgwylir y bydd modd cadw'r swm sy'n cael ei ddileu o fewn i'r darpariaethau drwg ddyledion sy'n bodoli'n barod.

**4.5** Mae grant o £92k bellach wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn gyfredol i dalu am y gost o weithredu'r Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor. Bydd y grant yn cael ei gymryd gan waith sydd eisoes ar y gweill ar y system TG, gwaith modelu ac ymgynghoriaeth.

## 5. Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

**5.1** Mae risgiau o orwario mewn pedair cyllideb gwasanaeth a allai fod cymaint â £1.4m ar y gwaethaf. Mae gorwario o £300k hefyd o ganlyniad i beidio canfod arbedion corfforaethol.

**5.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £235k yn y cyllidebau risg gorfforaethol. Mae'n waeth na'r gorwariant o £75k adroddwyd yn Chwarter 2 oherwydd y tanwariant a ragwelwyd ar lwfansau aelodau (£100k) a'r arbediad ar ffioedd archwilio allanol oherwydd lleihad yn nifer y cynlluniau grant (£50k).

**5.3** Dros y cyfan, rhagwelir gorwarant o £1.9m dros nifer o gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol, wedi ei leihau gan y ddarpariaeth am arbedion yn llithro, darpariaethau heb eu defnyddio, a chyllidebau wedi eu crafangu'n ôl, gan greu diffyg a ragwelir ar gyfer y flwyddyn o £1.0m.

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| **CH – Crynodeb** |
|---|
| Y diffyg a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw hyd at £1.0m fel sydd wedi ei osod allan ym mharagraph 5.<br><br>Mae camau yn cael eu cymryd i ostwng y gorwariant posib ac mae angen monitro hyn a dod ag ef i sylw'r Aelodau ar sail reolaidd. |

| **D – Argymhelliad** |
|---|
| Nodi'r adroddiad a'r gwelliant yn y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn, a chadarnhau'r symudiadau cyllideb yn Atodiad Ch. |

**ENW AWDUR YR ADRODDIAD : EINIR WYN THOMAS**
**TEITL SWYDD : PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)**
**DYDDIAD : 4 CHWEFROR 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| A - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Crynodeb.<br>B - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grŵp Gwariant – Gwariant yn erbyn Proffil y Gyllideb.<br>C - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grŵp Gwariant – Incwm yn erbyn Proffil y Gyllideb.<br>Ch - Symudiadau cyllideb. |
| **Papurau Cefndirol:** |
| |

# MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13
# REVENUE BUDGET MONITORING 2012-13

### Cyfnod i 31 fed o Ragfyr 2012 / Period to 31st of December 2012

### Crynodeb Gwrthrychol / Objective Summary

| | CYLLIDEB<br>BUDGET<br>2012-13<br>£'000 | PROFFIL CYLLIDEB<br>PROFILED BUDGET<br>£'000 | TALIADAU HYD YMA<br>PAYMENT TO DATE<br>£'000 | GWARIANT YN ERBYN CYLLIDEB PROFFIL<br>EXPEDNITURE AGAINST PROFILED BUDGET<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes / Lifelong Learning (Excluding Schools/ Eithrio Ysgolion)** | | | | |
| Ysgolion /Delegated Schools- | 36,638 | 26,336 | 25,852 | -484 |
| Gwasanaeth Addysg/ Education Service | 12,157 | 9,417 | 10,901 | 1,483 |
| **Dirprwy Prif Weithredwr / Deputy Chief Executive** | | | | |
| Gwasanaeth Cyllid/ Finance Service | 672 | 1,971 | 2,085 | 115 |
| Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu/Information Comm Technology Service | 286 | 1,196 | 1,067 | -129 |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol / Human Resources Service | 25 | 565 | 650 | 85 |
| Gwasanaeth Archwilio/ Audit Service | 1 | 166 | 188 | 22 |
| Gwasanaeth Polisi/ Policy Service | -315 | 440 | 712 | 272 |
| Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol/ Committee and Legal Services | 222 | 961 | 984 | 23 |
| Tìm Uwch Reolaeth /Senior Management Team | 1,024 | 765 | 730 | -35 |
| **Datblygu Cynaliadwy/ Sustainable Development** | | | | |
| Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd/ Planning & Public Protection Service | 3,300 | 2,341 | 2,196 | -146 |
| Gwasanaethau Rheoli Gwastraff / Waste Management Services | 8,469 | 7,091 | 6,073 | -1,018 |
| Gwasanaeth Eiddo/ Property Service | 1,031 | 1,535 | 1,133 | -402 |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth/ Highways and Transportation Service | 11,184 | 8,976 | 8,827 | -149 |
| Gwasanaeth Datblygu Economaidd/ Economic Development Service | 1,448 | 772 | 1,428 | 656 |
| **Cymuned/ Community** | | | | |
| Gwasanaeth Tai/ Housing Service | 927 | 1,888 | 3,679 | 1,791 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol/ Social Services | 22,792 | 17,719 | 18,187 | 468 |
| Gwasanaethau Gofal Môn/ Môn Care Services | 3,510 | 1,371 | 1,720 | 349 |
| Gwasanaeth Hamdden / Leisure Service | 1,980 | 1,305 | 1,263 | -41 |
| Gwasanaeth Diwylliant/ Culture Service | 2,111 | 1,269 | 1,279 | 10 |
| **Cyllidebau sy'n Risg Corfforaethol/ Budgets treated as Corporate Risks** | | | | |
| All Sirol Addysg/ Out of County Education | 1,028 | 544 | 496 | -48 |
| All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol/ Out of County Social Services | 1,559 | 1,069 | 871 | -198 |
| Budd-daliadau/ Benefits | 28 | -43 | -18 | 25 |
| Digartrefedd/ Homelessness | 307 | 115 | 453 | 338 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd / Corporate and Democratic Costs | 5,059 | 2,281 | 1,808 | -473 |
| Cynnal a chadw Adeiliadau /Building Maintenance | 25 | 0 | 43 | 43 |
| | **115,468** | **90,050** | **92,606** | **2,556** |
| **YCHWANEGU / ADD** | | | | |
| **Cyllido Cyfalaf a Llog / Capital Financing and Interest** | -46 | | | |
| **Rhyddhad Dewisol o'r Dreth /Discretionary Rate Relief** | 35 | | | |
| **Cronfeydd Wrth Gefn / Contingencies** | 1,935 | | | |
| **Cytundeb Canlyniad / Outcome Agreement** | -412 | | | |
| **Ardollau / Levies** | 3,223 | | | |
| **Arbedion Corfforaethol / Corporate savings** | 0 | | | |
| **Cyfraniad o falansau / Contribution from balances** | -1,200 | | | |
| **Trosglwyddiadau o falansau / Transfers from balances** | 31 | | | |
| | **119,034** | | | |

# MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13

## Cyfnod i 31 Rhagfyr 2012

### Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grwp Gwariant - Gwariant ac Incwm yn erbyn Cyllideb Proffil

| ADRAN | GWASANAETH | Ffioedd a Phrisiau £'000 | Grantiau £'000 | Incwm Arall £'000 | Is-gyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | Gwasanaeth Addysg - Cyllideb Ysgolion wedi'i Ddirprwyo | -24 | 0 | -1585 | -1609 | -484 |
| | Gwasanaeth Addysg - Eithriadau Ysgolion | 134 | -36 | -47 | 51 | 390 |
| | Gwasanaeth Addysg - Addysg Bellach | -3 | 0 | 0 | -3 | 2 |
| | Gwasanaeth Addysg - Rheolaeth a Chefnogaeth | 9 | 0 | 5 | 14 | -247 |
| | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 1185 |
| | Cymorth | 0 | -22 | -7 | -29 | 166 |
| | Ieuenctid a Chymuned | 1 | 0 | -8 | -7 | -33 |
| | Cyfanswm Addysg Gydol Oes | 117 | -58 | -1642 | -1583 | 999 |
| Dirprwy Prif Weithredwr | Gwasanaeth Cyllid - Cyllid | 3 | 0 | 40 | 43 | 100 |
| | Gwasanaeth Cyllid - Refeniw a Budd Daliadau | -5 | -3 | 1 | -7 | 15 |
| | Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu | -27 | 0 | 10 | -17 | -129 |
| | Gwasanaeth Polisi | 3 | 0 | 0 | 3 | 272 |
| | Gwasanaeth Archwilio | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 |
| | Adnoddau Dynol | -2 | 0 | 1 | -1 | 85 |
| | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol | -9 | 0 | 40 | 31 | 23 |
| | Tim Uwch Reolaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | -35 |
| | Cyfanswm Dirprwy Prif Weithredwr | -35 | 0 | 92 | 62 | 353 |
| Datblygu Cynaliadwy | Gwasanaeth Cynllunio - Gweinyddu | 0 | -12 | 0 | -12 | -37 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Cynllunio | -145 | 0 | 5 | -140 | -98 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Adeiladu | 41 | 0 | -23 | 18 | -6 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Eraill | 22 | -3 | 2 | 21 | 6 |
| | Gwasanaethau Gwarchod Y Cyhoedd - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | -4 |
| | Gwasanaethau Gwarchod Y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd | -1 | 0 | 24 | 23 | -14 |
| | Gwasanaethau Gwarchod Y Cyhoedd - Safonau Masnach | 1 | 0 | -14 | -13 | 2 |
| | Gwasanaethau Gwarchod Y Cyhoedd - Marchnadoedd | 14 | 0 | 0 | 14 | 11 |
| | Gwasanaethau Gwarchod Y Cyhoedd - Cofrestrydd | -6 | 0 | 0 | -6 | -6 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | -162 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Adeiladau Gweinyddol | -34 | 0 | -3 | -37 | -18 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Eiddo Amrywiol | -2 | 0 | 0 | -2 | -24 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Arfordir | 58 | 6 | -1 | 63 | -60 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Stadau ddiwydiannol | -47 | 0 | 1 | -46 | -99 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Mân Ddaliadau | -10 | 0 | 0 | -10 | 95 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Contract Glanhau | 0 | 0 | -33 | -33 | -115 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu | -28 | 0 | -76 | -104 | -108 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cludiant | 2 | 0 | -47 | -45 | 32 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu Gwaith | 76 | 0 | -11 | 65 | -44 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Strwythurau | 0 | 0 | 0 | 0 | 56 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 0 | 0 | 52 | 52 | 134 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Parcio | 33 | 0 | -1 | 32 | -76 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | -193 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Goleuo | 0 | 0 | 0 | 0 | -139 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Gwaith Codir Amdano | 0 | 0 | -1 | -1 | 277 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Rheolaeth Fflyd | 0 | 0 | -440 | -440 | -68 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Gwasanaethau Glanhau | 0 | 0 | 0 | 0 | -14 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Casglu a Gwaredu Gwastraff | -140 | -2 | -135 | -277 | -1026 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Cyfleusterau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 |
| | Gwasanaeth Datblygu Economaidd | | | -432 | -340 | 654 |
| | Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy | -140 | -2 | -1133 | -1220 | -1062 |
| Cymuned | Gwasanaeth Tai | | | -2352 | -1715 | 1792 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Rheoli a Chefnogaeth | -1 | 0 | 0 | -1 | -34 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Strategaeth Gwasanaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Theuluoedd | 0 | -51 | -74 | -125 | 306 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Henoed | -9 | 0 | 91 | 82 | 420 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion o Dan 65 Anableddau Corfforol | -10 | 0 | -187 | -197 | -263 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anableddau Dysgu | 4 | 0 | 16 | 20 | -179 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anghenion Iechyd Meddwl | 11 | 0 | 20 | 31 | 202 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyflogaeth wedi'i Chynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | Gwasanaethau Gofal Môn | 71 | -21 | -83 | -33 | 349 |
| | | | | | 0 | |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 0 | 0 | -3 | -3 | 4 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Llyfrgelloedd | 2 | -1 | 3 | 4 | -39 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Diwylliant a Threftadaeth | 39 | -6 | -8 | 25 | 52 |
| | Addysg Oedolion | 0 | 0 | 2 | 2 | -4 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 0 | 0 | -2 | -2 | 3 |
| | Gwasanaethau Hamdden a Chymunedau - Hamdden a Chwaraeon | -70 | -33 | 3 | -100 | -47 |
| | Cyfanswm Cymuned | 42 | -61 | -2574 | -2012 | 2579 |
| | Cyllidebau sy'n cael eu trin fel Risg Corfforaethol | | | | | |
| | All Sirol Addysg | 0 | 0 | -112 | -112 | -48 |
| | All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 5 | 5 | -198 |
| | Budd-daliadau | 0 | -5 | 43 | 38 | 25 |
| | Digartrefedd | 0 | 0 | -2 | -2 | 338 |
| | Costau Corfforaethol a Democrataidd | -16 | 0 | -46 | -62 | -473 |
| | Cynnal a chadw Adeiladau | -1 | 0 | -2934 | -2935 | 43 |
| | CYFANSWM FESUL GRWP | -17 | -5 | -8303 | -7831 | 2556 |

**Atodiad CH**

| **Trosglwyddiadau Cyllideb -Trydydd Chwarter 2012/13** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Disgrifiad** | **Canolfan Cost** | **Grwp Goddrychol** | **Symudiadau Cyllideb Unwaith ac am byth** | | **Symudiadau Cyllideb Parhaol** | |
| | | | | **DR £** | **CR £** | **DR £** | **CR £** |
| ARIAN WRTH GEFN BM7141 | Costau diswyddiadau nad ydynt yn Addysg, o Arian Wrth Gefn **Diswyddo** | Amrywiol | gweithwyr | 319,220 | 319,220 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7142 | Trosglwyddiad Arian Wrth Gefn **Contractau** i'r gwasanaeth yn dilyn ail dendro cyt yn unol â chynnigion twf | Toiledau Cyhoeddus - Golau Strydoedd - Tanciau Septig | cyflenwadau a gwasanaethau | 103,650 | 103,650 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7143 & 7167 | Pwysau ychwanegol nad ydynt yn Addysg ynglyn â diswyddiadau wedi cael eu hoedi, o Arian Wrth Gefn **Llithriad** | Amrywiol | gweithwyr | 89,620 | 89,620 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7144 | Dileu cynnig twf 2012-13 ynglyn â deddfwriaeth newydd o'r gwasanaeth yn ôl i'r Arian Wrth Gefn | Ysgubo Strydoedd | cyflenwadau a gwasanaethau | 190,000 | 190,000 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7145 | Costau diswyddiadau nad ydynt yn Addysg, o Arian Wrth Gefn **Diswyddo** | Corfforaethol a Democrataidd | gweithwyr | 149,670 | 149,670 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7146 | Costau diswyddiad Addysg o Arian Wrth Gefn **Diswyddo** | Addysg | gweithwyr | 199,930 | 199,930 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7147 | Trosglwyddiadau o Arian Wrth Gefn **Cyffredinol** i ariannu costau cyfrannol Gwastraff a Mwynau yn unol â'r dyraniad | Rheolaeth Cynllunio | cyflenwadau a gwasanaethau | 25,610 | 25,610 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7160 | Arian Wrth Gefn **Contractau** -Taliadau a ffioedd yng Nghartrefi Nyrsio Preifat - adolygu ffioedd | Cartrefi Nyrsio Preifat | cyflenwadau a gwasanaethau | 68,000 | 68,000 | | |
| ARIAN WRTH GEFN BM7169 | Cynnydd yng nghyfradd Yswiriant Gwladol 2012-13 heb ei adlewyrchu'n y gyllideb wreiddiol - fel y cytunwyd gan y Cyngor Sir mis Mawrth 2012 | Amrywiol | gweithwyr | 110,000 | 110,000 | | |
| | | | | | | | |

Transfer to compensate for unachieved APP from Corporate Savings

**Atodiad CH**

| Trosglwyddiadau Cyllideb -Trydydd Chwarter 2012/13 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Disgrifiad | Canolfan Cost | Grwp Goddrychol | Symudiadau Cyllideb Unwaith ac am byth | | Symudiadau Cyllideb Parhaol | |
| | | | | DR £ | CR £ | DR £ | CR £ |
| Datblygu Economaidd BM7131 | Trosglwyddo Cyllideb o Gronfa Wrth Gefn ynglyn â grantiau a rhoddion Ynys Ynni | Ynys Ynni | incwm | 54,160 | 54,160 | | |
| Datblygu Economaidd BM7133 | Trosglwyddo Cyllideb ar gyfer Ynys Ynni | Ynys Ynni - Prosiectau Ewropeaidd | amrywiol | | | 62,590 | 62,590 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth BM7155 | Ad- daliau costau staffio i Horizon | Strategaeth Trafnidiaeth Caergybi | gweithwyr | 82,200 | 82,200 | | |
| | | | | | | | |

This page is intentionally left blank

*RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN .........*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **4 MAWRTH 2013** |
| **PWNC** | **STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLIG A CHYNIGION Y GYLLIDEB REFENIW TERFYNOL AR GYFER 2013-14** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |
| **Rheswm am yr adroddiad:**<br><br>Ar gais y Pwyllgor Sgriwtini. | |

Ynghlwm mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 February 2013. Gwahoddir y Pwyllgor Sgriwtini i ystyried yr adroddiad ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Gwaith.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **18 CHWEFROR 2013**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **GYFARFOD Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad** | **18 CHWEFROR 2013** |
| **Testun** | **STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLIG A CHYNIGION Y GYLLIDEB REFENIW TERFYNOL AR GYFER 2013-14** |
| **Deilydd(Deiliaid) Portffolio** | **CYNGHORYDD JOHN CHORLTON (DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID)** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **CLARE WILLIAMS<br>PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **CLARE WILLIAMS/GILL LEWIS** |
| **Natur a rheswm ar gyfer adrodd:**<br><br>Cyflwyno'r cynigion cyllideb refeniw ar gyfer 2013-14 | |

| **A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion** |
|---|
| Gweler Adran 3 yr adroddiad. |
| **B – Ystyriaethau** |
| Gweler Adran 2 yr adroddiad. |

| **C – Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Monitro/Cyfreithiol** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghoriad**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
| --- |
| |

| D – Argymhelliad |
| --- |
| Gweler Adran 2 yr adroddiad. |

**Enw awdur yr adroddiad: Clare Williams, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**
**Dyddiad: 18 Chwefror 2013**

| Atodiadau: | |
| --- | --- |
| Atodiad 1 | Crynodeb o gyllideb arfaethedig 2013-14 |
| Atodiad 2 | Cynigion arbedion terfynol |
| Atodiad 3 | Crynodeb o bwysau |
| Atodiad 4 | Crynodeb o'r twf arfaethedig |
| Atodiad 5 | Cyllideb Arfaethedig 2013-14 - newid o 2012-13 |

| Papurau Cefndir |
| --- |
| |

## 1. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A'R GYLLIDEB 2013-14

### 1.1 Pwrpas

**1.1.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion cyllidebol allweddol 2013-14 i'w hargymell i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth. Y rhain yw:-

- **cyllideb refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ddilynol ar gyfer 2013-14;**
- **Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor**

ac i nodi

- **Dull y Cyngor o ymdrin â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;**
- **Y defnydd o gronfeydd unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb a ragwelir ar hyn o bryd sydd yn destun i fonitro rheolaidd gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2013-14.**

### 1.2 Crynodeb

**1.2.1** Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw sydd angen adolygiad a chytundeb terfynol ar gyfer 2013-14 ac effaith hynny ar gyllideb Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diweddaraf sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer y gwaith ar gyllidebau'r Cyngor i'r dyfodol.

## 2. ARGYMHELLION CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2013-14

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1;
- Nodi'r crynodeb o asesiad effaith cydraddoldeb ar gynigion y gyllideb yn Adran 7;
- Gytuno o fewn y gyllideb arfaethedig, fod ysgolion yn cael cynnydd yn y gyllideb sy'n cwrdd ag addewid Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu ysgolion fel y nodir ym mharagraff 4.1.3;
- Gytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, buddsoddiadau, pwysau ac arbedion fel y dangosir yn Atodiadau 1-5;
- I nodi argymhellion Swyddog Adran 151 bod isafswm Balansau Cronfa Gyffredinol yn cael eu cynnal ar £5m, cadarnhad o gadernid yr amcangyfrifon sy'n sail i'r cynigion, a digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yng nghyd-destun y cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd;
- I argymell cyllideb net i'r Cyngor Sir a'r Dreth Gyngor dilynol i'r Cyngor, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 5ed Mawrth;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud y fath newidiadau a allai fod yn angenrheidiol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor.

## 3. CEFNDIR

### 3.1 'Dull cydgysylltiedig'

**3.1.1** Mae nifer o adroddiadau gwahanol ar gyfer 2013-14 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ychwanegol at brif adroddiad y gyllideb refeniw. Mae'r adroddiadau ar wahân hyn ar fonitro'r gyllideb refeniw 2012-13, Rheoli Trysorlys y Cyngor a gweithgareddau Cyfalaf. Er bod y manylion tu ôl i'r rhain wastad wedi bod yn 'gydgysylltiedig', mae dod â nhw at ei gilydd yn rhoi darlun clir o'u cysylltedd a'r rhyngberthynas rhwng pob un, ac yn hollbwysig, sut maent yn diwallu'r anghenion o sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mewn gwirionedd, yn y gyllideb refeniw y daw effeithiau ariannol pob un at ei gilydd, fel y dengys yr enghraifft ganlynol:

- Mae costau ariannu'r rhaglen gyfalaf yn dibynnu ar bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw'r Cyngor a maint y Rhaglen Gyfalaf ei hun. Mae'r costau ariannu yn gyllideb arwahanol yng nghyllideb refeniw gyffredinol y Cyngor;
- Mae nifer o faterion yn effeithio ar weithgareddau Trysorlys y Cyngor; yn enwedig gofynion benthyca sydd yn eu tro yn dibynnu ar faint y Rhaglen Gyfalaf yn ogystal â pholisïau'r Trysorlys ynghylch sut y mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu, o safbwynt 'arian parod'. Yn eu tro, mae'r rhain yn cael effaith ar gostau llog benthyca'r Cyngor a gweithgareddau buddsoddi sy'n ennill llog, sydd unwaith eto yn gyllidebau arwahanol yng nghyllideb refeniw gyffredinol y Cyngor;
- Yn gyffredinol mae'r gyllideb refeniw wedi cael ei gyrru i raddau helaeth gan Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFS) a oedd yn tynnu sylw at y gyrwyr allweddol ar draws grantiau Llywodraeth Cymru, costau cyllido cyfalaf, costau blaenoriaethau corfforaethol allweddol a'r angen dilynol i sicrhau arbedion cyllidebol.

**3.1.2** Felly, rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y materion cyllidebol allweddol gyda'i gilydd ac

- argymell cyllideb refeniw gyffredinol a'r Dreth Gyngor dilynol i'r Cyngor;
- argymell polisïau rheoli trysorlys a Buddsoddi'r Cyngor, ynghyd â'i Ddangosyddion Pwyllog i'r Cyngor;
- Nodi'r sefyllfa gyfredol o ran Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFS);
- Nodi'r sefyllfa gyfredol o ran cyllideb 2012-13.

## 4 CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR A'R DRETH GYNGOR

### 4.1 Ymgynghoriad

**4.1.1** Yn ystod haf 2012, cymeradwyodd yr Aelodau Etholedig a'r Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth strategaeth y gyllideb ar gyfer 2013/14 a'r strategaeth refeniw ariannol tymor canolig (MTRFS). Yn yr hydref adolygwyd ymhellach y tybiaethau a oedd wedi eu cymeradwyo a'u mireinio yn sgil gwybodaeth ddiweddarach, ac adroddwyd ynghylch cynigion cyllideb manwl o fewn paramedrau a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2012. Ym mis Ionawr 2013, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynigion cyllideb drafft manwl gydag MTRFS wedi'i ddiweddaru, yr ymgynghorwyd arno fel a ganlyn:

- Gyda'r holl aelodau etholedig trwy ddwy sesiwn gweithdy ar wahân ym mis Rhagfyr 2012 ac Ionawr 2013;
- Gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini yn eu cyfarfodydd yn Ionawr/Chwefror 2013 lle bu Pwyllgorau Sgriwtini Pwnc yn adolygu eu rhannau arwahanol o'r gyllideb a

Sgriwtini Corfforaethol yn crynhoi’r holl safbwyntiau hynny a sgriwtineiddio cynigion y gyllideb fel pecyn cyfan;

- Gyda’r Fforwm Ysgolion ar 3 Rhagfyr 2012 a 4 Chwefror, 2013;
- Gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar a 29 Ionawr 2013;
- Gyda'r fforwm economaidd ar 7 Chwefror, 2013
- Gyda'r cyhoedd, drwy wefan y Cyngor yn unol â’r adroddiad ymgynghori sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2013.

I grynhoi, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Tra bo sylwadau wedi eu gwneud ar ystod eang o gynigion y gyllideb, roedd prif ffocws y sylwadau fel a ganlyn:

**4.1.2 Ymgynghoriad cyhoeddus**

- Toiledau cyhoeddus;
- Diogelwch ar gyfer gofal cymdeithasol;
- Gwasanaethau Hamdden yn cael y cyfle i drawsnewid darpariaeth;
- Cefnogaeth i fidiau twf.

**4.1.3 Fforwm Ysgolion**

- Cydnabyddiaeth o'r cynnydd arian parod o 2.08% yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru, ac ymateb cadarnhaol i'r cynnig o gymorth i'r ysgolion ddatblygu cynlluniau gwario ar gyfer ysgolion â chronfeydd wrth gefn digonol a rhai mewn sefyllfa o ddiffyg neu'n wynebu sefyllfa o ddiffyg.

**4.1.4 Cynghorau Tref a Chymuned**

- Mynegi diddordeb mewn archwilio'r posibilrwydd o weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion Ynys Môn, ac yn awyddus i ddechrau’r ddeialog yn gynnar yn 2013 i sicrhau bod amser digonol yn cael ei adeiladu i mewn i'r cynllun.

**4.2 Cyllideb Refeniw 2013-14**

**4.2.1** Ar 23 Gorffennaf 2012, cymeradwyodd y Comisiynwyr ddatganiad a strategaeth y gyllideb yn nodi canllawiau cyllidebol cychwynnol y Comisiynwyr ar gyfer cyllideb 2013-14.

**4.2.2** Cyflwynwyd y cynigion cyllideb refeniw drafft cychwynnol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2012, a gyflwynodd gyllideb ddrafft sefyllfa ddisymud, yn tynnu sylw at fwlch posibl o £3.450m rhwng y sefyllfa ddisymud a chyfanswm y Cyllid Trysorlys Cyfun a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gwaith sy’n mynd yn ei flaen i nodi'r arbedion o 7% sydd eu hangen ar draws yr holl Adrannau. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, nid oedd disgwyl y byddai'r targed hwn o reidrwydd yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr holl Gyfarwyddiaethau, a bwriad gosod targed uwch na chanran yr arbediad absoliwt sydd ei angen oedd er mwyn caniatáu ar gyfer ymgorffori diogelwch i addysg a gofal cymdeithasol, a hefyd i ganiatáu ar gyfer blaenoriaethu. Gweler dan 4.3 isod y cynnydd pellach a wnaed wedi hynny, ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyfarfod 7 mis Ionawr.

**4.2.3** Mae'r gyllideb ddisymud yn cynnwys "arian wrth gefn proses" o £500k ar gyfer materion a nodwyd fel rhai a oedd yn debygol o fod angen arian ychwanegol, ond roedd yn dal yn rhy gynnar i fesur hyn. Mae hwn yn ddatblygiad o’r themâu yn 2012-13, ac wrth i ni gwblhau'r rhagolwg ar gyfer y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2012/13, mae'n dod yn amlwg bod y pwysau ychwanegol ar wasanaethau Plant a lefel yr arbedion a

ddisgwyliwyd o ofal cymdeithasol oedolion yn ddau faes sy'n debygol o achosi problemau wrth symud ymlaen, oni bai eu bod yn cael y sylw.

- Gwasanaethau plant - £250k wedi ei ddyrannu i blant sy'n derbyn gofal. Mae pwysau sylweddol wedi bod ar y gyllideb yma a rhagwelir bydd hyn yn parhau i mewn i 2013-14. Gosodwyd o'r neilltu £600k yn y gyllideb sail a gyflwynwyd yn Rhagfyr, i roi sylw i hyn. Ers hyn, mae'r pwysau wedi cynyddu ymhellach. Roedd hyn o ganlyniad i nifer fechan o blant sydd wedi symyd i'r ardal yn ddiweddar, ond maent angen cefnogaeth sylweddol. Symudodd y teuluoedd i mewn i'r ardal rhan o'r ffordd drwy 2012-13 ac mae'r £250k ychwanegol ar gyfer effaith flwyddyn lawn o'r gefnogaeth sydd ei angen yn 2013-14;

- Gofal Cymdeithasol i Oedolion - £250k wedi ei ddyrannu i alluogi cyflwyno'n fwy graddol yr arbedion a raglennwyd yn flaenorol yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Fel nodwyd mewn mannau arall yn yr adroddiad, rhoddwyd lefel benodol o ddiogelwch i gyllidebau Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2013-14, a hynny i adnabod y pwysau sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd ac oherwydd yr angen i sicrhau arbedion drwy drawsnewid cynlluniedig o'r gwasanaeth, yn hytrach na mabwysiadu arbedion cyflymach, ond llai strwythuredig. Mae'r dyraniad yma'n agwedd pellach o'r dull yma.

**4.2.4** Mae arian wrth gefn proses yn cael ei dynnu allan fel arfer ar ddiwedd y broses y gyllideb, gan roi 'arian wrth gefn cyffredinol' yn ei le. Bydd arian wrth gefn proses yn awr yn cael ei ddyrannu i'r ddwy gyllideb gwasanaeth ar ddiwedd y broses, er mwyn cynnwys y pwysau ar sail barhaus. Ni fydd unrhyw swm ar gael o hwn ar gyfer 'arian wrth gefn cyffredinol' yn 2013/14, ond mae symiau eraill wedi cael eu neilltuo fel y trafodwyd yn Adran 4.6.

**4.2.5** Ers cyflwyno'r cynigion cyllideb drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Ionawr 2013, mae nifer o faterion wedi codi sydd angen diwygiadau i'r cynigion, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| 1 | Mae Arian wrth gefn proses o £500k wedi ei ddyrannu i ymdrin â'r canlynol:<br>a) gostyngiad o £250k mewn arbedion a gafodd eu rhaglennu'n flaenorol yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ar gyfer 2013-14, mewn perthynas â ffioedd cartrefi gofal preswyl, a<br>b) chynnydd o £250k yn y swm a ganiateir ar gyfer y pwysau a ragwelir yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, o £600k i 850k. |
| 2 | Yn dilyn y newidiadau hwyr a wnaed i weithredu Diwygio Lles, amcangyfrifir bod y swm sydd ei angen i dalu cost y galw cynyddol am wasanaeth a fydd yn deillio o'r newidiadau mewn Gofal Cymdeithasol a Thai wedi gostwng o £150k. |
| 3 | Mae un o'r cronfeydd wrth gefn gwasanaeth penodol wedi cael ei lleihau o £50k. |
| 4 | Mae newid bach i'r llinell Ardollau, sydd wedi gostwng o £3k. |
| 5 | Hefyd, o ganlyniad i'r newidiadau hwyr i weithredu Diwygio Lles, amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn elwa o gynnydd net yn swm y Dreth Gyngor gasgladwy o £156k. |
| 6 | Mae'r Arian Wrth Gefn Gwella yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant ar y Bwrdd Gwella Addysg a gwariant arall sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwella gwasanaethau, ac mae'r disgrifiad a ddangosir wedi ei ddiwygio i egluro hyn. |
| 7 | Gostyngiad o £125k yn yr arbedion a gafodd eu rhaglennu yn flaenorol yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy mewn perthynas â lwfansau car i staff. |
| 8 | Addasiadau mewn Costau Corfforaethol a Democrataidd, gan leihau'r cyfanswm o £135k. |

**4.2.6** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith i gadarnhau yr addasiadau a amlinellir uchod.

**4.2.7** Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Mae'r llinell ar wahân ar RhBFf sy'n ymddangos yn adroddiadau 3 Rhagfyr, 7 Ionawr a'r Adroddiad Ymgynghorol yn cynnwys dwy eitem yn unig - £250k mewn perthynas â Chaffael a £230k ar gyfer Teithio Staff (bydd hyn yn cael ei ostwng i £105k yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror). Heblaw am y rhain, mae'r holl eitemau RhBFf wedi eu hintigreiddio i mewn i'r cyllidebau gwasanaeth perthnasol, ac amlygir unrhyw wahaniaethau sylweddol yn eu herbyn o fewn yr adroddiadau monitro'r gyllideb. Amlygir ar wahân unrhyw ostyngiad o'r targedau gwreiddiol - bydd yr adroddiad cyllideb ar 18 Chwefror yn cynnwys dwy esiampl o hyn, sef y gostyngiad yn yr arbediad a ddisgwylir ei gyflawni yn 2013-14 a Teithio Staff a gyfeirir ato uchod, a'r dyraniad o £250k i Ofal Cymdeithasol Oedolion o'r Arian wrth Gefn Proses er mwyn caniatáu cyflwyniad mwy graddol o'r arbedion cynlluniedig (mae hyn yn cysylltu â'r thema ehangach o lefel o ddiogelwch i gyllidebau Gofal Cymdeithasol i ganiatáu amser i gwblhau cynlluniau trawsnewid gwasanaeth a'u gweithredu).

**4.2.7** Ail-strwythuro Uwch Reolwyr - yn ystod 2012-13, hysbysebwyd swyddi newydd yr Uwch Dîm Arweiniaeth ac fe'i penodwyd yn llwyddiannus, a bellach mae'r UDA llawn yn ei le. Yn dilyn trafodaethau ac ymdrechion i gyd-weithio â chyrff arall ar swyddi ar y cyd, barn y Cyngor oedd ei fod angen denu ymgeiswyr o safon uchel i'r swyddi yma er mwyn gyrru'r Cyngor ymlaen ac allan o ymyrraeth. O ganlyniad, roedd hi'n angenrheidiol i osod allan pecyn fyddai'n denu cyflog uwch na'r hyn ragwelwyd, ac roedd hefyd yn cynnwys y gallu i ennill 10% ychwanegol o gyflog drwy daliad bonws cyfunol. Felly, gallai fod wedi angen cyllideb ychwanegol ar gyfer 2013-14. Ar y cyd, cytunwyd yr UDA ni thelir unrhyw fonws posib ar gyfer 2013-14 a rhoddir ystyriaeth i'r elfen perfformiad ochr yn ochr â gweithredu canlyniadau arfarnu swyddi ar gyfer holl staff y Cyngor.

**4.2.8** Gofynnir i'r Gweithgor gadarnhau'r addasiadau a amlinellir uchod.

**4.3 Arbedion**

**4.3.1** Ystyriodd cyfarfod o Fwrdd y Comisiynwyr a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2012 adroddiad a oedd yn rhagweld bwlch cyllid o hyd at £4.3m yn 2013-14. Roedd y gostyngiad canrannol mewn cyllidebau yr oedd ei angen i gwrdd â hyn tua 3.2%, ond cydnabuwyd o'r cychwyn bod angen ymagwedd fwy hyblyg na gostyngiad canrannol unffurf ar draws yr holl wasanaethau, er mwyn caniatáu ar gyfer y ffaith y byddai rhai gwasanaethau yn ei chael yn fwy anodd nag eraill i sicrhau arbedion yn y tymor byr. Yn benodol, cydnabuwyd bod angen rhoi ystyriaeth i ddiogelu cyllidebau ar gyfer ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**4.3.2** Cyflwynwyd gwahanol ddewisiadau ar gyfer proffiliau arbedion, yn dangos y gostyngiadau targed a fyddai'n cael eu gosod ar lefelau canrannol gwahanol petaent yn cael eu defnyddio'n gyfartal ar draws y bwrdd, gyda cholofnau pellach yn dangos effaith diogelwch i wasanaethau penodol. Roedd y ganran sylfaen a oedd yn cynhyrchu cyfanswm yr arbediad gofynnol yn 7%. Gweler isod y tabl a gafwyd yn adroddiad 23 Gorffennaf 2012.

| Graddfa Arbedion: 7% | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Arbediad** | **Arbediad ac eithrio Ysgolion** | **Arbediad ac eithrio Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| | £m | £m | £m |
| | | | |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 3.59 | 1.20 | 1.20 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 3.14 | 3.14 | 0.63 |
| Datblygu Cynaliadwy | 2.12 | 2.12 | 2.12 |
| Dirprwy Brif Weithredwr / Costau Corfforaethol a Democrataidd | 0.58 | 0.58 | 0.58 |
| **Cyfanswm** | **9.43** | **7.04** | **4.53** |

**4.3.3** Yn dilyn ymlaen o hyn, gofynnwyd i Gyfarwyddiaethau yn Awst-Medi 2012 gynhyrchu cynigion arbedion yn seiliedig ar y proffil hwn. Cafodd y cynigion eu herio, eu hadolygu a'u dilysu yn ystod yr wythnosau canlynol (roedd hyn yn cynnwys gweithdai i Aelodau ym mis Tachwedd a Rhagfyr). Yna gosodwyd targedau diwygiedig ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth, yn seiliedig ar asesiad o ba mor gyraeddadwy oedd y cynigion arbedion unigol a gyflwynwyd a'r ffactorau ehangach y cyfeirir atynt uchod. Yn awr amcangyfrifwyd bod angen arbedion cyffredinol o £2.940m gan wasanaethau.

**4.3.4** Cafodd y canlyniadau hyn eu dangos yn Atodiad C yr adroddiad a ystyriwyd yn y cyfarfod ar 7 Ionawr, ac fe'u crynhoir yn y tabl isod.

| Cyllideb 2013/14: Targedau a Chynigion Arbedion a ddynodwyd | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Targed Diwygiedig** | **Arbedion Posib Gynigir Gan Wasanaethau** |
| | £'000 | £'000 |
| | | |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 250 | 506 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 965 | 996 |
| Datblygu Cynaliadwy | 1,486 | 1,856 |
| Dirprwy Brif Weithredwr / Costau Corfforaethol a Democrataidd | 239 | 817 |
| **Cyfanswm** | **2,940** | **4,175** |
| | | |

**4.3.5** Yn ystod y prosesau Sgriwtini ac ymgynghori, cafodd y meysydd canlynol eu hamlygu ar gyfer ystyriaeth bellach.

- P'un a ellid cadw unrhyw arbedion sydd i'w cymryd oddi ar y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Hamdden i'r lleiaf posibl.
- Roedd pryderon sylweddol ynghylch effaith y gweithredu ar gau'r holl Doiledau Cyhoeddus. Cydnabuwyd bod angen adolygu'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, ond roedd tuedd gref tuag at ddatblygu trefniadau amgen yn hytrach na chau.
- Roedd pryder ynghylch lefel y gostyngiadau arfaethedig ar wariant ar y seilwaith priffyrdd.

**4.3.6** Mewn ymateb i hyn:

- Mae'r arbedion o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid a gynhwysir yn y cynigion terfynol wedi eu cyfyngu i £28k, neu ychydig o dan hanner y gostyngiadau posibl a gyflwynwyd.
- Mae'r arbedion yn y Gwasanaeth Hamdden wedi eu cyfyngu i'r targed diwygiedig o £100k, neu ychydig o dan £60% o gynigion sydd werth cyfanswm o £168k.
- Nid yw'r cynnig i gau pob Toiled Cyhoeddus, gan arbed £228k, wedi cael ei gynnwys yn y rhestr derfynol. Yn lle hynny, er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed am ffyrdd eraill posibl o ddarparu'r gwasanaeth, a'r angen i wneud yn siŵr bod symud ymlaen i wneud hyn, mae'r gwasanaeth i fod i wneud arbediad o £19k yn 2013-14.
- Ni fu'n bosibl lleihau'n sylweddol yr arbedion a fydd yn cael eu gwneud ar wariant ar y seilwaith priffyrdd, ond mae'r targed is a osodwyd wedi galluogi'r gwasanaeth i ostwng y ffigwr rhyw ychydig, o £343k i £300k.

**4.3.7** Yn ogystal, mae'r Cyfarwyddiaethau wedi cynnal rhagor o waith i flaenoriaethu eu cynigion, gyda'r targedau llai yn caniatáu i ystyriaeth gael ei rhoi i risg cymharol, effaith ar allu gwasanaeth, ayb. Cafodd y cyfanswm sy'n ofynnol gan y gwasanaethau hefyd ei ddiwygio i lawr o £80k pellach, i £2.860m.

**4.3.8** O hyn, lluniwyd rhestr derfynol o arbedion arfaethedig. Crynhoir y rhain isod ac maent wedi eu nodi'n fanwl yn Atodiad 2.

| **Cyllideb 2013/14: Targedau, Symiau a Nodwyd a Chynigion Terfynol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Targed Diwygiedig** | **Cynigion Arbedion** | **Cynigion Arbedion Terfynol wedi eu blaenoriaethu i'w darparu** |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 250 | 506 | 307 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 965 | 996 | 978 |
| Datblygu Cynaliadwy | 1,486 | 1,856 | 1,336 |
| Dirprwy Brif Weithredwr / Costau Corfforaethol a Democrataidd | 239 | 817 | 239 |
| **Cyfanswm** | **2,940** | **4,175** | **2,860** |
| | | | |

## 4.4 Pwysau a Thwf

**4.4.1** Mae'r atodiadau i'r adroddiad 7 Ionawr yn cynnwys lwfans ar gyfer pwysau a thwf sy'n gyfanswm o £1.3m ac £84k yn y drefn honno. Yn y cyfarfod, penderfynwyd y dylid ychwanegu eitem dwf ychwanegol o £300k mewn perthynas ag Ynys Ynni at yr argymhellion.

| **Cyllideb 2013/14: Pwysau** | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | **Swm** |
| | £'000 |
| | |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 600 |
| Diwygio Lles | 200 |
| Diogelu Ysgolion | 500 |
| **Cyfanswm** | **1,300** |
| | |

| Cyllideb 2013/14: Twf | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | **Swm** |
| | £'000 |
| | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol: | |
| Cynrychiolaeth Panel Mabwysiadu a Maethu | 28 |
| Remandio a Orchmynnwyd gan y Llys | 28 |
| Gwaith Pontio | 28 |
| Ynys Ynni | 300 |
| **Cyfanswm** | **384** |
| | |

**4.4.2** Roedd Atodiad CH i'r adroddiad yn cynnwys nifer fawr o gynigion twf, ond yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi eu hargymell ar gyfer eu cymeradwyo. Defnyddiwyd dull cadarn i werthuso'r cynigion hyn, ond yn yr hinsawdd ariannol bresennol, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr oedd cymeradwyo'n cael ei argymell.

**4.4.3** Bu dau ddatblygiad ers yr adroddiad diwethaf mewn perthynas â'r pwysau a restrwyd.

- Mae'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod angen dyraniad mwy ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, ac felly mae £250k pellach wedi'i ddyrannu o'r Arian Wrth Gefn Proses.
- Mae cyhoeddiad diweddar o newid yn y ffordd y mae Diwygio Lles i'w weithredu yn golygu y bydd yr effaith a ragwelir ar alwadau am gymorth yn llai nag a dybiwyd yn flaenorol. O ganlyniad i hyn mae'r dyraniad a wnaed wedi cael ei leihau i £50k.

**4.4.4** Er bod y cais Ynni Ynys wedi bod yn destun archwiliad manwl yn ystod y broses Sgriwtini, roedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn gefnogol yn y diwedd i'r pedair eitem dwf.

**4.4.5** Mae'r tabl diweddaru ar gyfer y pwysau yn cael ei ddangos isod. Mae'r eitemau twf a argymhellir yr un fath â'r rhai o 7 Ionawr.

| Cyllideb 2013/14: Pwysau wedi'i Ddiweddaru | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Swm gwreiddiol** | **Swm diwygiedig** |
| | £'000 | £'000 |
| | | |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 600 | 850 |
| Diwygio Lles | 200 | 50 |
| Diogelu Ysgolion | 500 | 500 |
| **Cyfanswm** | **1,300** | **1,400** |
| | | |

**4.4.6** Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â phwysau a thwf yn Atodiadau 3 a 4 yn eu tro.

## 4.5 Y Dreth Gyngor

**4.5.1** Roedd y sefyllfa ddisymud o fewn adroddiad y Comisiynwyr ym mis Gorffennaf ac adroddiadau'r Pwyllgor Gwaith dilynol yn rhagdybio cynnydd y dreth gyngor o 5%. Mae hyn yn cyfateb i £939.14 neu £18.06 yr wythnos. Mae pob gostyngiad o 0.5% neu gynnydd yn hafal i tua £130k. Petai'r dreth gyngor yn cael ei gosod yn is na hyn, byddai

rhaid dod o hyd i swm cyfatebol drwy arbedion pellach mewn gwasanaethau. Mae cynnydd o 5% yn cyfateb i gynnydd wythnosol o 86c. Hyd yn oed gyda chynnydd o 5%, atgoffir Aelodau bod lefel y Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.

**4.5.2** O ystyried y sefyllfa ariannol dynn, y risg cynhenid yn y cynigion cyfredol, a'r rhagolygon ariannol sydd ar y gweill ar gyfer y blynyddoedd nesaf a amlygwyd yn yr holl adroddiadau cyllideb blaenorol, gwelir bod hyblygrwydd yn gyfyngedig. Bydd unrhyw ostyngiad yn y cynnydd dreth gyngor arfaethedig neu gynnydd mewn buddsoddiad angen ei gwrdd o arbedion pellach a gynhyrchir gan y gwasanaethau neu doriadau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

**4.5.4** Yn ogystal â'r uchod, mae sylfaen y dreth gyngor yn ystod 2012-13 wedi gostwng 0.65%. Mae hyn oherwydd, er bod y nifer sylfaenol yr eiddo wedi codi rywfaint (0.35%), gwnaed y penderfyniad i godi'r lwfans ar gyfer dim casglu o 1.5% i 2.5%, er mwyn caniatáu ar gyfer effaith ddisgwyliedig y trefniadau newydd ar gefnogaeth y Dreth Gyngor (gweler yr adroddiad 19 Tachwedd, 2012). O ganlyniad i hyn, bydd y cynnydd o 5% yn swm sylfaenol y dreth yn cynhyrchu cynnydd gwirioneddol mewn refeniw o ychydig dros 4.3%.

**4.6** **<u>Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol a Phenodol, Arian Wrth Gefn a Risgiau Ariannol</u>**

**4.6.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o dybiaethau o ran lefelau tebygol o incwm a gwariant yn y dyfodol. Felly, mae'n anochel bod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Gweler y risgiau ariannol allweddol isod:

- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2012-13 oblygiadau uniongyrchol i gyllideb 2013-14, o ran asesu cadernid y cyllidebau gwasanaethau unigol ac o safbwynt digonolrwydd lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ar hyn o bryd rhagwelir sefyllfa gorwariant net o £1.0m ar y lefel gorfforaethol (er y bydd tua hanner hyn yn cael ei wrthbwyso gan arian wrth gefn heb ei ddyrannu yng nghyllid refeniw'r Rhaglen Gyfalaf), ac o ystyried y risgiau ariannol o amgylch nifer o feysydd cyllideb o fewn y Cyngor, mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o lunio'r cynigion terfynol o ran y lefelau o arbedion ac arian wrth gefn, a'r argymhelliad y dylai £500k gael ei roi yn ôl i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2013-14.

- Mae swm yr arbedion a chynigion incwm ychwanegol yn yr adroddiad hwn yn £2.860m, a bydd angen cyflenwi hyn er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14. Gwnaethpwyd lwfans, lle y bo'n briodol, ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol o amgylch cyflenwad llawn yr holl arbedion, gyda'r risg yn amrywio yn sylweddol rhwng cynigion unigol. Gwnaethpwyd rhagdybiaethau rhan-flwyddyn realistig lle na ellir gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol cynhenid o gwmpas sicrhau newidiadau mewn pryd i gyflenwi'r arbedion a gynlluniwyd.

- Mae nifer o'r cynigion unigol eisoes wedi'u sicrhau, ond mae eraill yn bodoli ar draws bron y cyfan o'r meysydd gwasanaeth eraill sy'n heriol iawn. Mae graddfa'r arbedion sy'n ofynnol wedi golygu bod angen cynnwys cynigion strategol a thrawsnewidiol heriol, yn arbennig o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae risg ariannol cynhenid o gwmpas sicrhau newidiadau mewn pryd i gyflenwi'r arbedion a gynlluniwyd.

- Gosodwyd cynnydd chwyddiant yn y cyllidebau ar lefel isel, yn gyson â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill. Yn ddieithriad, mae hyn yn cyflwyno elfen o risg ariannol gan nad yw pwysau chwyddiant allweddol yn hysbys â sicrwydd ar yr adeg hon, ond nid yw'r risg ariannol yn uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arall;

**4.6.2** Yn achos unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 angen adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad hwn gynnwys golwg tymor canolig lle bo angen a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen a'r defnydd o adnoddau unwaith ac am byth.

**4.6.3** Yn sgil y risgiau ac ansicrwydd gwaelodol uchod a nodir yn Adran 5.1 isod a'r materion a nodwyd ym mharagraff 4.6.1 uchod, cymerir safbwynt pendant ar reoli risgiau cyllideb a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar yr adeg hon. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu'n ddigonol gronfeydd unwaith ac am byth er mwyn ariannu newidiadau strategol/trawsnewidiol i'r dyfodol yn hytrach nag ariannu gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

**4.6.4** Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i gadw'r gostyngiadau ar unwaith mewn gwariant a'r effaith ddilynol ar wasanaethau i isafswm, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd tymor canolig a hirdymor ariannol y Cyngor, ac i arbedion gael eu gweithredu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae bob amser rhywfaint o risg o eitemau gwariant nas rhagwelir neu orwario oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a hefyd rhaid i gronfeydd wrth gefn fod yn ddigonol i amsugno'r pwysau hwn.

**4.6.5** Mae'r gyllideb ar gyfer 2012-13 yn cynnwys defnydd arfaethedig o £1.2m o gronfeydd wrth gefn, gyda £900k yn dod o'r balansau cyffredinol a £300k o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Golygai hyn y byddai balansau cyffredinol yn cael eu gostwng i £4.9m erbyn diwedd 2012-13, a oedd ychydig yn is na'r trothwy o £5m a benderfynwyd yn flaenorol. Oherwydd gorwariant yn ystod y flwyddyn, nododd yr adroddiad ymgynghorol bod y ffigwr gwirioneddol yn debygol o fod yn is, sef rhwng £4m a £4.5m. Dangosir y manylion yn yr adroddiad ar wahân ar yr agenda yma ar monitro Chwarter 3, mai'r rhagamcaniad diweddaraf yw am orwariant o £1.9m ar draws nifer o gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol. Fe'u gostyngir gan arian wrth gefn llithriant, arian wrth gefn heb eu defnyddio a chyllidebau grafangwyd yn ôl, gan roi diffyg rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn o £1.0m. Ar ôl y defnydd arfaethedig pellach o £500k o arian wrth gefn heb eu dyranu yng nghyllideb refeniw o'r Cynllun Cyfalaf, bydd hyn yn cynhyrchu balans cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o £4.4m.

**4.6.6** Wrth benderfynu ar y trothwy o £5m, mae'r ystyriaeth a roddwyd i ddadansoddiad cyffredinol 'rheol y bawd' ar gyfer lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn awgrymu y bydd hwn yn o leiaf 5% o wariant refeniw net (ac eithrio cyllidebau ysgolion), oni bai bod asesiad risg ffurfiol yn cyfiawnhau lefel is. Mae hyn yn awgrymu lefel o £6m ar gyfer Ynys Môn. Fodd bynnag, gan gymryd y dull a amlinellir uchod, byddai hyn yn rhoi lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £5m i'r Cyngor.

- Er y derbynnir wrth wneud gostyngiadau mor sylweddol yn y gyllideb y bydd hynny'n ddieithriad yn cyflwyno risgiau ariannol, ac er y cafwyd rhai anawsterau yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae gan Ynys Môn enw da o reoli o fewn ei chyllideb;
- Mae'r risgiau'r gyllideb wedi cael sylw yn y cynigion ond maent yn parhau yn amrywiol a risg uchel;
- Ceir diogelwch yn erbyn rhai risgiau'r gyllideb drwy gronfeydd wrth gefn ac arian wrth gefn a glustnodwyd. Er nad oes unrhyw gronfeydd arian wrth gefn refeniw cyffredinol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor nifer o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer risgiau ariannol hysbys, ond nad ydynt bob amser yn hawdd eu mesur;

**4.6.7** Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i gadw'r gostyngiadau ar unwaith mewn gwariant a'r effaith ddilynol ar wasanaethau i'r isafswm, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor canolig a thymor hir y Cyngor, ac i arbedion gael eu gweithredu dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae bob amser rhywfaint o risg o gael eitemau gwariant nas rhagwelir neu orwario oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i amsugno'r pwysau hwn. Am y rhesymau hyn, cynigir y dylid gwneud darpariaeth o £500k i mewn i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2013-14.

**4.6.8** Mae balansau ysgolion wedi bod yn uchel yn y gorffennol, sydd wedi rhoi sicrwydd digonol ar gyfer y rhan fwyaf o'r risgiau. Mae'r gostyngiad ym malansau ysgolion yn lleihau'r lefel honno o gysur, ond mae hyn cael ei liniaru gan y diogelwch a roddir i gyllidebau ysgol eleni.

**4.6.9** Mae'r prif arian wrth gefn a ddarperir yn y gyllideb yn ymwneud â'r prosesau cyfredol o sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb a gweithredu trawsnewid gwasanaeth (Arian wrth gefn Diswyddo £1m a Chost Newid £500k). Bydd yr Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi yn cwrdd â chost unrhyw wariant yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn, ond mae ei swm yn ansicr, gydag unrhyw falans yn cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn cyfatebol sydd wedi'i neilltuo i dalu am y costau i'r dyfodol. Mae'r arian wrth gefn gwasanaeth penodol yn ymwneud â materion penodol sy'n destun i drafodaethau cytundebol a phenderfyniadau eraill nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor, a lle mae'r gost amcangyfrifedig yn sylweddol, ond nad yw'n gwbl hysbys.

## 5. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**5.1** Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllideb a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn, a'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn fel y bo'n mabwysiadu ei gyllideb.

**5.2** Mae amcangyfrifon cyllideb i gyd yn seiliedig ar dybiaethau am y dyfodol. Mae cydgysylltiad rhwng y materion hyn. Efallai na fydd cyllidebau yn cael eu cyfrifo yn union oherwydd amcangyfrif neu risg – ond gellir lliniaru'r effaith os oes cynlluniau da wrth gefn, cyllidebau wrth gefn neu gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae eu cadernid yn dibynnu ar ba mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau hyn.

**5.3** Nid yw cadernid amcangyfrifon cyllideb yn ymwneud yn unig â'r cwestiwn syml o p'un a ydynt yn cael eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd cynlluniau yn cael eu cyflenwi, neu dargedau'n cael eu cyflawni. Ystyrir isod yn eu tro'r gwahanol risgiau sydd i'r gyllideb.

**5.4** <u>**Risg Chwyddiant**</u> Dyma'r risg y gallai chwyddiant gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb.

Mae a wnelo'r gost fwyaf sylweddol â chyflog, lle mae lwfans o 1% wedi'i wneud ar gyfer codiadau cyflog newydd yn 2013-14, ond mae hon yn ymddangos yn dybiaeth weddol realistig yn yr amgylchiadau presennol. Mae chwyddiant cyffredinol wedi aros yn sefydlog ar 2.7% ers mis Hydref 2012. Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd hyn yn gostwng ychydig yn y misoedd nesaf, ac yn aros ar neu o gwmpas y ffigwr targed o 2% yn y tymor canolig. Mae hyn yn unol â'r lefel ddisgwyliedig yn y gyllideb ddisymud a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2012. Fodd bynnag, mae bob amser elfen o risg wrth geisio rhagweld cyfraddau chwyddiant, er bod amrywiad o fwy nag 1% yn y ddau gyfeiriad yn ymddangos yn annhebygol iawn.

**5.5** **Risg Cyfraddau Llog** Fel rheol mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir - h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn fuddiol. Oherwydd bod y gyllideb bellach yn seiliedig ar gyfraddau llog ar isafbwyntiau tymor hir, prin fod unrhyw risg anfanteisiol. Y rhagfynegiadau yw y bydd cyfraddau llog yn aros ar eu lefel hanesyddol isel ymhell i 2014 a thu hwnt. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hwn yn risg sy'n wneud iawn am risg chwyddiant oherwydd os yw un yn cynyddu mae'r llall yn debygol o wneud iawn amdano.

**5.6** **Risg Grantiau** Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn cael eu gostwng yn sylweddol neu eu torri'n gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r cyfan ac ni fydd gennym un hyd yn oed ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau. Er mai'r ymateb sydyn yw dweud pan fydd y grant yn dod i ben, felly bydd raid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym ag incwm, neu ei fod yn cynnwys costau diswyddo heb eu hariannu. Efallai na fydd yn bosibl os yw'r gweithgaredd a ariennir yn troi allan i fod mor bwysig i gyflawni amcanion y Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu fod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Mae'r ymdrechion i liniaru'r risg hwn yn cynnwys sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael ar bob grant: ond ni ellir dileu'n gyfan gwbl bob canlyniad annymunol yn ystod y flwyddyn.

**5.7** **Risgiau Incwm** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 2% mewn incwm, er bod nifer o wasanaethau wedi cymryd yn ganiataol godiadau o hyd at 5%. Os yw elastigedd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny achosi gorwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa gyllideb net yn agos ac, os oes angen, torri'n ôl ar wario i gyd-fynd ag incwm is.

**5.8** **Risg Optimistiaeth** Mae'n debyg mai'r perygl mwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd yn yr arbedion a fydd yn cael eu cyflawni. Petai'r prosiectau hyn yn mynd i drafferthion ac yn methu â chyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai gorwariannau sylweddol ddigwydd. Mae para 5.11 isod yn rhoi manylion pellach.

**5.9** **Risg gorofal** Dyma'r gwrthwyneb i risg optimistiaeth: sef y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy ofalus, ac felly eu bod yn fwy nag sydd ei angen.

**5.10** **Risgiau Cyflog a Graddfeydd** - Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu risg sylweddol o ganlyniad i arfarnu swyddi a chyflog/gwerth cyfartal, y bydd yn ofynnol iddo dalu hawliadau iawndal i staff oherwydd annhegwch honedig ei drefniadau cyflog. Mae hwn yn risg hir-sefydlog na fydd yn diflannu, ac mae'n herio cadernid y gyllideb fel mewn blynyddoedd blaenorol. I liniaru hyn, erys cyllideb wrth gefn flynyddol (£450k yn 2013-14) tuag at gost y strwythur cyflog newydd.

**5.11** **Llithriad Arbedion**- Mae a wnelo'r prif risg â'r cynigion arbedion. Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd yn seiliedig yn bennaf ar arbediad blwyddyn lawn ac felly maent yn cymryd yn ganiataol y bydd y cynigion wedi cael eu gweithredu'n llawn o'r 1af Ebrill 2012. Mae risg uchel na fydd rhai o'r cynigion wedi sicrhau'r dyddiad cychwyn hwn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y cynigion hynny sy'n cynnwys diswyddiadau, cynhyrchu incwm a materion cytundebol. Bydd unrhyw oedi o'r dyddiad cychwyn 1af Ebrill yn achosi pwysau yn 2013-14. Mae llithriad 3 mis ar yr holl arbedion yn cyfateb i £0.7m.

**5.12** **Ffioedd Gofal Cymdeithasol a Phreswyl** - Mae chwyddiant o 2% wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2012-13. Ar hyn o bryd mae'r cynnydd yn y ffioedd hyn yn cael ei bennu, a bydd yn cael ei drafod gyda darparwyr. Os yw hyn yn fwy na 2%, bydd angen gweithredu i ymdrin â hyn. I liniaru'r risg hwn mae arian wrth gefn wedi cael ei roi o'r neilltu.

**5.13** **<u>Costau diswyddo staff</u>** – Wrth i'r cynigion arbedion gael eu gweithredu, bydd costau diswyddo cysylltiedig. Nid yw cost lawn hyn yn hysbys ar hyn o bryd, oherwydd y posibilrwydd y bydd rhai swyddi'n wag, a phennu manylion y gweithwyr dan sylw. I liniaru'r risg hwn mae Arian Wrth Gefn Diswyddo o £1m wedi ei gynnwys yn y gyllideb.

**5.14** **<u>Grant Cytundeb Canlyniadau</u>** - Mae cyllideb ar gyfer 2013-14 yn rhagdybio derbynnir 75% o'r grant llawn o £729k yn 2012-13 mewn perthynas â pherfformiad 2012-13. Er derbyniwyd y grant llawn eleni mewn perthynas â 2011-2, mae hwn dal yn risg sylweddol i'r Awdurdod ac, mewn amser o heriau ariannol ar wasanaethau, mae'n well cymryd safbwynt pwyllog o'r eitem yma.

**5.1.5** **Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor -** Mae swm o £200k wedi ei gynnwys yn y gyllideb i ddarparu ar gyfer y gost net ychwanegol i'r Cyngor o weithrediad Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor, sydd uwchlaw'r £4.625m a chaniateir amdano yn y Setliad Terfynol. Cymeradwywyd newid sylweddol yn Ionawr a thelir amdano gan grant penodol sydd yn ychwanegol. Fodd bynnag, o gofio mai blwyddyn gynta'r cynllun yw hwn a natur amrywiol nifer o agweddau o fewn iddo, mae graddfa anochel o ansicrwydd. Awgryma'r rhagamcanion diweddaraf efallai bydd y costau gwirioneddol yn uwch.

## 6. <u>CYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL TRETH Y CYNGOR</u>

**6.1** Mae'r tabl isod yn dangos yr arian cyllideb sydd ar gael ac sydd ei angen gyda chynnydd yn y Dreth Gyngor o 5%, yn cynrychioli cynnydd o £18.06, neu 86c yr wythnos, i eiddo Band D. Wrth osod y Dreth Gyngor, mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r angen i osod cyllideb gytbwys.

Fel cefndir, ar hyn o bryd mae'r gyfradd RPI yn 3.1% a CPI yn 2.7%, ym mis Rhagfyr 2012.

| <u>Gofyniad y gyllideb</u> | £000<br>5% |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaen 2011-12 | 119,035 |
| Addasiadau Chwyddiant & Ailbrisio | 12,193 |
| **CYLLIDEB SYLFAEN 2012-13 ( cyn buddsoddiadau / arbedion )** | **131,278** |
| Addasiadau Cyllideb | (552) |
| Buddsoddiadau Cyllideb | 384 |
| Arbedion cyllideb | (2,860) |
| **CYLLIDEB SYLFAEN 2012-13** | **128,250** |
| **<u>Cyllid ar gael</u>** | |
| Setliad Terfynol LIC | 100,227 |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor @ 5% | 28,023 |
| **Cyfanswm** | **128,250** |
| **Balans ar gael** | **0** |

**6.2** Cyn y gall y Pwyllgor Gwaith argymell cyllideb i'r Cyngor, mae nawr angen penderfyniadau yn seiliedig ar y ffigyrau a ddangosir yn y tabl uchod. Mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys p'un a ddylid:

- dileu eitemau arbedion penodol;
- darparu cynhwysedd ychwanegol o fewn gwasanaethau;
- ariannu mentrau a pholisïau newydd;
- cynyddu swm sylfaenol y Dreth Gyngor yn unol â'r lefel arfaethedig ac felly sicrhau cyllideb gytbwys.

## 7. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB (EIA)

**7.1** Wrth gyflwyno ei wasanaethau, rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 i asesu effaith y penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau a ddiogelir a rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau asesiadau o'r fath.

**7.2** Fel rhan o'r broses gyllideb 2013-14, gofynnwyd i'r gwasanaeth gynnal EIA cychwynnol ar gyfer pob cynnig. Cynhwyswyd canllawiau gyda'r pro forma cyllideb ac mae canllawiau pellach ar sut i gynnal EIA ar gael ar safle fewnrwyd y Cyngor. Cynhwysir sylwadau ar y cynigion unigol o fewn yr atodiadau. Bydd unrhyw gynigion sy'n cael effaith sylweddol ar lefelau gwasanaeth angen cael eu monitro'n agos gan y gwasanaeth perthnasol

## 8. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

**8.1** Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, y mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2013-14 a Strategaeth Fuddsoddi cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Cyflwynwyd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013-14 i'r Pwyllgor Archwilio ar 5ed Chwefror 2013.

## 9. DIWEDDARU'R STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLIG

**9.1** Roedd yr adroddiad ar y gyllideb gychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3ydd Rhagfyr 2012 yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ynglŷn â newidiadau yn yr hysbysiad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhagdybiaethau hyn yn cynnwys lefel y dyfarniad cyflog a chwyddiant.

**9.2** Mae'r tabl isod yn ddiweddariad pellach o'r strategaeth ariannol tymor canolig, sydd wedi cael ei diweddaru ar gyfer y gyllideb arfaethedig 2013-14 a'r tybiaethau canlynol ar gyfer 2014-15 i 2015-16:

- Cyflog - 1%;
- Chwyddiant – 2%.

| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol | 125.6 | 128.2 | 130.4 |
| Chwyddiant a Diogelu Ysgolion | 0.8 | 0.5 | 0.5 |
| Cynnydd Costau | 1.5 | 2.6 | 2.6 |
| Newidiadau Demograffig | 0.6 | 0.5 | 0.5 |
| Ariannu Cyfalaf a llog | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Ariannu benthyca di gefnogaeth | 0.0 | 0.2 | 0.4 |
| Adolygiad Cyflog a Graddfeydd | -0.4 | 1.3 | 0.7 |
| Buddsoddi mewn newid | 1.5 | -0.1 | -0.3 |
| Cyfraniad at falansau | 0.5 | -0.5 | 0.0 |
| Pwysau a ddynodwyd | 1.0 | | |
| Twf arall | 0.4 | 0.7 | 1.0 |
| Arbedion | -2.9 | | |
| Bwlch Ariannu | | -3.1 | -4.0 |
| **Cyfanswm** | **128.2** | **130.4** | **131.9** |
| Ariennir gan gyllid LIC | 100.2 | 101.0 | 101.0 |
| Y Dreth Gyngor | 28.0 | 29.4 | 30.9 |
| Cronfeydd wrth gefn | **128.2** | **130.4** | **131.9** |

**9.3** Bydd y strategaeth ariannol tymor canolig angen ei hadolygu a'i diweddaru yn ystod y rhan gyntaf o 2013-14 er mwyn sicrhau bod rhagolygon a rhagdybiaethau yn parhau mor gywir ag y bo modd.

## 10. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU A BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

**10.1** Wrth lunio cynigion cyllideb, rhoddwyd sylw dyladwy i bolisïau a blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

## 11. OPSIYNAU SYDD AR GAEL

**11.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar y Dreth Gyngor a chyllideb refeniw 2013-14 a argymhellir i'r Cyngor. Mae gan Aelodau nifer o opsiynau ar gael ynglŷn â'r cynigion cyllideb manwl a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

## 12. SYLWADAU'R SWYDDOG MONITRO

**12.1** Mae'r Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf 2003, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor, ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon cyllideb a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn. Rhaid cymryd y rhain i ystyriaeth wrth ystyried y cynigion yn yr Adroddiad a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch y gyllideb a chyfradd y Dreth Gyngor. Yn unol â Rheoliadau Swyddogaeth a Chyfrifoldeb, mater i'r Cyngor llawn o dan Ddeddf 1992 yw cytuno ar y gyllideb a phennu cyfradd y Dreth Gyngor. Felly, bydd argymhellion y Pwyllgor Gwaith yn amodol ar gadarnhad a chymeradwyaeth gan y Cyngor llawn.

## 13. GOBLYGIADAU STAFFIO

**13.1** Bydd cynigion y gyllideb a amlinellir yn yr adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar weithwyr ar draws y Cyngor, gan gynnwys, o bosibl, ysgolion. Bydd angen gwneud newidiadau i strwythurau a staffio er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol. Caiff yr agenda trawsnewid hwn ei chefnogi trwy Adnoddau Dynol, gan sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ariannol gynaliadwy yn y dyfodol ac yn parhau i ddarparu safon uchel i ddinasyddion Ynys Môn. Bydd angen i'r rhaglen newid ymgorffori ymgynghori ystyrlon gydag undebau llafur a'r gweithwyr yr effeithir arnynt, ac mae hyn wedi dechrau eisoes.

**13.2** Bydd y Cyngor yn anelu at leihau effaith cynigion y gyllideb ar weithwyr ar draws ein gwasanaethau, ac mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gynorthwyo yn hyn o beth, e.e. cyfyngu ar recriwtio, lleihau'r defnydd o staff asiantaeth a goramser. Fodd bynnag, o ystyried maint yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor dros y 3 blynedd nesaf, mae'n rhaid cydnabod na all y Cyngor ddiystyru gorfod diswyddo staff. Bydd yr holl weithwyr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn cael eu cefnogi gan ddarpariaethau'r polisïau perthnasol, sydd â'r nod o leihau diswyddiadau gorfodol a chadw gweithwyr yn ein cyflogaeth lle bynnag y bo modd.

## 14. MATERION LLEOL

**14.1** Mae cynigion y gyllideb fel y cânt eu nodi yn effeithio ar y Sir yn gyffredinol er y gall rhai cynigion penodol effeithio mwy ar ardaloedd penodol nag ar rai eraill.

## 15. YMGYNGHORIAD

**15.1** Ymgymerwyd ag ymgynghoriad eang ar y gyllideb, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **8 CHWEFROR 2013**

**Crynodeb y Gyllideb Arfaethedig 2013-14**

| - | Sefyllfa Ddisymud Ddrafft ar ôl setliad dros dro 3 Rhagfyr 2012 | Newidiadau Setliad Terfynol AC ADDASIADAU ARALL | Cynigion arbedion (gweler Atodiad 2) | Twf Arfaethedig (gweler Atodiad 4) | Cyllideb Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfarwyddiaeth** | | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 47,485 | | -307 | | 47,178 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 31,883 | -85 | -978 | 84 | 30,904 |
| Datblygu Cynaliadwy | 22,592 | -190 | -1,336 | 300 | 21,366 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 8,316 | 29 | -239 | | 8,106 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,269 | -235 | | | 2,169 |
| Cefnogaeth Y Dreth Gyngor - cyfrifoldebau ychwanegol | 4,468 | 357 | | | 4,825 |
| Ardollau | 3,223 | -3 | | | 3,220 |
| Ariannu Cyfalaf a llog | 7,185 | | | | 7,185 |
| Ad-daliadau i'r CRT/SGU | -358 | | | | -358 |
| Mentrau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (arbedion) | -480 | 125 | | | -230 |
| **Cyfanswm** | **126,583** | **-2** | **-2,860** | **384** | **124,365** |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | -545 | | | | -545 |
| Bwrdd Gwella ac Adfer Addysg | 190 | | | | 190 |
| Arian Wrth Gefn Proses | 500 | -500 | | | 0 |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 0 | | | | 0 |
| Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi | 900 | -450 | | | 450 |
| **Is gyfanswm Cyllideb Ddisymud** | **127,628** | **-952** | **-2,860** | **384** | **124,460** |
| **O'r Cynllun Tymor Canolig:** | | | | | |
| Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi Ychwanegol | 400 | -400 | | | 0 |
| Arian Wrth Gefn Benthyca Digefnogaeth Ychwanegol | 200 | -200 | | | 0 |
| **Pwysau:** | | | | | |
| - Plant sy'n Derbyn Gofal | 600 | 250 | | | 850 |
| - Cofrestru awtomatig | 200 | -200 | | | 0 |
| - Diwygio Lles | 200 | -150 | | | 50 |
| - Diogelu Ysgolion | 500 | | | | 500 |
| Arian wrth gefn Diswyddo | 1,000 | | | | 1,000 |
| Arian wrth gefn Cost Newid | 500 | | | | 500 |
| Arian wrth gefn Penodol Arall | 0 | 600 | | | 350 |
| Cyfraniad o / i Balansau | 0 | 500 | | | 500 |
| **Cyfanswm cyn Arbedion** | **131,228** | **-552** | **-2,860** | **384** | **128,210** |
| **Ariennir gan:** | | | | | |
| Cyllideb Allanol Cyfun | 99,961 | 266 | | | 100,227 |
| Y Dreth Gyngor | 27,867 | 156 | | | 27,867 |
| Rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn | -50 | | | | -50 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **127,778** | **422** | **0** | **0** | **128,210** |
| **Bwlch Ariannu** | **3,450** | **-974** | **-2,860** | **384** | **0** |

| CYLLIDEB 2013-14: CYNIGION ARBEDION TERFYNOL | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Arbedion a flaenoriaethwyd er mwyn cwrdd â'r targed** | **Goblygiadau o ran Cydraddoldeb** |
| | **£'000** | |
| | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | |
| | | |
| **Gwasanaeth Addysg** | | |
| Dyslecsia | -40 | Noder bod cynlluniau sydd eisoes wedi''u gweithredu wedi lleihau'r risg ar gyfer disgyblion gydag AAA. |
| Cynhwysiad (Ymddygiad Uwchradd) | -29 | Mae'r cynigion yn anhebygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grwp. |
| Eithriadau Arbennig | -13 | |
| Toriadau 10% ar draws yr holl benawdau – Cyflenwadau & Gwasanaethau | -77 | |
| Cynnal/GEGYR (isafswm) | -50 | |
| Prydau Ysgol (7 mis) | -70 | |
| **Cyfanswm** | **-279** | |
| | | |
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | |
| Wardeiniaid Cymunedol | -12 | Mae'r cynigion yn annhebygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp. |
| Gostwng oriau Arweinyddion Bro | -5 | |
| Torri grant - Urdd a Ffermwyr Ifanc | -1 | |
| Trosglwyddo Penmynydd a gwerthu Llansadwrn | -10 | |
| **Cyfanswm** | **-28** | |
| | | |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes (Targed Gwreiddiol £3.743m)** | **-307** | |
| | | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | |
| | | |
| **Gwasanaethau Canolog** | | |
| Staffio/Cyflenwadau a Gwasanaethau. | -50 | Mae'r cynigion yn annhebygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp. |
| Gwasanaeth Polisi - Arbedion corfforaethol ar bostio/defnydd o amlenni rhagdaledig | -20 | |
| **Cyfanswm** | **-70** | |
| | | |

**CYLLIDEB 2013-14: CYNIGION ARBEDION TERFYNOL**

| | Arbedion a flaenoriaethwyd er mwyn cwrdd â'r targed | Goblygiadau o ran Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | | |
| Gostyngiadau yng nghostau prosesu trafodaethol yn dilyn gweithredu systemau Cyllid ac AD a mentrau eraill | -50 | Mae'r cynigion yn anhebygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grwp. |
| Gostyngiadau yng nghyfanswm cost Lwfansau Aelodau (diwedd ymyrraeth/gostyngiad yn nifer yr Aelodau | -20 | |
| Gostyngiad yn ffioedd archwilio yn dilyn gostyngiad yn niferoedd archwiliadau grantiau penodol. | -50 | |
| Cyllideb hyfforddiant (corfforaethol) | -10 | |
| Cyllideb hyfforddiant (gwasanaethau) | -39 | |
| **Cyfanswm** | **-169** | |
| | | |
| **Cyfanswm Dirprwy Brif Weithredwr (Targed Gwreiddiol £0.579m)** | **-239** | |
| | | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | |
| | | |
| **Cynllunio** | | Mae gwasanaethau cynllunio statudol yn cael effaith ar greu swyddi a thai fforddiadwy a all gael effaith anghyfartal ar yr iaith Gymraeg, teuluoedd ifanc a'r rhai tlotaf yn y gymuned. |
| Secondiad Staff: Ynys Ynni | -40 | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | -10 | |
| Ffioedd Cyn-geisiadau | -10 | |
| Gwasanaethau ymgynghori proffesiynol | -1 | |
| Prosiect Cydweithredu Rheoli Adeiladu | -14 | |
| Ffioedd Grantiau Eiddo a'r Amgylchedd | -25 | |
| **Cyfanswm** | **-100** | |
| | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | Mae gwasanaethau statudol gwarchod y cyhoedd yn cael effaith ar greu swyddi a thai fforddiadwy a all gael effaith anghyfartal ar yr iaith Gymraeg, teuluoedd ifanc, pobl hŷn a'r rhai tlotaf yn y gymuned. |
| Ailstrwythuro staff arfaethedig | -70 | |
| Cynyddu ffioedd a chostau dewisol uwch y nenfwd corfforaethol - 2% | -10 | |
| Incwm o Ynys Ynni | -5 | |
| Newidiadau effeithlonrwydd yng nghyllideb cyflenwadau a gwasanaethau (yn cynnwys contract CIVICA) | -15 | |
| **Cyfanswm** | **-100** | |
| | | |

**CYLLIDEB 2013-14: CYNIGION ARBEDION TERFYNOL**

| | Arbedion a flaenoriaethwyd er mwyn cwrdd â'r targed | Goblygiadau o ran Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Gwastraff** | | |
| Cau'r holl doiledau cyhoeddus | -19 | Yn debygol o gael effaith anghyfartal ar bobl hŷn, teuluoedd gyda phlant ifanc, pobl anabl a rhai grwpiau crefyddol. Bydd angen AEC manwl. |
| Cludo gwastraff o Benhesgyn a Gwaredu Gwastraff Gweddilliol | -106 | Ni fydd yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp perthnasol. |
| Gwasanaeth Glanhau Strydoedd | -125 | Ni fydd yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp perthnasol. |
| **Cyfanswm** | **-250** | |
| | | |
| **Eiddo** | | |
| Gostyngiad yng nghyllideb ymgynghorwyr arbenigol adeiladau | -13 | Mae'r arbedion arfaethedig yn anhebygol o gael mwy o effaith ar y grwpiau a warchodir nag unrhyw grwpiau eraill. |
| Arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau ac arian wrth gefn | -74 | |
| Dileu swydd Docfeistr Doc Pysgod Caergybi | -34 | |
| Dileu swyddi gweigion Tîm Gwasanaethau Pensaernïol | -6 | |
| Incwm Arforol | -2 | |
| Ailstrwythuro Timau arfaethedig | -71 | Bydd yr arbedion arfaethedig yn cael yr un effaith ar bawb ar y cychwyn ond, os bydd angen cau rhai adeiladau heb ei gynllunio, mae'n bosib y byddai hynny'n anfantais i grwpiau penodol, ee o ran oed, grwpiau anableddau a grwpiau beichiogrwydd a mamolaeth, gan y byddai'n cael effaith ar eu gallu i gael mynediad at ddarpariaeth gwasanaeth arall |
| **Cyfanswm** | **-200** | |
| | | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | |
| Tynnu'n ôl a gostyngiadau mawr mewn gwasanaethau bws | -90 | Bydd y cynnig yn cael effaith anghyfartal ar bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl ac fe fydd angen AEC. |
| Lleihau cyllidebau diogelwch ffyrdd a chynnal a chadw llwybrau a chynyddu ffioedd meysydd parcio | -66 | Bydd gostyngiadau mewn hyfforddiant beicio yn cael effaith andwyol ar blant ysgolion cynradd ond mae yna ffynhonnell gyllido arall gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau yn y tymor byr. |
| Gostyngiad yng nghynnal a chadw isadeiledd priffyrdd | -300 | Bydd dirywiad i'r rhwydwaith ffyrdd yn cael effaith anghyfartal ar bobl anabl a phobl hŷn. Fodd bynnag, fe fyddai'r dirywiad yn dod yn raddol. |
| Ailstrwythuro yn arwain at arbedion staff, gostyngiad yng nghyllidebau galwadau allan a chyflenwadau a gwasanaethau | -124 | Mae'r arbedion arfaethedig yn anhebygol o gael mwy o effaith ar y grwpiau a warchodir nag unrhyw grwpiau eraill. |
| Cynyddu defnydd o gerbydau'r Cyngor a cherbydau wedi eu llogi yn lle treuliau teithio | -20 | Dim effaith ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir. |
| **Cyfanswm** | **-600** | |
| | | |
| **Datblygu Economaidd** | | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon; ddim yn cael effaith andwyol ar y grwpiau a warchodir; ddim yn cyfaddawdu ar gyfleoedd cyfartal nag yn cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng y gwahanol grwpiau. |
| Arbedion Gweinyddol | -41 | |
| Gostyngiadau yng nghymorth grant | -33 | |
| Marchnata mordeithio | -12 | |
| **Cyfanswm** | **-86** | |

**CYLLIDEB 2013-14: CYNIGION ARBEDION TERFYNOL**

| | Arbedion a flaenoriaethwyd er mwyn cwrdd â'r targed | Goblygiadau o ran Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy (Targed Gwreiddiol £2.122m)** | **-1,336** | |
| **Cymuned** | | |
| **Tai** | | |
| Swyddog Rheoli Stadau gyda chyfrifoldeb am eiddo Prydlesu Sector Breifat | -25 | Mae'r cynigion yn anhebygol o gael effaith (gadarnhaol na negyddol) ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir nag ychwaith ar allu'r Cyngor i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg. |
| Cael gwared â llungopïwr a phrinteri a chael offer mwy modern yn eu lle, peiriannau-i-gyd-yn-un' sy'n sganio, llungopïo a phrintio, sydd wedi eu rhwydweithio i'r system TG | -5 | |
| Adlinio'r gyllideb gyda'r CRT | -20 | |
| Cymhorthydd Clerigol | -16 | |
| **Cyfanswm** | **-66** | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
| Rheolwr Integreiddiedig SCS wedi ei ariannu ar y cyd | -18 | Dim. |
| Cydlynydd Gweithgareddau (Gwaharddiad Cymdeithasol) | -19 | Dim. |
| Capasiti Cadeirio –terfynu defnyddio cadeiryddion sesiynol Cynadleddau Achosion ag Adolygiadau Statudol | -5 | Dim – darparu'r un lefel o wasanaeth yn fewnol gyda mwy o effeithlonrwydd. |
| Bryn Hwfa - Swydd Rheolwr | -33 | Dim. |
| Mae Queens Park wedi bod ar gau yn ystod 2010/11- Diswyddwyd y rhan fwyaf o'r staff yn ystod 2011/12, neu fe'u hadleoliwyd | -150 | 1 – Bydd yn lleihau argaeledd gofal preswyl i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol.<br>2 – Bydd yn cael effaith ar y gallu i leoli plant sy'n siarad Cymraeg mewn sefyllfeydd dwyieithog |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth hefo'r Sector Gwirfoddol | -74 | 1 - Bydd yn lleihau argaeledd cefnogaeth i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol<br>2 – Effaith ar blant anabl, gofalwyr ifanc a phlant sy'n byw gyda thrais yn y cartref. |
| Cyllidebau Cefnogi Teuluoedd | -13 | 1 - Bydd yn lleihau argaeledd cefnogaeth i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol<br>2 – Effaith ar y teuluoedd mwyaf bregus yn y gymuned. |
| Rhesymoli/Trawsnewid Comisiynu Gwasanaethau Oedolion/Adolygiad cyffredinol o gyllidebau a chostau'r Uned Ddarparu | -500 | Fe fydd yr her anianol net i'r gwasanaeth oddeutu £1.29m yn ystod 2013/14 (mae hyn yn cynnwys £500k trawsffurfio + £390k 'APP' + £900K pwysau gwaelodol ar y gwasanaeth yn ystod 2012/13 sy'n gysylltiedig â phecynnau cefnogaeth unigol. Mae'r ffigwr yma hefyd yn caniatáu rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer twf demograffig). Bydd y trawsffurfio gwasanaeth arfaethedig yma, os yn cael ei wireddu, yn cael effaith uniongyrchol ar y grwpiau canlynol yn benodol:<br>a. Oed; b. Anabledd. |

| CYLLIDEB 2013-14: CYNIGION ARBEDION TERFYNOL | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Arbedion a flaenoriaethwyd er mwyn cwrdd â'r targed** | **Goblygiadau o ran Cydraddoldeb** |
| | | Ategir y rhaglen trawsffurfio gyda 23 o ffrydiau gwaith ar wahân sydd i'w gweithredu dros gyfnod o 3/5 mlynedd. Mae'r ffrydiau gwaith yma'n cynnwys:<br><br>1 – Trawsffurfio gofal preswyl i bobl hyn – sy'n rhan o asesiad cynhwysfawr ar wahân o'r effaith ar gydraddoldeb;<br>2 - Adolygu'r holl becynnau gofal i gyd-fynd â meini prawf cymhwysedd (difrifol a sylweddol) a chynnal holl ymatebion y gwasanaeth ar lefelau difrifol a sylweddol;<br>3 – Allanoli gofal cartref – i'r sector annibynnol<br>4 - Adolygu buddsoddiadau trydydd sector<br>5 – Datgomisiynu'r gwasanaeth pryd ar glud<br>6 – Adolygu gwasanaethau cludiant i ddefnyddwyr<br>7 – Gwella comisiynu gofal cartref y sector annibynnol<br>8 – Adolygu gwasanaethau mewnol ar gyfer anableddau dysgu.<br><br>Mae **pecynnau gofal a chefnogaeth** yn cael eu comisiynu i gwrdd ag anghenion a diogelu oedolion bregus o fewn meini prawf cymhwysedd yr Awdurdod lleol. Bydd angen adolygu'r holl ddefnyddwyr sy'n derbyn gofal cymdeithasol i oedolion a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Lleol yn unol â gofynion statudol. Canlyniadau'r adolygiadau unigol hyn fydd yn galluogi cytuno pecynnau gofal newydd a diwygiedig. Bydd deilliannau'r broses yma'n llywio'r graddau y bydd yr awdurdod yn gallu lliniaru pwysau gwaelodol 2012/13 sy'n gysylltiedig â phecynnau cefnogaeth unigol. |
| **Cyfanswm** | **-812** | |
| | | |
| **Hamdden a Diwylliant** | | |
| Cyfle gwneud incwm: 'Golau ar y Gamlas', Syr Kyffin Williams a Fenis, Arddangosfa 2013 | -48 | Mae'r cynigion yn anhebygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp. |
| Gwasanaeth Hamdden – Cynyddiadau ychwanegol mewn ffioedd a thaliadau | -15 | |
| Gwasanaeth Hamdden – Newidiadau yn oriau staffio a thaliadau uwch i brosiectau a gyllidir gan grant | -15 | |
| Canolfannau Hamdden – Newidiadau ym mhatrymau gwaith staff | -12 | |
| Canolfannau Hamdden - Gostyngiad cyffredinol yng nghyllidebau | -10 | |
| **Cyfanswm** | **-100** | |
| | | |
| **Cyfanswm Cymuned (Targed Gwreiddiol Target £2.986m)** | **-978** | |
| | | |
| **Cyfanswm** | **-2,860** | |
| | | |

| **Crynodeb Pwysau** | **£'000** | |
|---|---|---|
| | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | |
| **Gwasanaeth Addysg** | | |
| Diogelu Ysgolion | 500 | Mae'r lefel amddiffyniad a gynghorir gan Lywodraeth Cymru yn ymgodiad o 2.08% o gyllideb ddirprwyedig y blynyddoedd blaenorol, gyda'r adran gyllid wedi dod i sefyllfa ddisymud, nodwyd fod diffyg o tua £500k yn y gyllideb ddirprwyedig i gyflawni'r lefel diogelu. |
| | | |
| **Cymuned** | | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 850 | Mae angen cyllideb i gwrdd â chostau llety plant sy'n derbyn gofal mewn darpariaeth arbennig, ac i gwrdd â'r costau blwyddyn lawn o leoliadau ychwanegol yn ystod 2012-13. |
| Diwygio Lles | 50 | Mae angen y cyllid hwn ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i effaith diwygio lles ar unigolion. |
| | | |
| **Cyfanswm** | **1,400** | |
| | | |

| Crynodeb o Dwf Arfaethedig | £'000 | |
|---|---|---|
| | | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | |
| **Gwasanaeth Datblygu Economaidd** | | |
| Buddsoddi a chyfraniad at y Rhaglen Ynys Ynni (EIP) | 300 | Creodd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) y Rhaglen Ynys Ynni (EIP) yn 2010, ac mae ei chyllid craidd yn dod i ben ym mis Mawrth 2013. Rôl yr EIP yw hwyluso cydweithio rhwng y sector preifat a chyhoeddus gan wneud yn siŵr fod datblygiadau ynni carbon isel yn digwydd ar Ynys Môn, gan ddod â'r budd mwyaf i'r ardal.<br><br>Y canlyniadau allweddol a fydd yn cael eu dilyn yw:<br>• Cyfrannu £2.34bn i economi Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru (2010-2025);<br>• Cyfleoedd gwaith sylweddol (yn uniongyrchol, anuniongyrchol ac wedi'u hybu) hyd at 6,000;<br>• Mwy o ffyniant;<br>• Gwelliant sylweddol o ran addysg, sgiliau a chadw pobl ifanc (a sgiliau) gan gryfhau'r Iaith Gymraeg;<br>• Buddion etifeddiaeth a allai fod yn sylweddol. |
| | | |
| **Cymuned** | | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
| Cynrychiolaeth Panel Mabwysiadu a Maethu | 28 | Mae angen cyllid i gryfhau gallu'r gwasanaeth i ymateb yn llawn yn unol â chyfrifoldebau statudol ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llawn i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Plant, a thargedau a gofynion rheoleiddiol cysylltiedig. |
| Remandio a Orchmynnwyd gan y Llys | 28 | Cais i ddarparu arian i gwrdd â goblygiadau gofyniad newydd ar y Cyngor i gwrdd â chost lawn remandio a orchmynnwyd gan y llys. |
| Gwaith Pontio | 28 | Bydd cyllid yn caniatáu penodi gweithiwr i ddarparu gwaith pontio allweddol ar gyfer plant ag anableddau. Dewiswyd Ynys Môn fel cynllun peilot ar gyfer cynllun i bob plentyn a oedd â dau o weithwyr proffesiynol uwchben y gwasanaethau cyffredinol yn ymwneud â'r teulu i gael gweithiwr allweddol. Ariannwyd hyn gan LIC / WEFO, ond mae'r arian yn dod i ben ym mis Mawrth 2013. Bydd y cais twf hwn yn caniatáu i'r cynllun barhau. |
| | | |
| **Cyfanswm** | **384** | |
| | | |

| Cyllideb Arfaethedig 2013-14 - Newid o 2012-13 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| - | Cyllideb a Gymeradwywyd 2012-13 | Cyllideb Arfaethedig 2013-14 | Newid | Newid |
| | £000 | £000 | £000 | % |
| | | | | |
| **Cyfarwyddiaeth** | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 46,035 | 47,678 | 1,643 | 3.6% |
| Gwasanaethau Cymunedol | 29,942 | 31,804 | 1,862 | 6.2% |
| Datblygu Cynaliadwy | 22,124 | 21,366 | -758 | -3.4% |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 7,283 | 8,106 | 823 | 11.3% |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,274 | 2,169 | -105 | -4.6% |
| Cefnogaeth Y Dreth Gyngor - cyfrifoldebau ychwanegol | | 4,825 | 4,825 | |
| Ardollau | 3,223 | 3,220 | -3 | -0.1% |
| Ariannu Cyfalaf a llog | 7,077 | 7,185 | 108 | 1.5% |
| | | | | |
| Ad-daliadau i'r CRT/SGU | -357 | -358 | -1 | 0.3% |
| Mentrau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (arbedion) | | -230 | -230 | |
| **Cyfanswm** | **119,940** | **125,765** | **5,825** | **4.9%** |
| | | | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | -321 | -545 | -224 | 69.8% |
| | | | | |
| Bwrdd Gwella ac Adfer Addysg | | 190 | 190 | |
| Arian wrth gefn Cyffredinol | 581 | | -581 | -100.0% |
| Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi | | 450 | 450 | |
| **Is gyfanswm Cyllideb Ddisymud** | **120,200** | **125,860** | **5,660** | **4.7%** |
| | | | | |
| Arian wrth gefn Diswyddo | | 1,000 | 1,000 | |
| Arian wrth gefn Cost Newid | | 500 | 500 | |
| Arian wrth gefn Penodol Arall | | 350 | 350 | |
| Cyfraniad o / i Balansau | -1,200 | 500 | 1,700 | -141.7% |
| **Cyfanswm cyn Arbedion** | **119,000** | **128,210** | **9,210** | **7.7%** |
| | | | | |
| **Ariennir gan:** | | | | |
| Cyllideb Allanol Cyfun | 92,331 | 100,227 | 7,896 | 8.6% |
| Y Dreth Gyngor | 26,704 | 28,033 | 1,329 | 5.0% |
| Rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn | -35 | -50 | -15 | 42.9% |
| **Cyfanswm Ariannu** | **119,000** | **128,210** | **9,210** | **7.7%** |
| | | | | |
| **Bwlch Ariannu** | **0** | **0** | **0** | |

This page is intentionally left blank

**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Y PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **18 CHWEFROR 2013 A 5 MAWRTH 2013** |
| **Pwnc** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **SWYDDOG MONITRO** |
| **Swyddog Cyswllt** | **SWYDDOG MONITRO** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad a rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo.

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Saith o newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad i ddod i rym ar unwaith ar ôl yr etholiad.

**B - Ystyriaethau**

Cyfuniad o:-

- Diwygiadau 1, 6 a 7 i gefnogi llywodraethu corfforaethol a
- Diwygiadau 2 i 5 i gynorthwyo Rheolwyr i reoli beichiau gwaith ar ôl yr etholiad

**C - Goblygiadau ac Effeithiau**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Ymgynghori gyda Swyddogion perthnasol a'r holl Aelodau ar ddiwygiadau 6 a 7 - Protocol Perthynas newydd ar gyfer Aelodau a Swyddogion a Phrotocol ar gyfer Wardiau Amlaelod ac ymgynghori gyda'r Swyddogion perthnasol yn Sgriwtini, Cynllunio, Trwyddedu, Archwilio a Chyllid mewn perthynas â diwygiadau 2, 3 a 4 yn y drefn honno.<br><br>Ymgynghori gyda'r Arweinydd a chyda'r Prif Weithredwr. |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

Ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013:-

1. Gwneud hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn orfodol

2. Gostwng nifer y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2
3. Gostwng nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (a'r Pwyllgor Trwyddedu) o 14 i 11
4. Gostwng nifer Aelodau'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Archwilio o 10 i 8
5. Gostwng nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Gwaith o 10 i 7 (yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd)
6. Adolygu'r Protocol Perthynas diwygiedig ar gyfer Aelodau a Swyddogion
7. Mabwysiadu'r protocol ar gyfer Wardiau Amlaelod

**D - Argymhelliad**

Cefnogi'r 7 newid a argymhellir.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Lynn Ball** |
| **Swydd** | **Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol/ Swyddog Monitro** |
| **Dyddiad** | |

**Atodiadau:**

Papur 1 – Strwythur Pwyllgorau
Papur 2 – Protocol Perthynas Drafft ar gyfer Aelodau a Swyddogion
Papur 3 – Protocol Drafft ar gyfer Wardiau Amlaelod

**Papurau Cefndirol:**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i :** | Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir |
| **Dyddiad :** | 18 Chwefror 2013 a 5 Mawrth 2013 |
| **Pwnc :** | NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL |
| **Deilydd Portffolio :** | Y Cynghorydd John Chorlton |
| **Swyddog(ion) Arweiniol :** | Swyddog Monitro |
| **Rheswm am yr adroddiad:** | GWELLA'R FFORDD Y BYDD Y CYNGOR NEWYDD YN GWEITHIO AR ÔL 2 MAI 2013 |

**CYFLWYNIAD**

Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unrhyw newidiadau Cyfansoddiadol ac, yn ogystal, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor.

Awgrymir gwneud saith o newidiadau. Yn fras, bwriedir gwella'r ffordd y bydd y Cyngor newydd yn gweithio ar ôl 2 Mai 2013, ond yn fwyaf arbennig i ystyried y pwysau gwaith corfforaethol ar nifer lai o Aelodau.

Y newidiadau a awgrymir yw :

**<u>GWELLIANT 1</u> – HYFFORDDIANT I AELODAU**

Ar 31 Hydref 2012, penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell i'r Cyngor bod y Côd Ymddygiad yn cael ei newid fel bod hyfforddiant ar y Côd yn hanfodol yn y ffyrdd a ganlyn:

- Y byddai angen i'r Aelodau a etholwyd i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn ystod y 6 mis cyntaf o dderbyn y swydd;

- Bod rhaid i unrhyw Aelod sy'n dychwelyd ac nad oedd yn Gynghorydd Sir yn union cyn yr etholiad (h.y. heb barhad mewn swydd) fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn y chwe mis cyntaf o dderbyn y swydd.

- Bod yn rhaid i unrhyw Aelod sy'n dychwelyd, ac a oedd yn Gynghorydd Sir yn union cyn yr etholiad, fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn ystod ei gyfnod/chyfnod yn y swydd.

Pe bai'r Côd Ymddygiad statudol yn cael ei newid yn sylweddol (ac nid oes dim arwydd bod hyn yn cael ei ystyried) yna byddai angen i bob Aelod fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd newydd yn ystod gweddill eu tymor yn y swydd.

**ARGYMHELLIAD**

Er lles llywodraethu corfforaethol da, sicrhau bod yr Aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r Côd Ymddygiad a'u helpu i ddelio gydag unrhyw gwynion fydd yn codi dan y Côd Ymddygiad ac argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Safonau.

**GWELLIANT 2 – PWYLLGORAU SGRIWTINI**

Ynghlwm fel "Papur 1" y mae'r Strwythur Pwyllgorau sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd hyn yn rhoi i Aelodau syniad o'u pwysau gwaith corfforaethol cyfredol. At hyn, bydd gan Aelodau rôl arweiniol o fewn eu wardiau eu hunain – wardiau a fydd yn fwy, yn ogystal â chyfrifoldebau i gyrff allanol.

I gydnabod y pwysau gwaith yn hyn o beth, awgrymir, yn dilyn yr etholiad, bod y pum Pwyllgor Sgriwtini presennol yn cael eu cwtogi i ddau.

**ARGYMHELLIAD**

- Yn dilyn yr etholiad ar 2 Mai 2013, bod nifer y Pwyllgorau Sgriwtini yn cael eu cwtogi o bump i ddau.

- Enwau'r ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd fydd – "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a'r "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth".

- Bydd y pwerau galw i mewn cyfredol yn parhau ond bydd y pwerau hynny yn cael eu rhannu rhwng y ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd, yn hytrach na chael eu gweithredu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn unig.

- Pe bai ansicrwydd ynglŷn â pha Bwyllgor Sgriwtini yw'r un mwyaf priodol i alw unrhyw fater arbennig i mewn iddo, bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Prif Weithredwr yn dilyn derbyn cyngor gan Swyddogion perthnasol.

- Mae'r Cyngor yn awdurdodi swyddogion i lunio cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Sgriwtini newydd. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini cyfredol, a'r Arweinyddion Grwpiau, yn ogystal â Swyddogion perthnasol. Bydd y pwyslais ar ganiatáu yn hytrach na rhagnodi, yn generig yn hytrach nac yn benodol; mewn geiriau eraill, mor hyblyg ag sy'n bosibl.

**GWELLIANT 3 – PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

Ar hyn o bryd, mae'r 14 o aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (ac felly mae'n dilyn bod 14 o aelodau ar y Pwyllgor Trwyddedu hefyd) ac awgrymir bod y nifer yn cael ei ostwng i 11 o aelodau yn dilyn yr etholiad.

**ARGYMHELLIAD**

- Yn dilyn yr etholiad ar 2 Mai 2013, bydd nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn gostwng o 14 i 11.

- Wrth cydnabod bod yn rhaid i reolau cydbwysedd gwleidyddol gael blaenoriaeth bob amser, bydd yr Arweinyddion Grwpiau (a chyfatebol ar gyfer dyrannu seddau i Aelodau digyswllt penodol) yn gwneud pob ymdrech i enwebu un aelod o bob un o'r 11 ward aml- aelod newydd.

**GWELLIANT 4 – PWYLLGOR ARCHWILIO**

Ar hyn o bryd, mae 10 o Gynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Archwilio a dau Aelod lleyg. Awgrymir, yn dilyn yr etholiad, bod y nifer yn gostwng i 8 o Aelodau Cyngor Sir a 2 Aelod lleyg.

**ARGYMHELLIAD**

Ar ôl Mai 2013, bod nifer Aelodau'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Archwilio yn gostwng o 10 i 8.

**GWELLIANT 5 – Y PWYLLGOR GWAITH**

Gall y Cyngor gael Pwyllgor Gwaith ac arno ddim rhagor na 10 Aelod; i gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

Fodd bynnag, gan gofio am yr angen i gael llai o Aelodau i ymgymryd â swyddogaethau corfforaethol eraill, awgrymir bod nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Gwaith yn cael ei ostwng i 7; i gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

**ARGYMHELLIAD**

Mewn ymateb i amgylchiadau lleol, a chan dderbyn y disgresiwn statudol a ganiateir, bydd nifer Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gostwng o 10 i 7. Bydd y nifer hwn yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

**GWELLIANT 6 – PROTOCOL PERTHYNAS AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION**

Mae'r Protocol cyfredol yn Rhan 5 y Cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ailddrafftio'r Protocol i'w wneud yn fyrrach ac yn haws i Aelodau a Swyddogion ei ddefnyddio. Nid oes newidiadau o bwys i'r egwyddorion yn y ddogfen wreiddiol. Anfonwyd y Protocol drafft newydd allan i Aelodau a Swyddogion i ymgynghori arno rhwng 11 Hydref 2012 a 27 Tachwedd 2012. Ni chafwyd unrhyw newidiadau o bwys i'r drafft o ganlyniad i'r ymgynghori.

Mae "Papur 2" sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cynnwys y fersiwn derfynol a gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Protocol diwygiedig erbyn Mai 2013 ar gyfer ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Safonau a derbyn Protocol newydd sydd ym Mhapur 2 yr adroddiad hwn yn lle'r Protocol cyfredol.

**<u>GWELLIANT 7</u> – PROTOCOL AR GYFER WARDIAU AMLAELOD**

O ystyried y newid i wardiau amlaelod, fe baratôdd y Pwyllgor Safonau brotocol drafft ar gyfer Wardiau Amlaelod – mae'r protocol ynghlwm fel "Papur 3" i'r adroddiad hwn.

Ymgynghorwyd gydag Aelodau a Swyddogion ar y ddogfen hon rhwng 17 Rhagfyr 2012 a 31 Ionawr 2013. Ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr i'r drafft o ganlyniad i'r ymgynghori.


Mae'r Protocol wedi ei greu i helpu Aelodau a Swyddogion ddelio gyda heriau newydd y wardiau amlaelod ond fe'i lluniwyd hefyd i fod yn ddigon eang i ganiatáu i Aelodau ddatblygu eu model gweithio eu hunain yn unol ag amgylchiadau lleol.

**ARGYMHELLIAD**

- Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Protocol a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau, i ddod i rym o Mai 2013.
- Bod y Cyngor yn penderfynu a fydd y Protocol Wardiau Amlaelod yn ddogfen annibynnol sy'n sefyll ar ei phen ei hun yn Rhan 5 y Cyfansoddiad ai peidio, neu a ddylid ei chynnwys yn y Protocol Perthynas Aelodau a Swyddogion, i greu un ddogfen. Roedd y Pwyllgor Safonau yn dymuno gweld un ddogfen, ond gofynnir i Aelodau ddewis yr opsiwn y maent yn ei ffafrio.

PAPUR / ENCLOSURE
1

# Cyngor Sir Ynys Môn – Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd – Cyn Mai 2013




*Gweler hefyd restr arall o Gyrff Allanol

ANM = Nifer Gyfartalog o Gyfarfodydd y flwyddyn

PAPUR / ENCLOSURE
2

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL AR GYFER Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

## MYNEGAI


**1. Rhagarweiniad**
**2. Cofnodion**
**3. Rôl yr Aelodau**
**4. Rôl Swyddogion**
**5. Y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Cyffredinol**
**6. Y Cyngor fel Cyflogwr**
**7. Y Cadeirydd a Swyddogion**
**8. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion**
**9. Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini a Swyddogion**
**10. Aelodau Pwyllgorau neu Is-Bwyllgorau eraill a Swyddogion**
**11. Grwpiau Gwleidyddol a Swyddogion**
**12. Aelodau Lleol a Swyddogion**
**13. Y Berthynas gyda'r Cyfryngau**
**14. Gohebiaeth**
**15. Defnyddio Adnoddau'r Cyngor**
**16. Torri'r Protocol hwn**


1. **RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae'r Cyngor yn cydsynio â'r farn na all yr un awdurdod lleol weithredu'n effeithiol heb berthynas broffesiynol dda rhwng eu Haelodau a'u Swyddogion.

1.2 Pwrpas y Protocol hwn yw llywio Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu perthynas gyda'i gilydd; gyda'r nod o hyrwyddo'r safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus sydd raid wrthynt ar gyfer llywodraeth leol lwyddiannus.

1.3 Mae'r Protocol hwn yn ceisio hyrwyddo mwy o eglurder a sicrwydd, gan gynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol.

1.4 Gall torri'r Protocol hwn olygu torri Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau neu'r Côd Ymddygiad ar gyfer Swyddogion.

1.5 Mae'r Protocol hefyd yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail ar gyfer y Codau Ymddygiad perthnasol ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Nod cyffredin y Codau hyn yw gwella a chynnal uniondeb llywodraeth leol, gan fynnu felly ar safonau uchel iawn o ymddygiad personol.

DRAFT

## 2. COFNODION

2.1 Rhaid i Aelodau a Swyddogion lynu wrth y Protocol hwn bob amser pan fônt yn ymwneud â'i gilydd.

2.2 Rhaid i Aelodau a Swyddogion barchu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall bob amser. Rhaid iddynt ddangos parch, trwy lynu at safonau rhesymol o gwrteisi, a thrwy beidio â cheisio cymryd mantais annheg yn rhinwedd eu swyddogaethau.

2.3 Er na fedr Aelodau a Swyddogion weithio y naill heb y llall, mae eu cyfrifoldebau yn wahanol ac ar wahân. Mae Aelodau yn atebol i'r etholwyr gan wasanaethu dim ond cyhyd ag y pery eu cyfnod yn y swydd. Mae'r Swyddogion yn atebol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac mae eu gwaith yn cynnwys rhoi cyngor i Aelodau (yn unigol ac ar y cyd) a chyflawni gwaith y Cyngor dan gyfarwyddwyd y Cyngor ac yn unol â'u cyfrifoldebau rheolaeth llinell.

2.4 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Mae'r ddau yn cynrychioli gwerth gorau. Mae'r Côd ar gyfer Aelodau yn dilyn y côd cenedlaethol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Y rhain yw:-

- Anhunanoldeb - gan wasanaethu'r budd cyhoeddus yn unig.
- Gonestrwydd ac uniondeb - cymryd yr holl gamau rhesymol i osgoi bwrw amheuaeth ar y rhain, peidio ag ymddwyn yn amhriodol.
- Gwrthrychedd - gwneud penderfyniadau yn ôl eu haeddiant.
- Atebolrwydd – i'r cyhoedd; bod yn agored i sgriwtini.
- agoredrwydd - rhoi eglurhad a rhesymau dros benderfyniadau.
- Barn bersonol – dod i'w casgliadau eu hunain a gweithredu ar y sail honno.
- Parch tuag at eraill - hyrwyddo cydraddoldeb; osgoi rhagfarnu, parchu eraill (Aelod/Aelod, yn ogystal ag Aelod/Swyddog).
- Dyletswydd i lynu wrth y gyfraith - peidio â gweithredu yn anghyfreithlon.
- Stiwardiaeth - sicrhau defnydd doeth o adnoddau'r Cyngor.
- Arweinyddiaeth - gweithredu mewn modd sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

2.5 Rhaid i Swyddogion lynu wrth Gôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion ac, mewn rhai achosion, wrth eu Codau Ymddygiad Proffesiynol eu hunan hefyd.

2.6 Os bydd Aelod yn torri'r Protocol hwn, gallai hynny arwain at gŵyn i



DRAFT

Ombwdsmon Gwasanaethau Gyhoeddus Cymru (OGGC) os yw'n ymddangos bod y Protocol wedi ei dorri mewn modd sy'n golygu bod y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi ei dorri hefyd. Gellir delio ag achosion eraill o dorri'r Protocol, sy'n disgyn y tu allan i awdurdodaeth OGGC, dan unrhyw Brotocol Hunanreoleiddio lleol. Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn Swyddog sy'n torri'r Protocol.

## 3. RÔL YR AELODAU

3.1 Mae gan Aelodau nifer o rolau a chyfrifoldebau a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer gwrthdaro a fedr godi rhwng eu swyddogaethau. Yn y sefyllfaoedd hyn, argymhellir bod Aelodau yn gofyn am gyngor cyd-aelodau blaenllaw, swyddogion perthnasol ac/neu'r Swyddog Monitro.

3.2 Gyda'i gilydd, Aelodau sy'n gwneud polisïau'r Cyngor; penderfynu ar gynlluniau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith polisi a gosod cyllideb flynyddol y Cyngor.

3.3 Mae Aelodau hefyd yn cynrychioli cymuned ehangach Ynys Môn, gan weithredu fel arweinwyr yn y gymuned i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal; yn aml mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill neu fel cynrychiolwyr ar gyrff allanol.

3.4 Mae pob Aelod yn cynrychioli budd eu wardiau etholiadol a'u hetholwyr unigol ac yn eiriolwyr drostynt. Mae Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor yn eu wardiau, gan ymateb i bryderon a materion lleol, cyfarfod gydag asiantaethau partner a gwasanaethu ar gyrff lleol.

3.5 Mae gan rai Aelodau swyddogaethau mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Rheoleiddio neu Is-Bwyllgorau a Phanelau'r Cyngor.

3.6 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd fod â phwerau dirprwyol unigol, un ai'n gyffredinol, neu ar sail ad-hoc.

3.7 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith benderfynu materion o fewn eu portffolio o gyfrifoldebau ond Swyddogion fydd yn gyfrifol am weithredu eu penderfyniadau.

3.8 Mae gan Aelodau sy'n gwasanaethu ar Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau gyfrifoldebau ar y cyd, e.e. penderfynu ar faterion rheoleiddiol/lled-farnwrol (h.y. penderfyniadau sy'n cael effaith ar unwaith a sylweddol ar ymgeiswyr/gwrthwynebwyr unigol ac ati) ac nad ydynt, yn unol â'r gyfraith, yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith.

3.9 Fel gwleidyddion, gall Aelodau fynegi gwerthoedd a dyheadau grŵp neu blaid wleidyddol y maent yn perthyn iddi, ond gan gydnabod bod ganddynt ddyletswydd bob amser i weithredu er budd y cyhoedd yn eu swyddogaethau fel Aelodau.

3.10 Yn eu gwahanol swyddogaethau, a ddisgrifir ym mharagraffau 3.2 i 3.9, mae ymddygiad yr Aelodau yn gosod cywair a gwerthoedd craidd y Cyngor.



DRAFT

3.11 Trwy werthuso perfformiad, gosod targedau, a rheolaeth o ddydd i ddydd, mae Swyddogion yn derbyn eu cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr llinell. Nid oes gan Aelodau awdurdod i gyfarwyddo Swyddogion ac eithrio:

- trwy'r broses ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- gofyn am ddarpariaeth o adnoddau treuliadwy a ddarperir gan y Cyngor i'w defnyddio gan Aelodau;
- lle bo staff wedi eu neilltuo'n benodol i roi cefnogaeth i Aelod neu grŵp o Aelodau.

3.12 Nid oes gan Aelodau awdurdod i gychwyn nac i ardystio trafodion ariannol, nac i wneud contract ar ran y Cyngor.

3.13 Rhaid i Aelodau osgoi cymryd camau sydd yn anghyfreithlon, yn ariannol amhriodol neu'n debygol o fod yn gamweinyddu (h.y. yn groes i bolisi neu weithdrefnau). Dan y Côd Ymddygiad, mae gan Aelodau ddyletswydd, pan fônt yn gwneud penderfyniadau, i ystyried unrhyw gyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Arweiniol ac yn arbennig y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

3.14 Rhaid i Aelodau barchu didueddrwydd y Swyddogion a pheidio â gwneud dim i beryglu hynny, e.e. trwy fynnu bod Swyddog yn newid ei gyngor/chyngor proffesiynol.

3.15 Mae gan Aelodau ddyletswydd i lynu wrth y gofynion a ddisgrifir yn eu Côd Ymddygiad.

## 4. <u>RÔL SWYDDOGION</u>

4.1 Mae Swyddogion yn gyfrifol am roi cyngor i Aelodau fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Wrth wneud hynny, bydd Swyddogion yn cymryd yr holl ffactorau perthnasol sydd ar gael i ystyriaeth.

4.2 Dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor (gan gynnwys, fel sy'n briodol, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau), mae Swyddogion yn rheoli ac yn darparu gwasanaethau'r Cyngor o fewn y fframwaith o gyfrifoldebau a ddirprwywyd iddynt. Mae hyn yn cynnwys rheoli gweithwyr a materion gweithredol yn effeithiol.

4.3 Mae dyletswydd ar Swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau sy'n gyfreithlon, ac sydd wedi ei gymeradwyo'n briodol yn unol â gofynion y gyfraith a Chyfansoddiad y Cyngor ac sydd wedi eu cofnodi yn briodol.

4.4 Mae gan Swyddogion ddyletswydd gyfreithiol a chontractyddol i fod yn ddiduedd. Rhaid iddynt sicrhau nad yw eu safbwyntiau personol yn dylanwadu ar eu cyngor a'u barn broffesiynol.



DRAFT

4.5 Rhaid i Swyddogion gynorthwyo a chynghori pob rhan o'r Cyngor. Rhaid iddynt bob amser weithredu hyd eithaf eu gallu er budd y Cyngor fel y mynegir ym mhenderfyniadau ffurfiol y Cyngor.

4.6 Rhaid i Swyddogion fod yn ymwybodol o faterion sy'n ddadleuol, neu sy'n debygol o fod yn ddadleuol, neu faterion sy'n wleidyddol sensitif, ac yn ymwybodol hefyd o'r goblygiadau i Aelodau, y cyfryngau neu garfannau eraill o'r cyhoedd.

4.7 Mae gan Swyddogion hawl i beidio cefnogi Aelodau mewn unrhyw swyddogaeth ac eithrio eu swyddogaethau fel Aelodau, ac i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn gyson gyda'r Protocol hwn. Yn arbennig, mae cyfyngiad statudol ar ymwneud Swyddogion â gweithgareddau gwleidyddol. Gall gweithredu'n groes i'r cyfyngiad statudol arwain at gamau disgyblu.

## 5. <u>Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION: CYFFREDINOL</u>

5.1 Dylai ymddygiad Aelodau a Swyddogion ennyn parch a hyder rhwng y naill a'r llall.

5.2 Yr elfennau allweddol yw cydnabod a pharchu cyfrifoldebau'r naill a'r llall. Dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn ymddygiad ac agwedd y naill tuag at y llall, yn gyhoeddus ac yn breifat.

5.3 Anogir cyswllt anffurfiol a chydweithredol rhwng Aelodau a Swyddogion, ond gall adnabyddiaeth bersonol ddifrodi'r berthynas, fel y gallai cysylltiad teuluol neu gysylltiad busnes.

5.4 Dylai Aelodau a Swyddogion roi gwybod i'r Swyddog Monitro, neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, am unrhyw berthynas y gellir ei hystyried yn un sy'n cael dylanwad amhriodol ar eu gwaith yn eu swyddogaethau gwahanol. Gallai perthynas o'r fath hefyd gynnwys rhywun yr ydych wedi bod mewn anghydfod â nhw, neu rywun y gellir ei ystyried y byddai o fudd i chi ei roi dan anfantais, (yn debyg i ddiffiniad yr Ombwdsmon 'rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw' yn ei Ganllawiau ar y Côd Ymddygiad.

5.5 Yn ogystal ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylai Aelodau a Swyddogion fod yn agored bob amser am eu cydberthynas i osgoi unrhyw reswm am amheuaeth neu unrhyw ganfyddiad o ymddygiad amhriodol. Lle datgelwyd perthynas bersonol, dylai'r unigolion dan sylw osgoi sefyllfa lle gellid yn rhesymol ganfod gwrthdrawiad. Yn benodol, rhaid i Aelod beidio ag eistedd ar unrhyw gorff, neu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Swyddog ar sail bersonol. Sut bynnag, mae amgylchiadau o'r fath hefyd yn debygol o fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu dan y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

5.6. Mae Swyddogion yn gwasanaethu'r Cyngor cyfan. Mae dyletswydd arnynt i weithredu penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ac a awdurdodwyd yn



DRAFT

briodol.

5.7 Mae Swyddogion yn gweithio yn ôl cyfarwyddiadau eu rheolwyr llinell, ac nid aelodau unigol. Mae'n dilyn o hynny, er y bydd Swyddogion o'r fath bob amser yn ceisio cynorthwyo Aelodau, rhaid peidio â gofyn iddynt fynd y tu draw i'r awdurdod a roddwyd iddynt gan eu rheolwyr. Ac eithrio lle mae ymholiad yn cael ei wneud i ofyn am wybodaeth ffeithiol, sef gwybodaeth y mae gan yr Aelod hawl i'w chael, dylai Aelodau, fel arfer, gyfeirio unrhyw geisiadau a phryderon i Bennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y lle cyntaf.

5.8 Bydd Swyddogion yn gwneud eu gorau i ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Aelodau. Fodd bynnag, rhaid i'r ceisiadau iddynt fod yn rhesymol. Mae eu blaenoriaethau gwaith yn cael eu gosod a'u rheoli gan eu rheolwyr. Dylai Aelodau osgoi amharu ar waith Swyddogion trwy geisio gorfodi eu blaenoriaethau eu hunain. Dylai Swyddogion roi gwybod i'w rheolydd llinell am unrhyw bryderon o'r fath.

5.9 Bydd Aelodau yn ceisio ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Swyddogion.

5.10 Mae gan staff hawl i godi materion gyda'u Haelod lleol fel dinasyddion y Sir. Fodd bynnag, ni chânt lobïo Aelodau ar faterion cyflogaeth bersonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Aelodau, fel cyflogwyr a gwneuthurwyr polisi, yn cael cyngor cytbwys ac unedig o fewn fframwaith trefnus. Rhaid i Aelodau wrthod ymateb i lobïo amhriodol gan staff a rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol yn y fath achosion.

5.11 Dylai Aelodau a Swyddogion barchu amser hamdden y naill a'r llall (h.y. amser y tu allan i'r Cyngor).

## 6. Y CYNGOR FEL CYFLOGWR

6.1 Mae Swyddogion yn cael eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

6.2 Cyfyngir swyddogaethau Aelodau i:

- penodi i uwch swyddi penodol;
- penderfynu polisïau adnoddau dynol ac amodau cyflogaeth; a
- gwrando a phenderfynu apeliadau perthnasol.

6.3 Ni chaiff Aelodau weithredu y tu allan i'r swyddogaethau hyn.

6.4 Os ydynt yn cymryd rhan mewn proses ar gyfer penodi Swyddogion, dylai Aelodau:

- gofio bod dyletswydd statudol i benodi ar sail haeddiant yn unig;
- byth â chanfasio am gefnogaeth i ymgeisydd penodol;
- peidio â chymryd rhan, neu geisio dylanwadu ar y canlyniad, os oes



DRAFT

cyswllt personol agos rhyngddynt ac un o’r ymgeiswyr;

- peidio â chael eu dylanwadu gan ystyriaethau ac eithrio haeddiant neu addasrwydd ar gyfer y swydd; a
- peidio â ffafrio ymgeisydd penodol trwy roi gwybodaeth iddynt nad yw ar gael i ymgeiswyr eraill;
- glynu wrth ofynion y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

6.5 Ni ddylai Aelod eistedd ar banel apêl os yw’r apelydd yn ffrind, yn perthyn iddo/iddi, neu yn Swyddog y mae’r Aelod yn gweithio’n agos ag ef/hi neu wedi gweithio yn agos ag ef/hi.

## 7. CADEIRYDD A SWYDDOGION

Bydd Swyddogion yn parchu Cadeirydd y Cyngor ac yn darparu cefnogaeth briodol.

## 8. AELODAU’R PWYLLGOR GWAITH A SWYDDOGION

8.1 Bydd Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau yn unol â’r Cyfansoddiad ac ni fyddant yn cyfarwyddo staff fel arall. Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn gweithredu penderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith.

8.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn ogystal â’r swyddogion statudol) hawl i gyflwyno papurau i’r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd neu, lle mae’n berthnasol, i Aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith i’w hystyried cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

8.3 Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn cytuno ar ddulliau hwylus o gyswllt rheolaidd. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol, bydd y Pwyllgor Gwaith yn gofyn am gyngor proffesiynol priodol gan gynnwys, yn ddieithriad, cyngor y Swyddog Monitro a’r Swyddog Adran 151 ac ni fydd yn cyfarwyddo Swyddogion ynglŷn â sut i lunio argymhellion.

8.4 Cyn i’r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol a chanddynt oblygiadau ariannol, rhaid ymgynghori gyda’r Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth/Gwasanaethau dan sylw. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y Swyddogion sy’n dal cyllidebau:

- yn ymwybodol o’r penderfyniad arfaethedig;
- yn cael cyfle i gynnig cyngor; a
- yn gallu awdurdodi’n briodol y trafodion ariannol sydd raid wrthynt i weithredu’r penderfyniadau.

8.5 Rhaid i aelod unigol o’r Pwyllgor Gwaith sy’n dymuno ysgrifennu neu gomisiynu adroddiad, neu sy’n dymuno gwneud penderfyniad ar fater o fewn

ei bortffolio/phortffolio, sicrhau ei fod/ei bod yn hysbysu'r Aelodau a'r Swyddogion eraill y mae angen iddynt wybod am y mater. Yn benodol, mae'n rhaid ymgynghori ag Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith ar faterion sy'n croestorri.

8.6 Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (un ai ar y cyd neu yn unigol) ddatgan eu rhesymau dros y penderfyniadau. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniadau gynnwys y rhesymau.

8.7 Rhaid i Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain ystyried a fyddai'n ddoeth rhoi gwybod i'r Aelod/Aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith am eu bwriadau, ymlaen llaw, pan fo'r mater y gwneir y penderfyniad yn ei gylch yn debygol o fod yn sensitif neu'n ddadleuol, neu gyda goblygiadau polisi ehangach.

## 9. AELODAU'R PWYLLGORAU SGRIWTINI A SWYDDOGION

9.1 Rhaid i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini gadw mewn cyswllt rheolaidd gyda Swyddogion Sgriwtini sy'n darparu'r brif gefnogaeth i'r Swyddogaeth Sgriwtini. Mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeiryddion, cyfrifoldeb y Swyddogion hynny fydd sicrhau bod y rheini sydd angen gwybod am faterion sy'n cael sylw, neu sy'n debygol o gael sylw yn y dyfodol, yn cael gwybod amdanynt.

9.2 Gall Pwyllgor Sgriwtini, neu Gadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, fynnu bod Swyddogion yn dod i gyfarfodydd Sgriwtini. Ni ddylai Aelodau ddisgwyl i Swyddogion Iau i wneud hynny, a dylai pob cais am bresenoldeb unrhyw Swyddog gael ei gyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol.

9.3 Wrth wneud cais i Swyddog fynychu, bydd rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini gymryd baich gwaith y Swyddogion i ystyriaeth.

9.4 Pan yn mynychu Pwyllgor Sgriwtini (neu Panelau Canlyniad Sgriwtini) dylai Swyddogion fod yn fodlon cyfiawnhau unrhyw gyngor y maent eisoes wedi ei roi ar y mater dan sylw, hyd yn oed pan na dderbyniwyd y cyngor hwnnw. Bydd gofyn i Swyddogion hefyd gyfiawnhau'r penderfyniadau y maent wedi eu gwneud yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain, neu mewn amgylchiadau lle y maent wedi eu hawdurdodi'n briodol i gymryd penderfyniadau gweithredol.

9.5 Wrth roi gwybodaeth i Bwyllgorau Sgriwtini, neu Panelau Canlyniad, ni ddylid gofyn i Swyddogion am farn wleidyddol ac ni ddylent gynnig barn o'r fath chwaith.

9.6 Wrth holi Swyddogion mewn cyfarfodydd Sgriwtini, dylai Aelodau annerch Swyddogion gydag urddas a pharch a thrin eu hymatebion gyda chwrteisi. Ni ddylid gofyn iddynt am faterion o natur ddisgyblaethol.

9.7 Rhaid i Swyddogion barchu Aelodau yn y ffordd y maent yn ymateb i

gwestiynau'r Aelodau.

9.8 Rhaid i Sgriwtini ganolbwyntio ar adolygu polisïau ac ar berfformiad y Cyngor a'i Wasanaethau. Ni chaniateir trafod materion personol, fel perfformiad Swyddogion unigol, yn y fforymau hyn o dan unrhyw amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, cyfeirir yr Aelodau at Adran 16 y Protocol hwn.

9.9 Os yw'n ffactor berthnasol, cyn galw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i mewn, dylai Aelodau Sgriwtini geisio cael cyngor yn fuan gan y Swyddog Adran 151, os byddant yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Cyllidebol y Cyngor, a chyngor gan y Swyddog Monitro os ydynt yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Polisi'r Cyngor.

## 10. AELODAU PWYLLGORAU NEU IS-BWYLLGORAU ERAILL A SWYDDOGION

10.1 Bydd y Swyddog sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn trefnu cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor ac Is-Bwyllgorau.

10.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn cynnwys y swyddogion statudol) hawl i gyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau.

10.3 Rhaid i Aelodau Pwyllgor neu Is-Bwyllgor wneud penderfyniadau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor hwnnw, ac ni fyddant fel arall yn rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion weithredu.

10.4 Mewn rhai cyfarfodydd o Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau, efallai y bydd penderfyniad yn cael ei basio sy'n awdurdodi Swyddog a enwir i weithredu rhwng cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, y Swyddog ac nid y Cadeirydd sy'n gweithredu ac sy'n gyfrifol am hynny. Nid oes gan Gadeirydd unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran Pwyllgor neu Is-Bwyllgor ac ni ddylai ef/hi chwaith roi pwysau amhriodol ar y Swyddog.

## 11. GRWPIAU GWLEIDYDDOL A SWYDDOGION

11.1 Mae'n iawn i grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth gyfrannu i drafodaethau ar faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor. Mae gan Swyddogion hawl i wrthod ceisiadau o'r fath, ac fel arfer ni fyddant yn mynychu cyfarfod o grŵp gwleidyddol lle nad yw pawb sy'n bresennol yn Aelodau o'r Cyngor.

11.2 Ni fydd cefnogaeth gan Swyddogion yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth ffeithiol neu gyngor proffesiynol mewn perthynas â materion o fusnes y Cyngor. Ni ddylai Swyddogion gynghori ar faterion busnes grŵp, ac felly ni ddylid disgwyl iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, neu rannau o gyfarfodydd, pan fo materion o'r fath yn cael eu trafod.



DRAFT

11.3 Nid oes gan gyfarfodydd grwpiau gwleidyddol y grym i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, ac nid yw casgliadau y daethpwyd iddynt mewn cyfarfodydd o’r fath yn cyfrif fel penderfyniadau ffurfiol. Nid yw presenoldeb Swyddog yn rhoi unrhyw statws ffurfiol i gyfarfodydd o’r fath o safbwynt busnes y Cyngor ac ni ellir ei ddehongli fel pe bai’n gwneud hynny. Mewn achosion lle mae Swyddogion yn darparu gwybodaeth ffeithiol a chyngor i grŵp gwleidyddol mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n ymwneud â busnes y Cyngor, nid yw hyn yn rhywbeth a wneir yn lle darparu’r holl wybodaeth angenrheidiol a chyngor pan fo’r mater arbennig yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan gorff perthnasol o’r Cyngor.

11.4 Ni ddylid tybio bod Swyddog yn cefnogi polisi neu safbwynt arbennig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol dim ond oherwydd bod y Swyddog wedi mynychu neu wedi rhoi gwybodaeth i’r cyfarfod.

11.5 Rhaid i Swyddogion barchu cyfrinachedd trafodaethau unrhyw un o’r grwpiau gwleidyddol lle maent yn bresennol ac, oni bai y gofynnir yn benodol iddynt gan y grwp gwleidyddol, ni fyddant yn datgelu cynnwys trafodaethau o’r fath i grwp gwleidyddol arall, nac i unrhyw Aelod neu Aelodau. Ni fydd hyn yn rhwystro Swyddog rhag rhoi adborth i Swyddogion eraill ar sail “angen gwybod”.

11.6 Wrth ddelio â grwpiau gwleidyddol, rhaid i’r Swyddogion drin pob grwp mewn dull teg a chyson.

11.7 Ni chaniateir i Aelodau wneud unrhyw beth sy’n peryglu, neu sy’n debygol o beryglu, didueddrwydd Swyddog.

11.8 Bydd y cyfnod amser y bydd Swyddog yn ei dreulio mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol yn cael ei reoli gan y grwp, ond fe all Swyddog adael ar unrhyw amser os yw’r Swyddog yn teimlo nad yw bellach yn briodol iddo aros yno.

11.9 Ni ddylai Swyddog sy’n derbyn gwahoddiad i gyfarfod o un grwp gwleidyddol wrthod gwahoddiad i roi cyngor i grwp arall ar yr un mater. Rhaid i’r Swyddog roi'r un cyngor i bob pwrpas, i bob grwp.

11.10 Ni fydd Swyddog sydd yn is na lefel Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol, ond fe all y Swyddog a wahoddir enwebu Swyddog arall i fynychu ar ei ran.

11.11 Rhaid rhoi cyfle i Swyddog wirio sylwadau a chyngor a briodolir iddynt hwy mewn unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfarfod unrhyw grwp gwleidyddol.

11.12 Ni chaniateir i unrhyw Aelod gyfeirio’n gyhoeddus, neu mewn cyfarfodydd o’r Cyngor, at gyngor neu wybodaeth a roddwyd gan Swyddogion mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol.

11.13 Mewn cyfarfodydd o grwp gwleidyddol lle nad yw rhai o’r rheiny sy’n bresennol yn Aelodau o’r Cyngor, rhaid bod yn ofalus i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy’n ymwneud â busnes y Cyngor. Nid yw'r sawl nad ydynt yn Aelodau yn gorfod glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau. Nid



DRAFT

oes ganddynt yr un hawliau i gael at wybodaeth y Cyngor ag sydd gan Aelodau.

11.14 Rhaid i unrhyw achosion arbennig lle ceir anhawster neu ansicrwydd mewn perthynas â'r rhan hon o'r Protocol, gael eu trafod mor fuan ag sy'n bosibl gyda'r Prif Weithredwr a chydag arweinydd y grwp gwleidyddol perthnasol.

## 12. <u>AELODAU LLEOL A SWYDDOGION</u>

12.1 Er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith o ran cynrychioli eu wardiau, mae angen i Aelodau fod â gwybodaeth lawn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu ward. Rhaid i Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r angen i roi gwybodaeth i Aelodau lleol a thrwy hynny ganiatáu i'r Aelodau hynny gyfrannu tuag at y broses gwneud penderfyniadau a datblygu eu rôl gynrychioliadol.

12.2 Mae'r angen hwn yn arbennig o bwysig:

- yn ystod cyfnodau cychwynnol datblygu unrhyw bolisi, lle mae hynny'n ymarferol;
- mewn perthynas â materion gweithredol arwyddocaol neu sensitif;
- pryd bynnag yr ymgymerir ag unrhyw ffurf o ymgynghori cyhoeddus; ac
- yn ystod ymchwiliad Sgriwtini.

12.3 Rhaid i'r holl Aelodau lleol a effeithir gael eu trin yn gyfartal o ran y wybodaeth a roddir iddynt. Mae hyn yn cynnwys wardiau aml-Aelod ac mewn achosion lle mae materion yn effeithio ar fwy nag un ward.

12.4 Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus, er mwyn ystyried mater lleol, rhaid gwahodd yr holl Aelodau sy'n cynrychioli'r ward/iau yr effeithir arni/arnynt i fynychu'r cyfarfod fel mater o drefn.

12.5 Pe bai Aelod lleol yn bwriadu trefnu cyfarfod cyhoeddus ar fater sy'n ymwneud â rhyw agwedd o waith y Cyngor, yna fe ddylai'r Aelod lleol ddweud wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Ar yr amod nad yw'r cyfarfod wedi cael ei drefnu ar sail plaid wleidyddol:

- fe all Swyddog fynychu, ond nid oes raid iddo wneud hynny, ac
- yn amodol ar y trefniadau angenrheidiol, fe all y cyfarfod gael ei gynnal yn un o adeiladau'r Cyngor.

12.6 Ni ddylid trefnu unrhyw gyfarfod o'r fath na'i gynnal yn union cyn etholiadau'r Cyngor.

12.7 Er bod rhoi cefnogaeth i waith ward yr Aelodau yn gyfreithlon, rhaid bod yn

DRAFT

ofalus os gofynnir i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd yn y ward. Mewn amgylchiadau o’r fath:

- rhaid i’r cymorthfeydd fod yn agored i’r cyhoedd yn gyffredinol, ac
- ni ddylid gofyn i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd sy’n cael eu cynnal yn swyddfeydd neu eiddo grwpiau neu bleidiau gwleidyddol.

12.8 Ni ddylid gofyn byth i Swyddogion fynychu cyfarfodydd plaid wleidyddol yn y ward neu’r etholaeth.

12.9 Mae'n cael ei gydnabod y bydd rhai aelodau o staff y Cyngor (e.e. y rhai sy’n darparu cefnogaeth benodol i Aelodau’r Pwyllgor Gwaith) yn derbyn a thrin negeseuon ar ran Aelodau ynghylch pethau nad ydynt yn ymwneud â’r Cyngor. Er y bydd y rhain yn aml yn ymwneud â rheoli dyddiadur, rhaid cymryd gofal i osgoi defnyddio adnoddau’r Cyngor i ddibenion preifat neu i ddibenion plaid wleidyddol.

12.10 Wrth geisio ymdrîn â chwestiynau neu bryderon etholwyr, ni ddylai Aelodau geisio cael rhoi sylw i’r mater yn gynt ond, yn hytrach, fe ddylent barchu gweithdrefnau’r Cyngor. Mae yna bwysau mawr ar amser Swyddogion. Efallai na fyddant yn gallu gwneud y gwaith y mae’r Aelodau ei angen yn y cyfnod amser y gofynnir amdano, ac efallai y byddent angen cael cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr.

## 13. Y BERTHYNAS GYDA’R CYFRYNGAU

13.1 Rhaid i bob cyswllt ffurfiol gyda’r cyfryngau gael ei gynnal yn unol â **Phrotocol y Cyfryngau sydd wedi ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu’r Cyngor (sydd ar gael ar wefan y Cyngor)**; a’r gyfraith ar gyhoeddusrwydd awdurdod lleol.

13.2 Yn eu hymwneud â’r cyfryngau, atgoffir yr Aelodau o’u hymrwymiadau yng nghyswllt cyfrinachedd yn unol â’r Côd Ymddygiad.

13.3 Bydd Swyddogion yn rhoi gwybod i Aelodau perthnasol ynghylch diddordeb y cyfryngau yng ngweithgareddau’r Cyngor, yn arbennig yng nghyswllt materion strategol neu faterion cynhennus.

13.4 Dylai swyddogion y mae’r cyfryngau yn cysylltu â nhw ailgyfeirio ymholiadau i’r Uned Gyfathrebu.

13.5 Yn yr un modd, bydd Swyddogion yn dweud wrth Uned Gyfathrebu’r Cyngor am faterion sy’n debygol o fod o ddiddordeb i’r cyfryngau, gan mai’r uned honno yn aml yw pwynt cyswllt cyntaf y cyfryngau.

13.6 Os bydd Aelod yn cysylltu â’r cyfryngau ar unrhyw fater neu os bydd y cyfryngau yn cysylltu ag ef/hi, rhaid i’r Aelod:

DRAFT

- nodi ym mha gapasiti y mae ef/hi yn siarad (e.e. fel Aelod ward, yn bersonol, fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, ar ran y Cyngor, neu ar ran grwp gwleidyddol);

- bod yn siŵr ynglŷn â'r hyn y mae ef/hi eisiau ei ddweud neu beidio ei ddweud;

- os bydd angen, a phob amser pan fydd ef/hi yn dymuno rhyddhau datganiad i'r wasg, dylid ceisio cymorth gan Uned Gyfathrebu'r Cyngor ac/neu Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ac eithrio mewn perthynas â datganiad sydd yn wleidyddol ei natur ;

- ystyried y canlyniadau tebygol i'r Cyngor yn dilyn ei dd/datganiad;

- byth wneud ymrwymiad mewn perthynas â materion y gall trydydd partïon gyflwyno hawliadau yn eu cylch ac/neu sy'n debygol o fod yn fater yswiriant;

- ystyried a ddylid ymgynghori ag Aelodau perthnasol eraill;

- cymryd gofal arbennig yn yr hyn y mae ef/hi yn ei ddweud pan fo etholiadau lleol neu genedlaethol yn agosáu er mwyn osgoi rhoi'r argraff o fod yn ymgyrchu ar ran yr Aelod, oni bai fod rhywun yn cysylltu ag ef / hi fel ymgeisydd etholiadol neu un yn gweithredu ar ran plaid;

- mae pob cyfeiriad a wneir yn yr adran hon at y cyfryngau yn cynnwys y wasg, y cyfryngau darlledu a'r cyfryngau electronig/cymdeithasol.

14. **GOHEBIAETH**

14.1 Ni ddylid copïo gohebiaeth rhwng Aelod unigol a Swyddog i Aelod arall oni bai bod hynny'n fwriad penodol gan yr awdur a'i fod wedi datgan hynny neu wedi rhoi ei ganiatâd. Mewn achos lle mae gohebiaeth yn cael ei chopïo, fe ddylid gwneud hynny'n glir bob amser h.y. ni ddylid byth darparu copïau "dall".

14.2 Fe ddylai llythyrau swyddogol a ysgrifennir ar ran y Cyngor fel arfer fod yn enw'r Swyddog perthnasol. Efallai y bydd yn briodol mewn rhai amgylchiadau (e.e. sylwadau i Weinidog y Llywodraeth) i lythyrau ymddangos yn enw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini.

14.3 Fe all Cadeirydd gychwyn gohebiaeth yn ei enw ef/hi ei hun.

14.4 Ni ddylai llythyrau sy'n creu ymrwymiadau cyfreithiol y gellir eu gorfodi, neu sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, fyth gael eu hanfon yn enw Aelod.

14.5 Pan mae'n ysgrifennu fel unigolyn, fel Aelod ward, rhaid i Aelod wneud y ffaith honno yn glir.



DRAFT

15. **DEFNYDDIO ADNODDAU'R CYNGOR**

15.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau fel teipio, printio a llungopïo i Aelodau, a hefyd nwyddau fel papur ysgrifennu ac offer cyfrifiadurol, i'w helpu i wneud eu gwaith fel Aelodau o'r Cyngor. Telir am y nwyddau a'r gwasanaethau hyn o'r pwrs cyhoeddus. Ni ddylid eu defnyddio i ddibenion preifat nac ychwaith mewn cysylltiad â gweithgareddau plaid wleidyddol nac ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd.

15.2 Rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor ei hun ynglŷn â defnyddio adnoddau o'r fath, yn arbennig:

- lle mae cyfleusterau yn cael eu darparu yng nghartrefi'r Aelodau ar gost y Cyngor;
- mewn perthynas ag unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol e.e. taliadau am lungopïo preifat; ac
- ynglŷn â diogelwch TGCh.

15.3 Ni ddylai Aelodau roi pwysau ar staff i ddarparu adnoddau neu gefnogaeth, nad oes gan Swyddogion yr hawl i'w rhoi. Esiamplau o hyn yw:

- busnes sydd yn ymwneud yn gyfan gwbl a phlaid wleidyddol;
- gwaith mewn cysylltiad â chyfarfod plaid wleidyddol mewn ward neu etholaeth;
- ymgyrchu etholiadol;
- gwaith yn gysylltiedig â digwyddiad y bydd Aelod yn ei fynychu mewn capasiti arall yn hytrach nag fel Aelod o'r Cyngor;
- gohebiaeth bersonol a phreifat;
- gwaith mewn cysylltiad â chorff neu fudiad arall lle bo cyswllt yr Aelod yn rhywbeth sydd ar wahân i'w waith fel Aelod o'r Cyngor; a
- cefnogaeth i Aelod yn ei gapasiti ef/hi fel Cynghorydd awdurdod lleol arall.

16. **TORRI'R PROTOCOL HWN**

16.1 Rhaid defnyddio'r rhan hon o'r Protocol ochr yn ochr â pholisi'r Cyngor ar **"rannu pryderon"**; **sydd ar gael ar wefan y Cyngor**.

16.2 Dylai Aelodau neu Swyddogion sydd â chwestiynau ynglŷn â gweithredu neu

ddehongli unrhyw ran o'r Protocol hwn geisio cyfarwyddyd gan y Swyddog Monitro.

16.3 Rhaid i Aelod sy'n anhapus ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan y Swyddog neu gyda'i ymddygiad:

- osgoi gwneud ymosodiadau personol neu gam-drin y Swyddog;
- sicrhau bod rhesymau cadarn dros wneud unrhyw feirniadaeth, a'i bod yn adeiladol;
- beidio â beirniadu yn gyhoeddus; a
- chrybwyll y pryder gyda'r Swyddog yn breifat.

16.4 Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r Swyddog yn briodol (e.e. oherwydd difrifoldeb y pryder) neu oni fu modd datrys y mater drwy drafodaeth, yna dylai'r Aelod grybwyll y mater gyda rheolwr y Swyddog neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

16.5 Pe bai Swyddog yn torri'r Protocol hwn mewn modd difrifol, fe allai hynny arwain at ymchwiliad o dan **weithdrefn ddisgyblu'r Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor.**

16.6 Rhaid i Swyddog sy'n credu y gall Aelod fod wedi gweithredu'n groes i'r Protocol hwn leisio ei bryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ac fe all ef / hi wedyn geisio cyngor gan y Swyddog Monitro fel y ffordd fwyaf priodol a chymesur o fynd i'r afael â'r pryder a leisiwyd.

DRAFT

PAPUR / ENCLOSURE
3

**1. Y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Wardiau Amlaelod**

**1.1 Egwyddorion**

- Mae'r holl aelodau wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli'r cyfan o'r ward amlaelod ac mae gan bob un ohonynt statws cyfartal yn y ward.
- Dylai Aelodau gytuno ymysg ei gilydd a ydynt yn dymuno gweithio gyda'i gilydd a sut y maent yn dymuno gwneud hynny.
- Nid rôl y Swyddogion yw dylanwadau ar a ddylai Aelodau weithio gyda'i gilydd a sut y dylent wneud hynny.
- Rôl y Swyddogion yw rheoli a chefnogi'r perthnasau hynny a'r wybodaeth a'r ffrydiau gwaith sy'n llifo ohonynt.

**1.2 Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch aelodau wardiau**

Rhaid darparu gwybodaeth ffeithiol ynghylch Aelodau wardiau i etholwyr a sefydliadau sydd eisiau cysylltu gydag Aelod lleol.

(a) Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu gyda'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth am Aelodau eu ward, rhoddir manylion cyswllt yr holl Aelodau yn nhrefn y wyddor ynghyd â'u cysylltiadau gwleidyddol.

(b) Os nad yw person wedi enwi Aelod penodol i ddelio gyda'u pryderon, dylai'r Swyddog sy'n ymwneud â'r mater ffonio neu anfon e-bost at yr etholwr i ofyn pa Aelod y maent yn dymuno iddo/iddi ddelio gyda'r ymholiad.

(c) Lle nad oes modd cael eglurhad ynghylch pa aelod y dylid cysylltu ag ef/hi, y dewis olaf pan fydd popeth arall wedi methu, yw anfon copi o'r ymholiad at holl Aelodau'r ward. Yn yr achos hwn, dylid dweud wrth yr aelod o'r cyhoedd y bydd pob Aelod ward yn cael copi o'r ymholiad a dylid rhoi gwybod i'r Aelodau.

**1.3 Gweithgareddau neu bolisïau'r Cyngor sy'n cael effaith ar y ward**

Mae rhannu gwybodaeth gydag Aelodau ynghylch gweithgareddau a pholisïau Cyngor sy'n cael effaith ar eu ward yn rhan allweddol o driniaeth gyfartal.

(a) Dylid rhoi gwybod i'r holl Aelodau mewn ward amlaelod am faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor ac sy'n cael effaith ar eu ward, a dylid sicrhau bod ganddynt fewnbwn i'r materion hynny.

(b) Pryd bynnag y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu gan y Cyngor neu aelod i ystyried mater sy'n lleol i ward, neu ragor nag un o wardiau mewn rhan o'r Cyngor, dylid gwahodd holl aelodau'r ward fel arfer i ddod i'r cyfarfod.

(c) Pryd bynnag y bydd y Cyngor yn cynnal ymarfer ymgynghori ar fater sy'n lleol i un neu ragor o wardiau, dylai'r Swyddogion priodol, fel arfer, hysbysu Aelodau y ward o'r ymgynghoriad a gofyn am eu sylwadau ar y mater.

(ch) Dylid rhoi gwybod i holl Aelodau ward amlaelod am ddyletswyddau swyddogol uwch gynghorwyr gan gynnwys yr Arweinydd, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau a Chadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor ynghyd ag ymweliadau swyddogol a drefnwyd i'r ward gan gynrychiolwyr etholedig eraill a phobl bwysig iawn. Cyfrifoldeb yr Uwch Gynghorwyr yw sicrhau fod Aelodau eraill

yn cael eu hysbysu o'u dyletswyddau swyddogol ac, mewn amgylchiadau arferol, dylid rhoi o leiaf 3 diwrnod o rybudd o ddyletswydd swyddogol.

(d) Yn achos ymweliad gan AS,AC,ASE, cynrychiolwyr Gweinidogol neu ymwelwyr pwysig eraill, y Swyddog sy'n gwneud y trefniadau ar gyfer yr ymweliad sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Aelodau Lleol.

**1.4 Swyddogion yn cyfathrebu a chyfarfod gyda thrigolion lleol.**

(a) Pan fo Swyddogion yn ysgrifennu at drigolion ynghylch materion o bwys cyffredinol mewn ardal, dylid anfon copïau at holl aelodau'r ward. Byddai enghreifftiau yn cynnwys mesurau arafu traffig, cylchoedd casglu gwastraff ac ati.

(b) Pan fo Swyddogion yn ysgrifennu at drigolion neu'n cyfarfod â hwy ynghylch materion sy'n cael effaith ar un aelwyd, ni roddir gwybod i'r aelodau lleol ac eithrio:

i. Pan fo Aelod wedi bod yn ymwneud â mater preifat sy'n cael effaith ar yr aelwyd honno, dylai'r Swyddog/Swyddogion perthnasol roi gwybod i'r Aelod am y datblygiadau hyd nes y bydd y mater wedi dod i ben, neu
ii. Pan fo Aelod wedi bod yn ymwneud â mater nad yw'n fater personol ac sy'n cael effaith ar fwy nag un aelwyd, dylai'r Swyddog/Swyddogion perthnasol roi gwybod i'r Aelod a'r holl Aelodau lleol eraill am unrhyw ddatblygiadau hyd nes y bydd y mater wedi ei ddatrys yn derfynol.

**1.5 Aelodau sy'n trefnu cyfarfodydd gyda Swyddogion y Cyngor**

Nid oes rhaid i Swyddogion wahodd aelodau eraill y ward yn otomatig i gyfarfodydd a drefnwyd gan Aelod unigol gyda'r Swyddog hwnnw, nac i roi gwybod iddynt am y fath cyfarfod, ac eithrio lle mae'r Aelod wedi gofyn fel arall.

**1.6 Ymgysylltiad Aelodau gyda grwpiau cynrychiolwyr lleol**

Gall hyn gynnwys, er enghraifft, cynghorau cymuned, grwpiau tenantiaid a thrigolion, fforymau lleol. Nid oes rheidrwydd ar Aelodau i fynychu'r cyfarfodydd hyn ac mae'n debygol y bydd ymwneud a chyfranogiad yr Aelodau yn amrywio. Mewn rhai wardiau, gall Aelodau ddewis rhannu'r baich gwaith hwn ar sail Plaid neu ar sail ddaearyddol. Bydd materion a fydd yn codi o'r cyfarfodydd hyn yn creu gwaith ar gyfer swyddogion a gallai beri dryswch/dyblygu os yw gwahanol aelodau yn mynd ar drywydd materion trwy wahanol sianelau sy'n wastraff o adnoddau'r Cyngor. Gwaethygir y dryswch os bydd y grŵp cynrychiolwyr lleol hefyd yn mynd ar drywydd yr un mater. Argymhellir felly y dylai Aelodau sy'n gweithio gyda grwpiau cynrychiolwyr lleol gydgysylltu, â'i gilydd, ar gyfer delio gyda materion o'r fath i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau'r Cyngor.

**1.7 Gohebiaeth gydag Aelodau**

(a) Os yw Aelod wedi ysgrifennu (neu wedi anfon e-bost) Swyddog yn gofyn am wybodaeth gan y Cyngor, bydd y Swyddog yn ymateb i'r Aelod cyn pen 15 diwrnod gwaith ac eithrio lle mae'r ymholiad yn arbennig o gymhleth, pryd y cydnabyddir yr



DRAFT

ohebiaeth cyn pen 5 niwrnod gwaith, yn esbonio pa Swyddog sy'n delio gyda'r ymholiad a pha bryd y darperir ateb llawn. Ni fydd y Swyddog yn datgelu gohebiaeth i Aelodau eraill yn y ward. Fodd bynnag, pan fo Aelod yn codi materion o bryder neu ddiddordeb cyffredinol i'r ward, bydd y Swyddog yn sicrhau bod yr Aelodau eraill yn y ward hefyd yn cael gwybod am unrhyw gamau a gymerir gan y Cyngor.

(b) Os bydd Aelodau yn gofyn am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg ar unrhyw bwnc, yna bydd Swyddogion yn trin y fath geisiadau yn gyfartal ac yn rhoi ateb tebyg i bob Aelod.

### 1.8 Diogelu data a chyfrinachedd

Dylai Aelodau a Swyddogion fod yn ymwybodol o faterion diogelu data. Ni ellir ond darparu data personol i Aelod pan fo'n mynd ar drywydd achos unigol ar ran etholwyr sydd wedi rhoi eu caniatâd ysgrifenedig iddo/iddi wneud hynny. Ni ellir darparu data personol o'r fath i Aelodau eraill o fewn y ward ac eithrio lle rhoddwyd caniatâd gan yr etholydd.

### 1.9 Perthnasau rhwng Aelod

Mewn achosion lle mae lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng Aelodau mewn ward amlaelod, efallai y byddant yn dymuno gwneud cytundebau sydd ddim yn rhai cyfrwymol i fanteisio ar eu diddordebau perthnasol a'u harbenigedd ac i osgoi dyblygu. Nid yw sefydlu cytundebau o'r fath yn fater i Swyddogion ond, os sefydlir cytundebau o'r fath, byddai'n fuddiol rhoi gwybod amdanynt yn ehangach i gynorthwyo gyda datblygu arferion da yn yr holl wardiau amlaelod.

DRAFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor:** Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** 4 Mawrth 2013 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol:** Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Deilydd Portffolio Perthnasol:** Cyng Kenneth P Hughes |

## Teitl yr Adroddiad – Cytundeb Compact Ynys Môn a Pholisi Gwirfoddoli

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

Cyflwyno'r Cytundeb Compact diwygiedig a'r Polisi Gwirfoddoli drafft i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini cyn eu cyflwyno am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Mawrth 2013.

**2.0 Cefndir**

**2.1 Cytundeb Compact Ynys Môn**

Cytundeb partneriaid rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol yn Ynys Môn yw Compact Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth y bydd yn cynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn.

Fe gyhoeddwyd y Compact gwreiddiol – rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Grwp Iechyd Lleol Ynys Môn a'r sector gwirfoddol yn Ynys Môn – yn 2007. Ar 22 Mawrth 2012, bu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytuno Compact ar gyfer gwasanaethau iechyd gyda'r sector gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Compact rhwng y Cyngor hwn a'r trydydd sector nawr wedi ei ddiweddaru, a hynny'n seiliedig ar arweiniad Llywodraeth Cymru, ac yn amgaeedig fel Atodiad 1. Mae'r Compact, sy'n rhoi sail ar gyfer datblygu rhaglen waith i'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol, wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor Cyswllt ac mae angen nawr iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cyngor.

Y bwriad yw i’r Compact a gymeradwyir gael ei adolygu’n flynyddol gan y Pwyllgor Cyswllt, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru ar Gompactau lleol.

Yn ychwanegol, bydd aelodau yn nodi bod Cod Ymarfer Ariannu (Sector Gwirfoddol) wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2007 fel sail i’r berthynas ariannol rhwng y Cyngor a’r sector gwirfoddol ar Ynys Môn. Fel rhan o’i raglen waith, bydd angen i’r Pwyllgor Cyswllt ystyried y Cod Ymarfer Ariannu yn ystod 2013/14.

**2.2 Polisi Gwirfoddoli**

Un o egwyddorion craidd Compact Ynys Môn yw ffurfioli Polisi Gwirfoddoli. Mae polisi ysgrifenedig yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i bwysigrwydd gwirfoddolwyr ac fe fydd yn cynorthwyo’r holl staff sy’n ymwneud â recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i lynu at arferion da a chefnogi gwirfoddolwyr mewn modd sydd wedi ei gynllunio a’i reoli.

Mae Polisi Gwirfoddoli drafft wedi ei baratoi ac yn amgaeedig fel Atodiad 2.

**3.0 Materion ar gyfer Sgriwtini**

Gofynnir i’r Pwyllgor sgriwtineiddio’r Cytundeb Compact diwygiedig a’r Polisi Gwirfoddoli drafft a chyflwyno ei sylwadau i Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

**Enw:** Huw Jones
**Teitl y Swydd:** Pennaeth Gwasanaeth - Polisi
**Adran:** Dirprwy Brif Weithredwr

*Dyddiad 25 Chwefror 2013.*

---

**Atodiadau –**
**Atodiad 1 – Cytundeb Compact diwygiedig**
**Atodiad 2 – Polisi Gwirfoddoli drafft**

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu’r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**
*Rhestrwch yma unrhyw benderfyniadau blaenorol perthnasol.
*Os nad oes dim, nodwch “Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol”.

**Papurau Cefndir**

Swyddog Cyswllt: Huw Jones, Pennaeth Gwasanaeth – Polisi
01248 752108

**Atodiad 1**

**COMPACT Ynys Môn**

**Cytundeb Partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Trydydd Sector yn Ynys Môn**

Rhagarweiniad

Gweledigaeth Cynllun Integredig Ynys Môn yw ynys yn gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd and darparu lle diogel a chynaliadwy i fyw yn seiliedig ar dair o brif themâu: pobl - cefnogi pobl a chymunedau i wella ansawdd eu bywydau; lle - diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig; swyddi - sicrhau cymaint â phosib o gyfleon gwaith gyda addysg a sgiliau o safon uchel.

Gellir cwrdd ag anghenion a gobeithio'n pobl os yw'r sectorau yn fodlon adeiladu partneriaethau cryf, iach a ffyniannus i wella gwasanaethau a gwireddu gweledigaeth y Cynllun Cymunedol.

Mae'r Compact hwn yn adeiladu ar y Compact gwreiddiol rhwng y sector gwirfoddol, Cyngor Sir Ynys Môn, y Grŵp Iechyd lleol a Medrwn Môn ar ran y Trydydd Sector ac a gyhoeddwyd yn 2006. Mae hefyd yn ategu'r cytundeb Compact rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r sector gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru.

Anogir yr holl bartneriaid i gefnogi egwyddorion ac arferion y Compact ac i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r codau ymarfer cysylltiedig.

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Compact Môn newydd fel ffordd o adeiladau ar y berthynas weithio gyfredol a gwella'r bartneriaeth er budd Ynys Môn.

DRAFFT - DIM STATWS

Llofnodwyd

Cadeirydd

Cadeirydd

Cadeirydd

**Atodiad 1**

**Beth yw Compact Ynys Môn?**

Cytundeb partneriaid yw'r Compact rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol yn Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth y bydd yn cynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn.

Mae'r Compact hwn yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu gyda Dinasyddion wrth ddylunio, darparu a gwella yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Bwriedir y bydd y Compact yn llywio'r broses o weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ymwneud â materion proses yn hytrach na sylwedd, hynny yw, y ffordd y mae cynlluniau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud yn hytrach na chynnwys y cynlluniau a'r penderfyniadau hynny.

Mae'n ymwneud â'r amrediad cyfan o waith partneriaeth; o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r gymuned, i gynrychiolaeth ar gyrff cynllunio a chymryd rhan mewn rhwydweithiau, cyllido, pwrcasu a contractio.

Cyflwynwyd Compact rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru am y tro cyntaf yn 1998. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi atgyfnerthu'r polisi hwn a sefydlu cynllun sector gwirfoddol a chyngor partneriaeth rhwng y Cynulliad a'r Sector Gwirfoddol. Yn 2007 cyhoeddwyd y Compact lleol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Grŵp Iechyd Lleol Ynys Môn a'r Sector Gwirfoddol yn Ynys Môn. Ar 22 Mawrth 2012, bu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gytuno Compact ar gyfer gwasanaethau iechyd gyda'r sector gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol wedi bod yn gyfrifol am weithredu'r Compact Awdurdod Lleol a Iechyd ar Ynys Môn.

Mae'r Compact diwygiedig hwn wedi ei gynhyrchu ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn ar ran ac mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau trydydd sector lleol. Mae'r Compact yn gyson â, ac yn ategu'r Compact a lofnodwyd gan Medrwn Môn gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r broses o ddatblygu'r Compact yn adeiladu ar adolygu perfformiad y Compact gwreiddiol ac ymgynghori gyda sefydliadau'r trydydd sector i ofyn am eu barn ynghylch cynnwys Compact diwygiedig. Bwriedir y bydd codau ymarfer drafft manylch yn dilyn a fydd yn rhoi sylw i feysydd fel cyllido a phwrcasu, gwirfoddoli, ymgynghori a datblygu polisïau (gweler Atodiad 1). I gynorthwyo gydag eglurder, mae diffiniad o sefydliad trydydd sector/gwirfoddol yn seiliedig ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2).

DRAFFT DIM STATWS

**Atodiad 1**

**Beth yw nod y Compact?**
Nod y Compact yw datblygu'r bartneriaeth rhwng y sector gyhoeddus a'r awdurdod lleol yn Ynys Môn trwy ein cynorthwyo i:
• gyfathrebu yn well gyda'n gilydd
• ddeall a pharchu barn y naill a'r llall
• weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi pobl Ynys Môn ac i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd.

Bwriedir gofyn i'r awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector (trwy Medrwn Môn) i gymeradwyo'r Compact yn ysgrifenedig.

**Beth yw gwerthoedd ac egwyddorion y Compact?**

Rydym yn rhannu nod o ddarparu gwasanaethau o safon i bobl Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod gwerth ychwanegol mewn cydweithio mewn partneriaeth tuag at amcanion ac nodau cyffredin. Bydd yr egwyddorion isod yn sail ar gyfer y Bartneriaeth hon;

Mae gweithredu gwirfoddol ac ymgysylltiad cymunedol yn rhan hanfodol o gymdeithas gynhwysol a ddemocrataidd a gall ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd yn Ynys Môn. Cydnabyddir bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ynys Môn. Dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth rhwng y trydydd sector a'r sector gyhoeddus. Wrth ddatblygu a chyflawni gwasanaethau, mae gan y sector gyhoeddus a'r trydydd sector swyddogaethau penodol ac sydd yn cyd-fynd gyda'i gilydd. Mae gan pob sector ei set ei hun o gyfrifoldebau a chyfyngiadau.

Dylid parchu annibyniaeth y trydydd sector gan gydnabod a gwerthfawrogi'r rôl strategol bwysig y mae'r sector gyhoeddus yn ei chwarae o ran datblygu polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â'r fframwaith cyfreithiol ac ariannol y mae'n gweithredu ynddo. I sicrhau bod y trydydd sector mor effeithiol â phosib mae'n rhaid buddsoddi yn ei isadeiledd. Dylai'r berthynas rhwng y sectorau fod yn agored ac yn barchus a dangos ymddiriedaeth. Dylai pob sector geisio rhagoriaeth, mynediad cyfartal a chofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy. Pa fyddent yn gweithio gyda'i gilydd dylai pob sector gael yr un sylw a pharch. Mae gan sefydliadau ym mhob sector yr hawl i gyfrannu at faterion sydd yn cael effaith arnynt a'i herio.

**Gyda'i gilydd bydd y Compact yn ………**

Cynorthwyo i feithrin trydydd sector ffyniannus, amrywiol ac annibynnol yn Ynys Môn gyda threfniadau cyllid a chontractio sydd yn:

- glir ac yn hawdd i'w deal;
- deg a chyson;
- Darparu amrediad o drefniadau cyllidol ar gyfer cyllid craidd, cyllid ar gyfer prosiectau a grantiau bychan;

DRAFFT - DIM STATWS

- Ysgwyddo baich gweinyddol sy'n gymesur a'r lefel gyllido;
- Caniatáu ac annog trefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio ymlaen a chyllido.
- Cynorthwyo i sicrhau bod y trydydd sector nid yn unig yn cymryd rhan mewn strwythurau cydweithio a phartneriaeth ond eu fod yn cael dylanwad gwirioneddol ar gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol a mentrau cyhoeddus.
- Datblygu'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel cyfrwng cyswllt sydd wedi ei integreiddio gyda phrosesau gwneud penderfyniadau'r sector cyhoeddus a'r maes cynllunio ar y cyd ehangach. Bydd gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o blith partneriaid yn y sectorau gyhoeddus a'r trydydd sector.
- Cynorthwyo i sicrhau cydnabyddiaeth ehangach a mwy cynaliadwy o werth gymdeithasol gwirfoddol o ran datblygiad proffesiynol a phersonol y gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.
- Hyrwyddo a llywodraethu'r awdurdod lleol a'r trydydd sector mewn modd effeithiol. Bydd yn sylfaen ar gyfer ymrwymiad ar y cyd i adeiladu ar gapasiti sefydliadau trydydd sector lle mae hynny yn gyson gyda chyfeiriad strategol a rennir. Bydd hefyd yn annog yr holl sectorau i ddysgu o'r arferion gorau ac i geisio gwneud gwelliannau parhaus i'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau.
- Darparu gweithdrefn ystyrlon ac effeithlon ar gyfer datrys anghytundebau mewn ffordd adeiladol ac agored. Bydd y cyfrifoldeb ar gyfer hyn yn gorwedd gyda chorff monitor a bydd y cynnwys cynrychiolwyr o'r partneriaid sydd yn rhan o'r Compact. Er yn nodi nad yw'r trydydd sector yn gorff unedol, rhagwelir y bydd yr holl gynrychiolwyr hefo'r Awdurdod priodol i ddilyn i fyny unrhyw achosion le ymddengys bod y Compact wedi ei dorri yn eu sector eu hunain. Yn achos partneriaid sector gyhoeddus, bydd ganddynt awdurdod i geisio datrys y fath faterion ar lefel uwch os oes angen.
- Datblygu Cynllun Gweithredu a renni'r i ddarparu amcanion y Compact a chynhyrchu droddiad gwaith blynyddol i'r sefydliadau sector gyhoeddus, byrddau/cyngor ac i'w dosbarthu i sefydliadau trydydd sector.

**Addewidion y Bartneriaid**

Bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro'r Compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt.
Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys:

- Sicrhau bod staff allweddol (e.e. swyddogion cyllid allanol, swyddogion pwrcasu a chomisiynu, swyddogion cynllunio partneriaeth) yn gallu cymryd rhan yn y gwaith hwn;
- Cymeradwyo'r angen i gael codau ymarfer manwl ar gyfer materion allweddol;
- Parodrwydd i adolygu eu gweithdrefnau a'u hamserlenni eu hunain yn wyneb y codau ymarfer hynny;
- Cymeradwyo'r angen ar gyfer gweithdrefnau i ddatrys anghytundebau; ac
- adolygu gweithrediad y Compact bob blwyddyn ynghyd a'r trydydd sector.

DRAFFT - DIM STATWS

**Atodiad 1**

Bydd y trydydd sector yn cefnogi datblygiad, gweithrediad a monitro'r compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys:

- sicrhau bod staff allweddol yn gallu cymryd rhan yn y gwaith hwn;
- Cymeradwyo'r angen i gael codau ymarfer manwl ar gyfer materion allweddol;
- Cymeradwyo'r angen ar gyfer gweithdrefnau i ddatrys anghytundebau; ac
- adolygu gweithrediad y Compact bob blwyddyn ynghyd a'r trydydd sector.

Mae'r trydydd sector yn gwneud ymrwymiad i gynnal safonau uchel o Lywodraethu ac ymddygiad ac i gwrdd â dyletswyddau adrodd ac atebolrwydd tuag at gyllidwyr a defnyddwyr. Bydd yn cynnwys defnyddwyr lle bynnag y mae modd gwneud hynny a hefyd yn cynnwys gofalwyr lle mae hynny yn briodol wrth ddatblygu a rheoli'r gweithgareddau a'r gwasanaethu . Anogir y sefydliadau yn y trydydd sector i ddatblygu safonau ansawdd sydd yn briodol i'r sefydliad gan gynnwys hyrwyddo arferion gorau a chyfleoedd cyfartal mewn gweithgareddau, gwaith, rôl gwirfoddolwyr a'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Mae'r trydydd sector yn gwneud ymrwymiad i barchu'r gyfraith ac yn bod yn atebol iddi. Yn achos elusennau byddent yn glynu wrth y fframwaith cyfrifo a chanllawiau priodol eraill fel y pennwyd nhw gan y Comisiwn Elusennau.

DRAFFT - DIM STATWS

**Atodiad 1 – Codau Ymarfer**

Bydd y codau ymarfer yn cynorthwyo i ymgorffori egwyddorion y Compact yn ein gwaith o ddydd i ddydd a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer y codau. Gwahoddir sefydliadau o'r ddau sector i fabwysiadu'r codau ymarfer ac fe'u hanogir i gymryd rhan yn eu datblygiad parhaus.

1 Egwyddorion y Cod – **Ymgynghori a Gwerthuso Polisi**

1.1 Yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu prosiectau ac adolygu polisïau. Dylid ystyried ymgynghori ar gychwyn prosiect neu adolygiad polisi sicrhau eu fod yn digwydd yn y cam priodol yn y cylch prosiect. Dylid adolygu yn barhaus y dulliau a ddewisir a llwyddiant y prosesau hyn drwy gydol oes y prosiect. Os oes angen bydd rhaid cymryd i ystyriaeth unrhyw weithdrefnau ymgynghori statudol.

1.2 Gweithredu gan ddefnyddio safonau a chytunwyd arnynt

Dylai ymgynghori rhwng partneriaid gwrdd â safonau y cytunwyd arnynt. Dylai rhai gynnwys amserlenni a ddiffynnwyd (o leiaf 12 wythnos os oes modd). Crynodebau ac adborth clir ynghylch canlyniadau phenderfyniadau a wnaed.

1.3Yn briodol i'r grwpiau targed

Dylid dylunio'r ymgynghoriad i sicrhau ei fod yn briodol i'r partneriaid yr ymgynghorir a nhw, o ran y dulliau a ddefnyddir ac arddull y cyflwyniad. Dylid ysgrifennu dogfennau ymgynghorir mewn iaith syml gan esbonio termau technegol. Dylai'r holl fethodoleg fod yn addas i'r pwrpas a'r grŵp targed yr ymgynghorir age ef. Os yw'n briodol, dylai'r adroddiadau gydymffurfio â pholisïau Iaith Gymraeg neu fod ar ffurfiau eraill sydd ar gael i'w cynulleidfa gan gynnwys y rheini gydag anawsterau iaith neu anableddau corfforol neu synhwyraidd. Rhaid rhoi sylw i ymgysylltu ystyrlon gyda grwpiau sydd wedi eu heithrio yn gymdeithasol.

1.4 Yn wirioneddol ac yn dryloyw

Dylai unrhyw ymarfer neu ddogfen ymgynghorol nodi yn benodol pa agweddau sydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer sylw a pha rai na ellir eu newid, fel bo modd i'r partneriaid ymateb yn briodol. Deallir na fedr partneriaid gael dylanwad ar wneud penderfyniadau mewn perthynas â phob agwedd ar waith ei gilydd. Lle nad yw hyn yn bosib, dylai partneriaid egluro bob amser bod dogfen neu ddigwyddiad er gwybodaeth yn unig yn hytrach nag i bwrpas ymgynghori.

1.5 Cyhoeddusrwydd a Mynediad

Dylai partneriaid sicrhau rhoddir cyhoeddusrwydd da i ymarferion gwybodaeth ac ymgynghori sydd yn berthnasol i waith y partneriaid eraill. Dylai ymgynghoriadau a dogfennau cysylltiedig fod ar gael yn rhwydd i grwpiau gyda gwahanol lefelau o adnoddau a ffurf sy'n caniatáu sefydliadau llai i ymateb.

1.6 Rhannu lle mae hynny yn briodol

Dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i rannu'r adnoddau sydd ar gael i gynnal ymgynghoriadau lle mae hynny yn briodol. Dylid edrych ar y posibilrwydd o ymgynghori ar y cyd bob amser i osgoi dyblygu.

1.7 "Y Safonau Aur mewn Ymgynghori"

Sefydlwch a yw rhywun arall wedi gwneud gwaith ymgynghori gan ganlyniadau y gallwch eu rhannu.

DRAFFT - DIM STATWS

Sicrhau y gall yr ymgynghori arwain at newid. Dylai fod yn ddeialog sydd yn arwain at benderfyniadau, felly ymgynghorwch CYN gwneud penderfyniadau.
Sicrhewch eich bod yn caniatáu digon o amser ar gyfer eich prosiect ymgynghori. Mae angen i chi ystyried neilltuo amser ar gyfer cynllunio, cynnal, casglu ac ymateb i'ch gweithgareddau.
Ceisiwch ddefnyddio'r dulliau ymgynghori sydd yn gwneud y defnydd gorau o'ch adnoddau ac sydd yn rhoi'r canlyniadau gorau o'ch grŵp targed.
Ceisiwch wneud yr ymgynghoriad mewn gynhwysol a phosib ond byddwch yn ymwybodol o berygl gor-ymgynghori gyda rhai grwpiau.
Rhowch adborth bob amser i rhieni sydd wedi cymryd rhan yn eich ymarferion ymgynghori.
Gweithredwch ar y canlyniadau. Peidiwch â gadael gwaith ymgynghori ar "y silff".
Rhannwch ganlyniadau eich gwaith gydag eraill.

2. Egwyddorion y Cod – **Cyllido, Pwrcasu a Chomisiynu**
2.1 Gwirioneddol a Thryloyw
Bydd rhaid bod yn agored ac yn dryloyw i'w gwneud yn haws i gael gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael. Bydd y partneriaid yn hyrwyddo mynediad teg i gyllido strategol, prosiectau a chontractau. Bydd penderfyniadau ynghylch pwrcasu neu gomisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar egwyddorion sydd yn ymwneud â bro, ansawdd a gwerth am arian ac ni fyddent byth yn seiliedig ar y gost yn unig,
2.2 Dull Corfforaethol
Bydd y sector gyhoeddus yn datblygu gweithdrefnau cyson a dull gweithredu ar y cyd i gefnogi'r trydydd sector. Byddant yn mabwysiadu agwedd gorfforaethol tuag at gyllideb sydd yn gyson ac yn amserol ac a fydd yn llyfnhau gweithdrefnau a gostwng dyblygu tra'n bod yn atebol am gyllid cyhoeddus.
2.3 Isadeiledd a Chynaliadwyedd
Mae'r sector gyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn isadeiledd sefydliadau trydydd sector. Mae'n cydnabod hefyd y bydd cyllid tymor hwy yn gwella cynaliadwyedd ac yn golygu y bydd modd cynllunio ymlaen. Bydd y sector gyhoeddus yn sicrhau y rhoddir sylw priodol i anghenion grwpiau cymunedol bychain trwy sicrhau mynediad i gefnogaeth nad yw'n gymorth ariannol, grantiau bychain a chefnogi rôl Medrwn Môn o ran cefnogi datblygiadau.
2.4 Adennill costau llawn
Mae'r sector gyhoeddus yn cydnabod egwyddor adennill costau llawn.
Cytunir ar egwyddor adennill costau llawn ac ar dull o weithredu 'r egwyddor honno'n ymarferol, hynny yw, sicrhau cyllid ar gyfer gorbenion cymesur yn ogystal â chostau uniongyrchol prosiectau. Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod angen i sefydliadau trydydd sector adennill costau sydd yn gysylltiedig ag adeiladau, adnoddau dynol, archwilio, marchnata a chynlluniau busnes.
2.5 Cymesuredd
Bydd agwedd gyson ac ar y cyd i fonitro a gwerthuso yr hyn sydd yn effeithiol ac yn gymesur i'r lefel o gyllid.

DRAFT - DIM STATWS

**Atodiad 1**

2.6 Canlyniadau peidio a chyllido
Rhoddir i sylw i effaith unrhyw benderfyniad i beidio a chyllido ar sefydliad trydydd sector, neu effaith unrhyw benderfyniad i dynnu arian yn ôl cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.
2.7 Penderfyniadau a Thaliadau Amserol
Bydd y sector gyhoeddus yn sicrhau y rhoddir rhybudd digonol ynghylch penderfyniadau cyllidol a bydd yn talu'r arian yn amserol yn amodol ar brosesau cyllidebol y sector gyhoeddus.

3. Egwyddorion y Cod – **Ymgysylltiad Cymunedol, Partneriaethau a Rhwydweithiau**
3.1 Sicrhau bod sefydliadau 3ydd sector, pan fyddent yn datblygu eu polisiau a'u gwasanaethau yn y Sir, yn gwneud hynny yn seiliedig ar wybodaeth, profiad ar arbenigedd eang.
3.2 Sicrhau yr ymgynghorir yn rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y sector gyhoeddus a'r trydydd sector ac y gwrandewir ar y farn honno a gweithredu arni.
3.3 Bydd Medrwn Môn yn ceisio sicrhau bod aelodau partneriaethau a rhwydweithiau yn gynrychiadol ac yn atebol yw 'hetholaeth'.
3.4 "Y Safonau Aur Mewn Ymgysylltiad Cymunedol"
Gwerthfawrogi sgiliau, a gwybodaeth ac ymrwymiad pobl leol.
Datblygu perthynas weithio gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol.
Cefnogi staff a phobl leol i weithio gyda'i gilydd a dysgu o'u gilydd (fel Cymuned gyfan).
Cynllunio ar gyfer newid gyda'r Gymuned a chymryd camau ar y cyd gyda'r Gymuned.
Gweithio gyda phobl yn y gymuned i ddatblygu a defnyddio fframweithiau ar gyfer gwerthuso.

4. Egwyddorion y Cod - **Gwirfoddoli**
Disgrifiwyd gwirfoddoli fel "an important expression of citizenship and essential to democracy. It is the commitment of time and energy for the benefit of society and the community and can take many forms. It is undertaken freely and by choice, without concern for financial gain."
4.1 Cefnogi Gwirfoddolwyr
Mae gwirfoddolwyr angen fframwaith cefnogol effeithiol gyda'r adnoddau priodol.
4.2 Cyfraniad Gwirfoddolwyr
Cydnabyddir bod gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad mawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Medrwn Môn. Dylid gwerthfawrogir cyfraniad hwn a hyrwyddo proffil ac ethos gwirfoddoli.
4.3 Rhwystrau i wirfoddoli
Dylid cydnabod y rhwystrau i wirfoddoli trwy ddatblygu capasiti sefydliadau gwirfoddol i ymateb i anghenion newidiol gwirfoddolwyr.
4.4 Buddsoddi Mewn Gwirfoddoli
Anogir arferion gorau ar gyfer rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr ac achredu gwirfoddoli.

DRAFFT - DIM STATWS

**Atodiad 1**

4.5 Ymgynghori a Chyfranogi
Anogir a chydnabyddir cyfraniad gwirfoddolwyr o ran cynorthwyo i ddatblygu polisïau cyhoeddus trwy gymryd rhan mewn prosesau ymgynghori ac ymgyrchoedd.

5. Egwyddorion y Cod - **Llywodraethu**
5.1 Glynu wrth gyfrifoldebau cyfrifoldebau cyfreithiol a chanllawiau arferion gorau. Bydd y 3ydd sector yn cynnal safonau uchel o lywodraethu ar ymddygiad ac yn cydymffurfio gyda'i dyletswyddau adrodd ac atebolrwydd.
5.2 Bydd Medrwn Môn yn cynhyrchu Cod Ymddygiad ar gyfer ymddiriedolwyr fel dogfen enghreifftiol ar gyfer sefydliadau trydydd sector i'w hystyried.
5.3 Bydd Medrwn Môn yn darparu hyfforddiant ar gyfer ymddiriedolwyr yn unol â safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer ymddiriedolaethau ar:

Egwyddorion llywodraethu
Rolau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
Rolau swyddogion mygedol
Strwythurau bwrdd a phwyllgorau
Recriwtio a datblygu ymddiriedolwyr
Gweithio gyda'r Prif Swyddog.

DRAFFT - DIM STATWS

**Atodiad 1**

**Atodiad 2 – Diffiniadau**
Trydydd Sector

Mae’r ddogfen yn defnyddio’r term “Y trydydd Sector”. Mae’n cydnabod na fydd pob sefydliad yn cytuno, ac mae gan sefydliadau unigol bob hawdd i ddisgrifio eu hunain mewn unrhyw ffordd y maent yn ei ddewis, elusen, gwirfoddol, sefydliad, grŵp cymunedol, grŵp hunangymorth, NGO, menter gymdeithasol, busnes cymunedol ac ati. Ond yr hyn sydd yn gyffredin i bob un o’r rhain yw:
Maent wedi eu sefydlu’n wirfoddol gan ddinasyddion sydd yn dewis neu trefnu;
Maent yn darparu rhyw fath o ffydd gymunedol neu cyhoeddus;
Mae eu gwargedau, lle y cynhyrchir y rhain, yn cael eu hail buddsoddi yn y sefydliad neu er lles cymunedol neu cyhoeddus ac nid ydynt yn cael eu dosbarthu er elw preifat. Mae’r nodweddion cyffredinol yn llawer cryfach nag unrhyw wahaniaethau all fod rhwng y gwahanol fathau o sefydliadau ac am y rheswm hwn mae’n fuddiol mabwysiadu term y mae’r holl sefydliadau’n dod o dano yn hytrach na rhannu’r nodweddion cyffredin hyn - mae trydydd sector yn scirhau hyn. Bydd mabwysiadau’r drefn “Trydydd Sector” gan sefydliadau statudol yn dal i olygu bydd yn rhaid iddo gynnal diffiniadau cyfredol mwy penodol i bwrpasau bod yn gymwys am gymorth grant neu fanteision eraill. Y diffiniad o “fudiad gwirfoddol”. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y “cynllun trydydd sector” yn rhestru’r meini prawf sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o fudiadau gwirfoddol fel:
Annibynnol - rhaid i fudiad fod yn gyfansoddiadol annibynnol a heb ei rheoli yn uniongyrchol gan fudiad - er elw neu’r wladwriaeth os bydd mudiad yn cael ei cydnabod fel un annibynnol o’r wlad lle ceir mwyafrif o gyrff anstatudol, rhai wedi eu penodi neu gynrychiolwyr ar ei “fwrdd ymddiriedolwyr” a mwyafrif o aelodau anstatudol.

Hunan Rheoli - rhaid i fudiad gael ei broses gwneud penderfyniadau mewnol ei hun dim yn dosbarthu elw ac yn bennaf yn ddi-fusnes - ni chaniateir i’r mudiad wneud unrhyw daliadau (ond am dreuliau rhesymol neu taliadau eraill a ganiateir gan y ddogfen lywodraethu e.e. ar gyfer gwasanaethau proffesiynol yn achlysurol neu am grantiau) i aelodau neu ymddiriedolwyr.
Gwirfoddoliaeth - rhaid i fudiad elwa oddi wrth radd ystyrlon o ddyngarwch e.e. (rhoddion mewn nwyddau neu amser, yn cynnwys gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr di-dâl e.e. y bydd unrhyw fudiad sydd ag o leiaf dri ymddiriedolwr sy’n rhoi eu hamser yn cael eu hystyried fel un sydd yn cael mantais i lefel ystyrlon).
Budd cyhoeddus - byddai disgwyl i fudiad gwirfoddol allu dangos bod ei amcanion a’i weithgareddau o fudd i’r cyhoedd yn ehangach ac/neu ei fod yn peri bod ei fanteision ar gael i grŵp o bobl mor eang â phosibl o fewn yr ardal a ddiffinnir gan ei amcanion ac/neu ei fod yn gweithredu mewn ffurf sydd yn agored ac yn gynhwysol yn hytrach nac yn elitaidd ac yn unigryw. Lle ceir ddogfen lywodraethu, fe ddylai gael cymal sydd yn sicrhau, petai ei ddiddymu, bod yr asedau sydd ar ôl yn cael ei dosbarthu i (a) fudiad(au) gwirfoddol tebyg. Mae’r meini prawf hyn yn cynnwys yn benodol:

DRAFT - DIM STATWS

**Atodiad 1**

Busnesau cymunedol – mudiadau sydd yn fusnesau real sy'n masnachu mewn rhyw ffordd, yn cael ei reoli gan y gymuned ac sydd hefyd o fudd uniongyrchol i'r gymuned;
symudiad tai gwirfoddol;
ymddiriedolaethau elusennol di aelodaeth;
grwpiau hunan gymorth/cyd-fuddiant'
mudiadau cymunedol a lleol, cymdeithasau cymunedol;
neuaddau pentref ac ati;
grwpiau amgylcheddol;
elusennau hyfforddi;
cyrff cyfryngol grwpiau nawdd i ferched;
mudiadau celfyddydol;
grwpiau amaethyddol gyd manteision cymdeithasol ehangach;
cymdeithasau elusennol diwydiannol;
grwpiau chwaraeon gyda manteision cymunedol/cymdeithasol;
sefydliadau crefyddol gyda manteision cymdeithasol.

Maent yn benodol yn gwahardd:

Partïon gwleidyddol;
Prifysgolion;
Sefydliadau addysg uwch;
Ysgolion elusennol annibynnol a rhai a gynhelir â grant;
Undebau llafur;
Clybiau chwaraeon a chymdeithasau nad ydynt er budd cyhoeddus;
cymdeithasau busnes ac asiantaethau menter leol;
rhan fwyaf o gymdeithasau proffesiynol;
ymddiriedolaethau GIG;
nifer o amgueddfeydd mawr;
quangos a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Llywodraeth (ASPB);
mudiadau crefyddol heb unrhyw fudd cymdeithasol ehangach.

Amcangyfrifir bod tu a 700 o grwpiau trydydd sector ym Môn o grwpiau hunan gymorth arbenigol bychain sydd yn cael eu rhedeg gan ddefnyddwyr i elusennau cenedlaethol. Gallant weithredu ar lefel cenedlaethol, sirol neu gymdogol, pob un yn tueddu i alinio eu hunain i feysydd o gonsyrn arbenigol a phenodol. Mae rhai mudiadau trydydd sector yn darparu gwasanaethau uniongyrchol (e.e. Grwpiau chwarae, tai anghenion arbennig), tra bo eraill yn darparu cyngor, gwybodaeth, cwnsela a chefnogaeth a bydd rhai hefyd yn darparu gwasanaethau eiriolaeth werthfawr. Maent yn bodoli oherwydd bod pobl yn gweld yr angen ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid, neu wasanaeth er budd i'r gymuned. Bydd gan pob un ohonynt gorff llywodraeth neu reoli o ryw fath. Cyfeirir at y grŵp hwn mewn amryw o ffyrdd e.e. pwyllgor rheoli neu bwyllgor gwaith, cyngor, bwrdd ymddiriedolwyr. Tra bod nifer o fudiadau trydydd sector yn rhai sydd yn hunan-ariannu ac heb unrhyw gyswllt rheolaidd gyda'r sector statudol, ac yn codi'r holl arian y meant eu hangen yn uniongyrchol gan y cyhoedd trwy ddigwyddiadau codi arian, rhoddion, ac apeliadau cyhoeddus. Mae eraill yn chwilio am gyllid a chefnogaeth gan gymysgedd o ffynonellau yn cynnwys y cyhoedd, sectorau preifat ac elusennol.

DRAFFT - DIM STATWS

# Polisi Gwirfoddoli

Draft

Atodiad 2

## 1. Sgop

Mae'r polisi yma'n ategu un o egwyddorion craidd y cytundeb Compact rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn mewn perthynas â gwirfoddoli.

Cytundeb partneriaid rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol ar Ynys Môn yw'r Compact. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth y bydd yn cynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn.

## 2. Datganiad Polisi

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall gwirfoddolwyr ei wneud i'r sefydliad. Daw gwirfoddolwyr ag amrywiaeth o brofiad, cefndiroedd, sgiliau, oed ac agweddau sy'n ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y polisi hwn yn:

- Gadael i wirfoddolwyr wybod sut y byddwn yn sicrhau tegwch a chysondeb
- Galluogi gwirfoddolwyr i wybod lle maent yn sefyll
- Cynnig sicrwydd o ran gwybod sut y byddant yn cael eu trin
- Helpu staff a gwirfoddolwyr ddeall swyddogaethau ei gilydd

Yn ychwanegol, mae'r polisi hwn yn gosod allan yr egwyddorion bras o ran gweithio gyda gwirfoddolwyr o fewn y Cyngor mewn modd sy'n deg ac yn gyfiawn. Ei nod yw sicrhau bod buddiannau gwirfoddoli yn cael eu huchafu ar gyfer gwirfoddolwyr a'r Cyngor. Mae'n berthnasol i bawb o fewn y Cyngor, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff ac aelodau etholedig.

Mae'r polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o'r cytundeb Compact ac fe fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel rhan o'i gylch gwaith i weithredu egwyddorion y cytundeb Compact.

## 3. Diffiniad

Mae gwirfoddoli'n fynegiant pwysig o Ddinasyddiaeth yn ogystal ag elfen bwysig o ddemocratiaeth. Pobl sydd, heb dal ac o'u gwirfodd, yn cyfrannu eu hamser, egni a'u sgiliau er budd y gymuned yw gwirfoddolwyr. Gall gwirfoddoli ddigwydd am gyfnod cyfyngedig (er enghraifft, i helpu cwblhau prosiect neu ddigwyddiad penodol), neu gall fod ar sail barhaus (er enghraifft, i helpu darparu gwasanaeth penodol o ddydd i ddydd).

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i drefnu ei wirfoddoli yn effeithlon ac mewn modd sensitif fel bod yr anrheg werthfawr o amser y gwirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio er budd pawb sy'n ymwneud â'r mater.

Rhoddir isod rai engreifftiau o'r gwahanol ffyrdd y mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y Cyngor:

- Llywodraethwyr Ysgolion
- Chwaraeon a chefnogi chwaraeon



Draft

- Cynlluniau cludiant
- Cynlluniau rheoli cefn gwlad
- Adfocatiaeth (gwasanaethau cymdeithasol)

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynnwys gwirfoddolwyr mewn sefyllfeydd addas ac mewn modd sy'n annog, cefnogi a datblygu gwirfoddoli.

## 4. Pam cael Polisi?

Mae polisi ysgrifenedig yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i bwysigrwydd gwirfoddolwyr ac yn sicrhau y bydd yr amcanion canlynol yn cael eu cwrdd:

- Gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addas trwy weithdrefn dewis addas sy'n cynnwys tystlythyrau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), petai angen.
- Gwirfoddolwyr yn cael eu croesawu, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn anwythiad perthnasol gan y gwasanaeth dan sylw
- Cyfraniadau gwirfoddolwyr yn cael eu huchafu trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth addas
- Mwy o bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan fel gwirfoddolwyr
- Mwy o wirfoddolwyr yn parhau i gymryd rhan

Bydd y polisi hwn yn cynorthwyo'r holl staff sy'n ymwneud â recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i lynu at arferion da a chefnogi gwirfoddolwyr mewn modd sydd wedi ei gynllunio a'i reoli.

## 5. Beth yw buddiannau cael gwirfoddolwyr

- Mae modd defnyddio a datblygu profiadau a sgiliau i gael effaith gadarnhaol ar ystod o wasanaethau a phrosiectau
- Mae gwirfoddolwyr yn gallu bod yn hyblyg ac yn arloesol
- Mae gwirfoddolwyr yn gwella'r synnwyr o gymuned a helpu i adeiladu cymdeithas gynhwysol
- Mae'r gymuned a'r amgylchedd yn cael budd o gyfraniadau gwirfoddolwyr

## 6. Egwyddorion

### 6.1 Recriwtio a Dethol

Mae'r Cyngor yn anelu at recriwtio gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gymuned gydag ystod eang o sgiliau, profiadau bywyd a gwybodaeth.

Bydd recriwtio gwirfoddolwyr fel arfer yn digwydd trwy bostio hysbysebion a thaflenni, taflenni newyddion ac ar y safle we corfforaethol.  Gallai ddigwydd hefyd trwy gysylltu'n anffurfiol gyda'r gymuned o ddefnyddwyr sy'n bodoli eisoes.

Bydd yr holl ddarpar wirfoddolwyr yn cael eu cyfweld er mwyn trafod eu sgiliau, rolau a disgwyliadau. Bydd y drefn ar gyfer dethol yn dilyn yn fras y prosesau yr ymlinellir ym Mholisi Recriwtio a Dethol yr Awdurdod (lle mae hynny'n briodol), ac fe fydd yn cynnwys tystlythyrau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), os yn berthnasol.

### 6.2 Statws Gwirfoddolwyr

Nid yw gwirfoddolwyr yn gyflogeion nag yn weithwyr ac ni fydd ganddynt gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor. Ni fydd tâl am unrhyw waith gwirfoddoli. Bydd y Cyngor yn cytuno rôl gyda'r gwirfoddolwr, bydd disgwyliad bod y gwirfoddolwr yn cwrdd ag anghenion y rôl ac fe fydd y Cyngor yn darparu gwaith i'r gwirfoddolwyr lle mae yna waith ar gael. Fodd bynnag, mae'r gwirfoddolwr yn rhydd i wrthod cyflenwi'r rôl ac nid yw'r Cyngor wedi'i ymrwymo i ddarparu'r gwaith.

Noder: Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i ofalwyr maeth.

### 6.3 Rolau Gwirfoddoli

Cyfrifoldeb y rheolwr sy'n gweithio gyda'r gwirfoddolwr fydd llunio amlinelliad o rôl y gwirfoddolwr. Bydd hyn yn gosod allan dyletswyddau'r rôl a'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol, ynghyd ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen cyn y bydd y gwaith gwirfoddol yn cael ei wneud. Fe ddylai gwaith gwirfoddol ategu gwaith staff cyflogedig ac ychwanegu gwerth er budd defnyddwyr y gwasanaeth. Nid yw gwirfoddolwyr yna i gymryd lle gweithwyr cyflogedig, felly mae angen cymryd gofal i sicrhau nad oes galwadau gormodol ar wirfoddolwyr, ac nad ydynt yn gwneud gwaith a ddylai gael ei wneud gan staff cyflogedig.

### 6.4 Goruchwyliaeth a Chefnogaeth

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac effeithiolrwydd ei wirfoddolwyr. Fe gyflawnir hyn trwy ddarparu:

- Hyfforddiant a datblygiad addas
- Gwaith ystyrlon o fewn blaenoriaethau'r gwasanaeth
- Goruchwyliaeth effeithiol
- Cydnabyddiaeth am y gwaith a gwblhawyd
- Targedau a blaenoriaethau eglur a safonau addas o ran y gwaith sydd i'w wneud

Bydd hawl gan wirfoddolwyr gael tystlythyr gan y Cyngor. Mae hyn yn amodol ar i'r gwirfoddolwr gwblhau o leiaf 30 awr o waith gwirfoddol sydd o safon foddhaol wrth weithio'n uniongyrchol ar ran y Cyngor.

### 6.5 Cyfrinachedd

Bydd angen i wirfoddolwyr arwyddo cytundeb cyfrinachedd lle mae hynny'n briodol.

### 6.6 Gweithdrefn Gwyno

Dylai gwirfoddolwyr drafod unrhyw bryderon neu broblemau gyda'u goruchwylwyr uniongyrchol.

### 6.7 Treuliau

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cynnig ad-daliad treuliau teithio rhesymol o'u cartref i'w lleoliad gwaith lle mae hynny'n briodol. Gosodwyd lwfans milltiredd i'r rhai hynny sy'n defnyddio eu cludiant eu hunain, sef 18 ceiniog y filltir. Rhaid cytuno'r holl dreuliau ymlaen llaw gyda goruchwyliwr uniongyrchol y gwirfoddolwr.

### 6.8 Rhybudd

Dylai'r Cyngor neu'r gwirfoddolwr ymdrechu i roi cymaint o rybudd a phosibl o'u bwriad i ddod a'r cytundeb gwirfoddoli i ben.

## 7. Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a phrotocolau'r Cyngor

Mae nifer o faterion penodol yn berthnasol i'r polisi gwirfoddoli yma:

### 7.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydraddoldeb ac amrywiaeth, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon ym mhob un o'n bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae'r Cyngor yn trin pawb gyda pharch, consyrn ac yn ystyriol ac yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a roddir i Ynys Môn gan bob unigolyn. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr dderbyn a gweithio'n unol â'r egwyddorion hyn.

### 7.2 Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r egwyddor yma.

### 7.3 Iechyd a Diogelwch

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr. Rhaid trin gwirfoddolwyr yn yr un modd a staff cyflogedig o ran iechyd a diogelwch. Dylai gwirfoddolwyr ddilyn bob amser bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor. Rhaid i berson cymwys gynnal asesiad risg o'r mannau a'r rolau gwaith penodol ac fe ddylid rhoi copi i'r gwirfoddolwr. Mae gan y gwirfoddolwyr ddyletswydd i gymryd gofal o'u hunain ac eraill a all cael eu heffeithio gan eu gweithrediadau. Ni ddylai gwirfoddolwyr weithredu y tu allan i'w man na'u dyletswyddau gwaith awdurdodedig. Rhaid i wirfoddolwyr roi gwybod i'w goruchwyliwr uniongyrchol am bob damwain neu unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn agos i fod yn ddamwain.

### 7.4 Polisïau Diogelu

Mae angen i wirfoddolwyr gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor mewn perthynas â phobl bregus lle mae hynny'n briodol.

## 7.5 Yswiriant

### *7.5.1 Cyffredinol*

Bydd gwirfoddolwyr yn cael indemniad yn erbyn hawliadau trydydd parti o dan Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor wrth gwblhau eu dyletswyddau.

### *7.5.2 Gyrwyr*

Bydd rhaid i unrhyw berson sy'n gweithredu fel gwirfoddolwr ar ran y Cyngor ac angen defnyddio cerbyd i wneud hynny (preifat neu gerbyd y Cyngor) gydymffurfio gyda Pholisi Fflyd a Gyrwyr y Cyngor.

## 7.6 Gwiriadau Criminal Records Bureau (CRB) Check

Lle mae'r weithred gwirfoddoli yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o dan 18 oed neu oedolion bregus, rhoddir gwybod i'r gwirfoddolwr bod rhaid gwneud cais am Ddatgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rhoddir arweiniad gan yr adran berthnasol yn y Cyngor.

Draft

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor:** Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** 4 Mawrth 2013 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol:** Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Deilydd Portffolio Perthnasol:** Cyng Kenneth P Hughes |

## Teitl yr Adroddiad - Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2011/12

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

Cyflwyno'r adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Mawrth 2013.

**2.0 Cefndir**

Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus bod pob awdurdod cyhoeddus a restrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb erbyn 31 Mawrth yn flynyddol. Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ers cyflwyno'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol newydd.

Prif bwrpas y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu awdurdodau roi gwell sylw dyledus i'r angen i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol, sef:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Felly, fel dyletswydd benodol ei hun, rôl yr adroddiad blynyddol yw cefnogi awdurdodau i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol.  Mae ganddo rôl hefyd o ran gosod allan beth sydd wedi'i gyflawni a chynnydd tuag at gwrdd â dyletswyddau penodol eraill.

## 3.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

Rhaid i'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gydraddoldeb osod allan yn benodol:

- Y camau y mae awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- Unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- Datganiad am effeithiolrwydd trefniadau awdurdod i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- Gwybodaeth benodol am gyflogaeth, yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (oni bai ei fod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rhywle arall)

Gall awdurdod gynnwys unrhyw fater arall y teimla sy'n berthnasol i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol yn ei adroddiadau blynyddol.

O gyfnod adrodd 2012/13 ymlaen, bydd angen i'r adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hefyd gynnwys:

- Cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb[1] yr awdurdod
- Datganiad am effeithiolrwydd y camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb

Mae'r adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb sydd ynghlwm yn ymwneud â 2011/12 ac mae amlinelliad o gynnydd hyd at fis Rhagfyr 2012 wedi'i gynnwys hefyd er mwyn rhoi darlun mwy diweddar.

**Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r adroddiad blynyddol drafft ar gydraddoldeb a chyflwyno ei sylwadau i Bwyllgor Gwaith y Cyngor.**

**Enw:** Carol Wyn Owen
**Teitl y Swydd:** Rheolwr Polisi a Strategaeth,
**Adran:** Dirprwy Brif Weithredwr (Uned Bolisi)

*Dyddiad 25 Chwefror 2013.*

---

[1] Roedd yn ofynnol bod pob Cyngor yng Nghymru yn cyhoeddi amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012

**Atodiadau –** Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydraddoldeb 2011/12

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**
*Rhestrwch yma unrhyw benderfyniadau blaenorol perthnasol.
*Os nad oes dim, nodwch "Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol".

**Papurau Cefndir**

Adroddiadau Blynyddol – nodyn atodol (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Tachwedd 2012)

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Templed / Canllaw Adroddiadau Blynyddol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tachwedd 2012)

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016 y Cyngor a dogfennau cysylltiedig – www.ynysmon.gov.uk/cynlluncydraddoldeb

Swyddog Cyswllt: Carol Wyn Owen (01248) 752561.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffyrdd iach o fyw yn cynyddu | | | |
| Parhau i ddarparu gweithgareddau i grwpiau a dargedir ac, mewn rhai meysydd, cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan | Gwasanaethau Hamdden<br><br>Rhaglen waith cyfredol | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | **Chwaraeon Anabledd Cymru** – Mae staff ein Huned Datblygu Chwaraeon (UDCh) wedi cwblhau hyfforddiant ar Gynhwysedd Anableddau. O ganlyniad mae'r UDCh wedi creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl ac mae'n cychwyn darparu rhaglenni a sesiynau mwy cynhwysol. Cerdded, athletau, nofio a gweithgareddau awyr agored yw'r prif feysydd. Mae rhaglen gynhwysol hefyd yn cael ei datblygu ar gyfer beicio.<br><br>**Cynlluniau 5 x 60** – Fe welwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o enethod sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hyn, gyda 74% yn mynychu sesiynau yn ystod 2011/12. Y prif reswm dros y cynnydd hwn yw bod yna o leiaf un Llysgennad Ifanc ym mhob ysgol sy'n hyrwyddo clybiau 'genethod yn unig'.<br><br>**Camu Allan** – mae 41 o deithiau cerdded rhaglenedig wedi cymryd lle yn ystod 6 mis cyntaf 2012/13, gyda 68 wedi cofrestru o'r newydd ar y cynllun. Bydd gwaith yn parhau dros ail hanner y flwyddyn i sicrhau cynaladwyedd tymor hir i deithiau cerdded diogel wedi'u trefnu, gan gynnwys sefydlu o'r newydd Bwyllgor Llywio Cerdded ar Ynys Môn, sy'n darparu ar gyfer pob sector. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Rhoi ar waith y gweithrediadau perthnasol o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer 'Creu Gwynedd a Môn Egnïol' | Gwasanaethau Hamdden<br><br>2011-2014 | I'w hadnabod fel rhan o'r cynllun gweithredu | Fel yr amlinellir uchod, mae amrediad o weithgareddau'n parhau i gael eu darparu ar gyfer y grwpiau a dargedir – pobl ifanc, pobl hyn, unigolion sy'n anabl – a gwaith rhyng-genedlaethol. |
| Maes Gweithredu: Gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei wella i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch | | | |
| Parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion<br><br>2011-2014 | Oed | Yn ystod 2011/12, roedd perfformiad o ran yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, am resymau gofal cymdeithasol, yn dal i fod yn ardderchog ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru[1].<br><br>(Dangosydd Strategol Cenedlaethol SCA/001 – Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd = 1.06)<br><br>Ar 3 Medi 2012, cytunodd Bwrdd Comisiynwyr Ynys Môn nifer o gynigion gyda'r nod o drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl ac ymgynghori ar ddyfodol 6 chartref preswyl yr Awdurdod. Bydd y broses o asesu effaith yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau. Nododd yr adroddiad asesu effaith ar y cam cyn-ymgynghori y "bydd y tîm prosiect yn sicrhau y glynir wrth yr egwyddorion sydd yn y Siartr Urddas mewn Gofal. Mae'r rhain yn adlewyrchu egwyddorion y Ddeddfwriaeth Hawliau Dynol". |

[1] Ffynhonnell: Cynllun Gwella (Adolygiad Perfformiad) 2011/12 Cyngor Sir Ynys Môn (tudalen 44)

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Anghenion pobl gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn cael eu deall yn well | | | |
| Parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Anableddau Dysgu'r Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>2012-2015 | Anabledd | Mae Strategaeth Gomisiynu drafft y Cyngor o ran Anableddau Dysgu'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad ehangach o raglenni gwaith Gwasanaethau Oedolion.<br><br>O ran anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl, bydd rhaglenni gwaith lleol a rhanbarthol yn cael eu datblygu, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau lefel uchel a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru". |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng | | | |
| Cynnal perfformiad disgyblion sydd ag anableddau corfforol a synhwyrol ar ddiwedd pob un o'r Cyfnodau Allweddol fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol | Addysg<br><br>Parhaus | Anabledd | Parhawyd i roi cefnogaeth addas i'r disgyblion fel nad oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y garfan hon o ddisgyblion gydag anableddau i'w gymharu a'u cyfoedion ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol. |
| Sicrhau na fydd unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol yn 16+ oed ar gyfer disgyblion lle mae Saesneg yn iaith arall (EAL) iddynt ac sydd wedi bod yn ysgolion yr awdurdod am fwy na thair blynedd | Addysg<br><br>Parhaus | Hil | Nid oedd bwlch sylweddol rhwng cyrhaeddiadau addysgol disgyblion lle mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn 16+ a chanlyniadau eu cyfoedion yn 2012. |
| Haneru'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, lle mae'n fwy na 10% | Addysg<br><br>Parhaus | Rhyw | Roedd dangosydd pwnc craidd CA3 Ynys Môn yn dangos gwahaniaeth o -4.73 rhwng bechgyn a merched yn 2011-12. Roedd hyn i'w gymharu â -5.28 yn 2010-11 a -12.34 yn 2009-10. Y ffigwr ar gyfer Cymru yn 2011-12 oedd -11.02. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| | | | |
| Maes Gweithredu: Bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn gostwng mewn ysgolion | | | |
| Darparu hyfforddiant i ysgolion mewn ymateb i ganllawiau gwrth-fwlio newydd Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill' (Hydref 2011). | Addysg<br><br>Ebrill 2012 | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil<br>Crefydd a Chred<br>Cyfeiriadedd Rhywiol<br>Newid Rhyw | Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i Benaethiaid ysgolion cynradd ar 3 Gorffennaf 2012 fel rhan o sesiwn ehangach ar faterion cydraddoldeb (gweler y weithred nesaf). Roedd y sesiwn ar fwlio yn cynnwys trafodaethau o ran sut y dylid ymdrin â gwahanol senarios. |
| Maes Gweithredu **Lleol:** Darparu hyfforddiant i ysgolion ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth | | | |
| Darparu hyfforddiant i ysgolion i godi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Addysg<br><br>Codi ymwybyddiaeth – Mawrth 2012.<br><br>Hyfforddiant – Ebrill 2012 | Pob Grŵp | Rhoddwyd cyflwyniad i Benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod Mawrth 2012 er mwyn codi ymwybyddiaeth am ofynion y Ddeddf newydd.<br><br>Wedi hynny fe ddarparwyd crynodeb o'r gofynion i Benaethiaid ysgol, ynghyd â thempled awgrymedig. Fe ddilynwyd hyn i fyny gyda'r sesiwn hyfforddi ar 3 Gorffennaf 2012. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u datrys | | | |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg staff am yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg | Adnoddau Dynol<br><br>Parhaus. | Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | Mae Polisi'r Cyngor ar Weithio'n Hyblyg ar gael i staff ei ddarllen ar y fewnrwyd - MonITor. (Er mwyn gwella cyfathrebu mewnol a chodi ymwybyddiaeth am ein polisïau a'n mentrau newydd, mae MonITor nawr yn cael ei lwytho'n awtomatig pob tro y mae defnyddwyr yn logio i mewn i'w cyfrifiaduron).<br><br>Mae'r awdurdod yn edrych ar gynllun defnyddio gofod er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Bydd hyn felly'n golygu y bydd mwy o wahanol fathau o weithio hyblyg ar gael i staff, ee gweithio gartref.<br><br>Mae'r awdurdod ar hyn o bryd yn negydu cynllun gweithio hyblyg newydd a fydd yn cael gwared ar oriau craidd ac felly'n rhoi mwy o hyblygrwydd i weithwyr o ran eu horiau gwaith. |
| Edrych ar ddatblygu strategaethau pellach er mwyn cynorthwyo staff i weithio'n hyblyg | Adnoddau Dynol<br><br>Rhaglen waith cyfredol | Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | |
| Maes Gweithredu: Unrhyw fylchau mewn cyflogau rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi ac ymdrin â nhw | | | |
| Datblygu system a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ganfod unrhyw fylchau cyflog ar sail rhyw. | Adnoddau Dynol<br>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws | Rhyw | Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws sengl.<br><br>Yr amserlen gyfredol ar gyfer cwblhau yw Ebrill 2014. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

## Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith**

| Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud | Pwy / Erbyn pryd | Grŵp perthnasol | Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012) |
|---|---|---|---|
| | sengl. | | |
| Cynnwys pob un o'r nodweddion a warchodir. | Adnoddau Dynol<br><br>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws sengl. | Pob grŵp | Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws sengl.<br><br>Bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau'n gysylltiedig â chwblhau'r maes gweithredu uchod. |
| Dadansoddi data am y gweithlu flwyddyn ar flwyddyn a chynhyrchu adroddiad blynyddol o'r wybodaeth a ddadansoddir. | Adnoddau Dynol<br><br>31 Mawrth 2013 ac erbyn 31 Mawrth yn flynyddol wedi hynny | Pob Grŵp | Mae system AD newydd, hunanwasanaeth, nawr yn weithredol. Mae'r system ddiogel yma'n galluogi staff i wirio a diweddaru eu cofnodion eu hunain.<br><br>Anfonwyd papur "Cwestiynau a ofynnir yn Aml" i'r holl staff trwy e-bost yn ystod Tachwedd 2012 ar "Y Ddolen". Nod y neges yma oedd egluro pam mae angen i'r awdurdod gasglu data monitro cydraddoldeb ac annog gweithwyr i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.<br><br>Er bod yr Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol i sicrhau bod y nodweddion adrodd cywir yn eu lle, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd ar gasglu'r data er mwyn sicrhau bod y wybodaeth mor gywir â phosibl. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Pedwar: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom hyd yn hyn** |
| Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb | | | |
| Datblygu trefniadau hygyrch fel bod tenantiaid yn gallu adrodd unrhyw wahaniaethu neu sylwadau ac ymddygiad amhriodol mewn digwyddiadau cyfranogi. | Tai<br><br>31 Mawrth 2013 | Pob grŵp | Mae pob digwyddiad cyfranogi nawr yn cael eu cynllunio, eu cofnodi a'u harfarnu. Rhoddir cyfle i gyfranogwyr roi adborth ymhob digwyddiad cyfranogi. |
| Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd camdriniaeth ddomestig yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng camdriniaeth ddomestig | | | |
| Parhau i weithio tuag at godi ymwybyddiaeth a diwreiddio trais yn y cartref trwy waith Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn. | Tai (Diogelwch Cymunedol)<br><br>Yn unol â chynllun gweithredu'r fforwm. | Rhyw | Cwblhawyd adolygiad blynyddol o Gynllun Busnes a Gweithredu Trais yn y Cartref gan Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn yn unol â safonau sylfaenol Llywodraeth Cymru[2].<br><br>Fe gafodd cynrychioliadau Cymorth i Ferched eu cymryd i ystyriaeth wrth gynnal yr adolygiad. |

[2] Ffynhonnell:Cynllun Gwella (Adolygiad Perfformiad) 2011/12 Cyngor Sir Ynys Môn (tudalen 43)

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu | | | |
| Parhau i weithredu, adolygu a datblygu ein Strategaeth Adnewyddu Democrataidd ymhellach | Polisi<br><br>Cam Un – 3 Mai 2013 (etholiad Cyngor Sir) | Pob grŵp | Fe gychwynnodd yr Awdurdod y gwaith o hyrwyddo etholiadau lleol 2013 yn Sioe Môn 2012.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad i gynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned yr ynys ar 18 Hydref 2012.<br><br>Fe ymddangosodd erthygl un dudalen yn rhifyn Gaeaf 2012/13 o'n papur cymunedol – Newyddion Môn – i egluro sut i ddod yn gynghorydd ar Ynys Môn. Cylchredwyd hwn i bob cartref ym mis Tachwedd 2012. |
| Maes Gweithredu: Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a warchodir | | | |
| Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i asesu ymarferoldeb strwythurau rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori | Polisi<br><br>31 Mawrth 2013 | Pob grŵp | Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi adnabod rhai gweithrediadau ar y cyd i'n cynorthwyo i gyflawni'r amcan rhanbarthol uchod.<br><br>Mae'r Rhwydwaith wedi cytuno i adeiladu ar lwyddiant ei ddigwyddiad ymgysylltu cyntaf a gynhaliwyd ym mis Medi 2011 trwy gynnal digwyddiad arall yn ystod 2013 - mae is-grŵp wedi'i sefydlu i gytuno fformat, lleoliad ayyb. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl** | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Gweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod ac ymgysylltu gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn y boblogaeth leol a gweithio tuag at lenwi'r bylchau a nodwyd mewn data lleol | Polisi<br><br>31 Mawrth 2013 | Hil;<br>Sipsiwn a Theithwyr;<br>Crefydd a Chred;<br>Newid Rhyw;<br>Cyfeiriadedd Rhywiol | Mae'r Cyngor wedi datblygu bas-ddata o randdeilwyr sy'n cynnwys nifer o grwpiau cydraddoldeb. |
| Gweithio gyda'n partneriaid lleol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau o fewn fforymau cyfredol er mwyn mynd â materion cydraddoldeb yn eu blaen. | Polisi<br><br>31 Mawrth 2013 | Pob grŵp | |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella | | | |
| Codi ymwybyddiaeth am Lawlyfr Delwedd Corfforaethol y Cyngor a chynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran cynhyrchu dogfennau mewn fformatau eraill | Polisi<br><br>31 Mawrth 2013 | Anabledd | Fe roddwyd gwybodaeth am y Llawlyfr Delwedd Corfforaethol yn newyddlen staff y Cyngor 'Medra Môn' (Rhifyn 40 – Mawrth 2012).<br><br>Mae Rhwydwaith Gogledd Cymru wedi penderfynu cynhyrchu Canllawiau Arferion Da ar amryw o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys gwybodaeth a fformatau hygyrch a digwyddiadau hygyrch erbyn Ebrill 2013. |
| Cynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran darparu argaeledd gwasanaethau cyfieithu i siaradwyr ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg | Polisi<br><br>31 Mawrth 2013. | Hil | |
| Gweithredu'r system ddemocrataidd ModernGov | TGCh<br><br>Yr holl swyddogion perthnasol i dderbyn hyfforddiant ar y system newydd erbyn 31 Mawrth 2013. | Anabledd | Mae'r Cyngor ar amser gyda'i amserlen ar gyfer cyhoeddi ei raglenni a chofnodion trwy system Modern.Gov cyn y Nadolig. Disgwylir y bydd swyddogion perthnasol yn derbyn hyfforddiant ar y system newydd yn ystod mis Ionawr 2013. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Datblygu proffil amrywiaeth o denantiaid y Cyngor er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion unigol | Tai<br><br>31 Mawrth 2013 | Pob grŵp | Mae ymarferiad proffilio tenantiaid yn mynd rhagddi ac mae hyn hefyd yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth am y flwyddyn nesaf. Bydd proffilio cywir yn ein galluogi i dargedu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon. |
| Maes Gweithredu: Mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella | | | |
| Parhau i wella aros fannau bysus ar yr Ynys i'w gwneud yn hygyrch. | Priffyrdd<br><br>Parhaus - Bydd cynnydd gyda datblygu ein arosfannau bysus yn dibynnu ar gyllid. | Anabledd | Erbyn diwedd 2011/12, roedd cyrbiau esgyn hawdd yn eu lle mewn 178 o aros fannau bysus ar yr ynys – pedwar yn fwy na'r nifer a ragwelwyd ar adeg ysgrifennu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS).<br><br>Ers Ebrill 2012, mae gwelliannau wedi'i gwneud i un aros fan bysus, gyda thri arall wedi'u rhaglennu cyn diwedd 2012/13. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Saith: **Gwella Gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb | | | |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Cyngor am y modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb | Adnoddau Dynol<br><br>Parhaus. | Pob grŵp. | Yn anffodus, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio ag adnewyddu ei fodiwlau e-ddysgu gan, yn dilyn gwaith hyrwyddo rheolaidd, y teimlad oedd nad oedd digon o staff yn defnyddio'r adnoddau oedd ar gael.<br><br>Mae AD yn gweithio'n agos gyda'r pum Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru er mwyn sefydlu grŵp tasg a gorffen i weithio ar hyn gyda golwg ar sefydlu rhywbeth i fynd a'r rhaglen hyfforddi yn ei blaen. |
| Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff a lle mae gwasanaethau wedi adnabod anghenion penodol, megis cynnig hyfforddiant penodol i staff rheng flaen. | Adnoddau Dynol<br><br>Parhaus. | Pob grŵp. | Mae Adnoddau Dynol yn hysbysebu'n rheolaidd hyfforddiant ar gydraddoldeb sy'n agored i'r holl staff.<br><br>Mae Adnoddau Dynol hefyd yn gweithio'n agos gydag adrannau i sicrhau bod eu hanghenion hyfforddiant cydraddoldeb yn cael eu diwallu. |

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb**
**Adroddiad Cynnydd**

| Amcan Saith: **Gwella Gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth ddywedom yr oeddem am ei wneud** | **Pwy / Erbyn pryd** | **Grŵp perthnasol** | **Beth y gwnaethom (hyd at Ragfyr 2012)** |
| Maes Gweithredu: Proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu i sicrhau bod asesu effaith yn parhau ar draws gwasanaethau | | | |
| Parhau i ddatblygu a gwella ein proses gorfforaethol wrth sicrhau y defnyddir dull cyson ac effeithiol ar draws yr awdurdod o asesu effaith. | Polisi<br><br>Parhaus | Pob grŵp | Mae templedi a chanllawiau ar gael ar MonITor ac mae'r Uned Bolisi'n parhau i roi cefnogaeth ac arweiniad i wasanaethau ar gwblhau asesiadau effaith. |
| Maes Gweithredu: Gweithdrefnau ac arferion yn eu lle fel bod gwasanaethau wedi eu caffael yn cwrdd ag ymrwymiadau a disgwyliadau'r awdurdod ynghylch cydraddoldeb | | | |
| Asesu ein polisïau a'n strategaeth caffael i ystyried a ydynt yn bodloni amcanion y ddyletswydd yn briodol a gwneud unrhyw newidiadau os oes angen | Cyllid<br><br>31 Mawrth 2013. | Pob grŵp | Mae caffael yn Ynys Môn yn cael ei drawsnewid - rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i wneud ein prosesau'n fwy effeithlon a moderneiddio'r uned/gwasanaeth Caffael yn ei gyfanrwydd. Mae CLILC yn darparu strategaeth a pholisi caffael i ni. Rydym yn gweithio gyda Siroedd Fflint, Dinbych a Chonwy ar ail-ysgrifennu ein Rheolau Gweithdrefn Contractau.<br><br>Yn ddiweddar, rydym wedi ymuno gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ond heb ymuno gyda'r Gwasanaeth Caffael Rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru. |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2011/12

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Sut i gysylltu â ni**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol hwn, neu yn dymuno derbyn y wybodaeth hon mewn fformatau eraill, cysylltwch â'r Uned Bolisi os gwelwch yn dda:


e-bost: cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk

Ffôn: 01248 752561 / 01248 752520

Ffacs: 01248 750839

Drwy'r post: Yr Uned Bolisi (Cydraddoldeb)
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

## Cynnwys


**Sut i gysylltu â ni** 2

**1.0 Cyflwyniad a Chefndir** 4

1.1 Blaenoriaethau'r Cyngor 4
1.2 Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru 4
1.3 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 5

**2.0 Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol** 5

2.1 Ein Cymunedau 5
2.2 Ein Staff 8

**3.0 Asesu Effaith** 9

**4.0 Hyrwyddo Cydraddoldeb** 9

4.1 Iechyd 10
4.2 Addysg 10
4.3 Cyflogaeth a Thâl 10
4.4 Diogelwch Personol 10
4.5 Cynrychiolaeth a Llais 10
4.6 Mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd 11

**5.0 Ein Hamcanion Cydraddoldeb** 11

**Atodiad 1:** Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016: Amcanion Cydraddoldeb – Adroddiad Cynnydd

## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

Dyma ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar gydraddoldeb ers cyflwyno'r ddyletswydd gyffredinol newydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau penodol o dan Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 6 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Rydym hefyd wedi cynnwys amlinelliad o gynnydd hyd at fis Rhagfyr 2012 er mwyn cyfleu darlun mwy cyfredol.

## 1.1 Blaenoriaethau'r Cyngor

**Nod y Cyngor yw hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau[1].**

I gyrraedd y nod yma, rydym eisiau creu Ynys Môn:
- sydd ag economi wledig sy'n ffyniannus a llewyrchus
- lle mae pobl yn cyrraedd eu llawn botensial
- lle mae pobl yn iach ac yn ddiogel
- lle mae pobl yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- lle mae pobl yn falch o'u Cyngor

Wrth weithio tuag at yr uchod, mae'r Cyngor yn parhau ei ymrwymiad i gydraddoldeb, o ran:
- darparu gwasanaethau
- ei gyfrifoldebau fel cyflogwr mawr a
- sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau nag arferion y Cyngor yn camwahaniaethu mewn unrhyw ffordd.

## 1.2 Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru

Mae cydweithio'n effeithiol yn golygu bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae swyddogion Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Ers cyflwyno'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi bod yn cydweithio i daclo anghydraddoldeb ar draws y sector gyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

[1] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am flaenoriaethau'r Cyngor yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-15 - www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol

Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru gyfres o gydamcanion a gytunwyd arnynt gan bob partner. Y rhain yw:

- Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**
- Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
- Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith a Chyflog**
- Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol**
- Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl**
- Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Mae cyfres o feysydd gweithredu i gyd-fynd â phob amcan gyda gwahanol bartneriaid wedi cytuno i gyfrannu at wahanol feysydd gweithredu. Rhoddir manylion ar sut y datblygwyd ein cydamcanion yn ein dogfennau partneriaeth:

- Amcanion Cydraddoldeb ar y Cyd – prosiect gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru
- Dogfen Ymchwil a Chefndir

## 1.3 Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Rydym yn egluro sut mae'r Cyngor wedi dewis cyfrannu at y chwe chydamcan yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012. Gellir dod o hyd i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r dogfennau partneriaeth uchod ar: www.ynysmon.gov.uk/cynlluncydraddoldeb

# 2.0 Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## 2.1 Ein Cymunedau

Yn ystod 2011/12, fe gasglwyd gwybodaeth berthnasol er mwyn datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fel yr amlinellir isod:

**Digwyddiad Ymgysylltu Rhanbarthol**

Dechreuodd ein gweithgareddau ymgysylltu gyda digwyddiad rhanbarthol a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar 20 Medi 2011 yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno.

Wrth nodi blaenoriaethau lleol, rydym wedi cymryd i ystyriaeth wybodaeth leol a gasglwyd o'r ffynonellau canlynol:

**‘Ein Hynys, Ein Cyngor – Eich Cyfraniad’**

Y Strategaeth Gymunedol[2] yw prif ddogfen strategol y Cyngor sy’n hyrwyddo gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ynys dros y cyfnod 2012-2025.

Rhwng misoedd Hydref - Rhagfyr 2011, cynhaliwyd ymarfer i ymgysylltu gyda’r cyhoedd ar weledigaeth ac amcanion strategol y strategaeth. Roedd y gweithgareddau ymgysylltu’n cynnwys sioe deithiol a gynhaliwyd rhwng 10-18 Hydref 2011 mewn pum gwahanol le ar draws yr ynys (Llangefni, Caergybi, Bodedern, Amlwch a Phorthaethwy) er mwyn rhoi cyfle i gael trafodaeth fwy ansoddol ar bethau.

**Digwyddiad Ymgysylltu Lleol – 28 Tachwedd 2011**

Fe ddaeth cynrychiolwyr o sefydliadau lleol sy’n gweithio gyda, neu’n cynrychioli, grwpiau a ddiogelir, i gyfarfod ymgysylltu yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni ar 28 Tachwedd er mwyn ein cynorthwyo i gasglu gwybodaeth berthnasol am gymunedau ar Ynys Môn. Fe gawsom adborth ysgrifenedig hefyd, yn ogystal â thrafodaeth unigol gyda rhai a wahoddwyd nad oedd yn gallu dod i’r cyfarfod ar 28 Tachwedd.

**Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn – 27 Ionawr 2012**

Fe gyflwynwyd cynrychioliadau a gafwyd gan Cymorth i Ferched Cymru, a oedd yn cynnwys rhai enghreifftiau o amcanion cydraddoldeb, i Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn am drafodaeth mewn cyfarfod o’r fforwm a gynhaliwyd ar 27 Ionawr. Roedd yr aelodau’n gefnogol iawn o’r meysydd gweithredu a awgrymwyd, gyda nifer ohonynt wedi’u cymryd ymlaen gan y fforwm eisoes. Cytunwyd y byddai’r papur yn cael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o’r gwaith cyfredol o ddatblygu cynllun gweithredu’r fforwm. Ceir rhagor o fanylion am Fforwm Trais yn y Cartref Ynys Môn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (tudalen 24).

**Ffynonellau eraill**

Rydym wedi cymryd i ystyriaeth gwybodaeth berthnasol a gasglwyd o amrywiol weithgareddau ymgysylltu eraill a gynhaliwyd gan wasanaethau o fewn y Cyngor, yn cynnwys adborth o ymarferiadau ymgynghori wrth ddatblygu strategaethau allweddol o fewn gwasanaethau allweddol.

---

[2] Erbyn Ebrill 2013, bydd y Strategaeth Gymunedol yn cael ei chyfuno gyda chynlluniau statudol allweddol eraill ac fe fydd Cynllun Integredig Sengl yn cymryd ei lle.

**Sut y gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth yma**

Gellir dod i'r casgliad bod y prif faterion a godwyd yn lleol yn ymwneud â thri phennawd allweddol - **ymwybyddiaeth, addysg ac ymgysylltu**. Rydym wedi ceisio ymdrin â'r materion hyn o fewn y gweithrediadau yr ydym wedi'u nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal, bu i'r dystiolaeth fwydo i mewn i brosesau datblygu polisïau eraill, megis y Cynllun Integredig Sengl.

**Gwybodaeth berthnasol a ddaeth ar gael yn ystod 2012/13**

**Arolwg Preswylwyr Ynys Môn** (Mai 2012) – Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr Ynys Môn yn ystod Chwefror 2012. Cwblhawyd yr arolwg ffôn gan 1,100 o drigolion a chynhaliwyd pump o grwpiau ffocws ledled yr Ynys a daeth rhwng 7 ac 11 o gyfranogwyr i bob un ohonynt. Mae'r arolwg a'r grwpiau ffocws yn darparu tystiolaeth gynrychioliadol ar draws amrediad o segmentau cymdeithasol (gan gynnwys rhyw, oed, ethnigrwydd, anabledd, yr Iaith Gymraeg a dosbarth cymdeithasol) ac ardaloedd daearyddol. Roedd un o'r grwpiau ffocws yn cynnwys pobl dros 65 oed a phobl a oedd wedi dweud bod ganddynt anabledd, a chafodd un ei gynnal yn y Gymraeg. Mae'r arolwg yma wedi rhoddi ymchwiliad 'gwaelodlin' yr oedd angen mawr amdano o foddhad y cyhoedd gyda'r modd y mae'r Cygor yn rhedeg. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol o ran yr hyn sydd yn bwysig i'r cyhoedd a'r gwelliannau sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw.

**Infobase Ynys Môn -** System gwe sy'n seiliedig ar wybodaeth leol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw Infobase Ynys Môn. Mae'r system yn hawdd iawn i'w defnyddio ac yn darparu cyfoeth o wybodaeth i unigolion a chymunedau. Mae'r gwaith cychwynnol wedi canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol a nodwyd ar gyfer Datblygu Economaidd a'r Parth Menter ond rydym hefyd wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyffredinol ar Ynys Môn trwy'r cyfleuster chwilio drwy gôd post a'r thema 'Ynys Môn mewn ffigyrau'. Rydym yn bwriadu ychwanegu mwy o themâu wrth i ni ddatblygu'r system.

**Adolygiad Data Ynys Môn -** Cafodd yr adolygiad hwn ei gychwyn i gefnogi Cyngor Sir Ynys Môn wrth iddo nodi blaenoriaethau ar gyfer cefnogi pobl sy'n agored i niwed ar Ynys Môn. Cynhaliwyd yr adolygiad data ym Mis Mai 2012 a'i nod oedd tynnu sylw at themâu a materion sy'n deillio o ddata y gall Cyngor Sir Ynys Môn ddewis talu sylw arbennig iddo yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor o'r farn bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol. Mae gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb yn parhau i gael ei gyhoeddi o fewn ystod eang o strategaethau a chynlluniau gwasanaeth a chorfforaethol. Cyhoeddir dogfennau ar ein gwefan, mewn papurau pwyllgor ac mae cynlluniau allweddol ar gael i'w darllen yn ein llyfrgelloedd cyhoeddus. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod angen gwneud mwy o waith. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'n barhaus y

wybodaeth a ddelir gennym am y grwpiau a warchodir ar Ynys Môn ac fe fyddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ac yn ymgysylltu â phobl er mwyn cyflawni hyn.

## 2.2 Ein Staff

### Gwybodaeth am Gyflogaeth

Mae'r Awdurdod wedi gwneud cryn dipyn o waith yn y 12 mis diwethaf ar gasglu a dadansoddi data am y grwpiau cydraddoldeb a warchodir. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno system AD electronig newydd sydd wedi galluogi'r Awdurdod i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol. Er bod y system wedi helpu i sicrhau bod y wybodaeth am yr holl aelodau staff newydd / staff sydd wedi newid rôl yn gyfredol, un o'r heriau mwyaf yr ydym yn ei wynebu yw casglu gwybodaeth ar y gweithlu cyfredol lle nad yw'r wybodaeth amdanynt wedi'i storio eisoes ar ffurf electronig.

Mae system AD gyfrifiadol newydd, hunanwasanaeth, nawr ar waith er mwyn ceisio llenwi rhai o'r bylchau sydd gennym yn y wybodaeth a gasglwyd. Mae'r system ddiogel hon yn galluogi staff i wirio a diweddaru eu cofnodion eu hunain, felly bydd y wybodaeth sy'n cael ei storio'n gyfredol. Fodd bynnag, gan fod y system mor newydd, mae rhai staff yn dal i ddysgu am y dull newydd yma o weithio, felly fe gylchredwyd papur ar "Y Cwestiynau a ofynnir yn aml' trwy e-bost i'r holl staff yn ystod mis Tachwedd 2012 trwy "Y Ddolen - The Link". Nod y neges yma oedd egluro pam mae angen i'r awdurdod gasglu data monitro cydraddoldeb ac annog gweithwyr i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol. Mae'n amhosibl profi os yw'r wybodaeth yma wedi helpu o ran Mawrth 2012; fodd bynnag, y gobaith yw y bydd yna welliant sylweddol ar y wybodaeth a gesglir erbyn Mawrth 2013.

Felly, er bod yr Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol i sicrhau bod y nodweddion adrodd cywir yn eu lle, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd ar gasglu'r data er mwyn sicrhau bod y wybodaeth mor gywir â phosibl. O ganlyniad, er bod gan yr Awdurdod y systemau mewn lle i ddarparu adroddiadau ar gyflogaeth, ni fyddai'r wybodaeth o fewn y system ar gyfer 31 Mawrth 2012 yn adlewyrchiad cywir o'r gweithlu a'r hyn o bryd.

### Hyfforddiant

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r cyflogwyr mwyaf ar yr Ynys. Y staff yw adnodd mwyaf y Cyngor yn ogystal â'r rhai sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi. Felly, os ydym am wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n cael eu cyflenwi mewn modd sensitif ac yn ymateb i anghenion pobl Ynys Môn, mae'n bwysig bod gennym staff sydd â'r sgiliau a chymwyseddau angenrheidiol.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn ymdrechu i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol i staff, sy'n cynnwys rhan benodol yn y broses anwytho corfforaethol i staff sy'n dechrau gweithio gyda'r Awdurdod. Y farn yw bod rhoi gwybodaeth berthnasol i staff am gydraddoldeb ar y cychwyn yn hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb. Mae yna hefyd raglen un diwrnod ar "Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth" ar gael i'r holl staff sydd eisiau canfod mwy am gyfrifoldebau'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymwybodol bod gofynion statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac felly, yn y 12 mis diwethaf, fe gynhaliwyd cyfres o sesiynau 'asesu effaith ar gydraddoldeb' i hyrwyddo'r defnydd o dempled asesu effaith yr Awdurdod. Ein nod yw i'r broses yma ddod yn rhan annatod o'r gwaith dydd i ddydd o lunio polisïau, arferion cyflogaeth, darparu gwasanaeth a'r swyddogaethau eraill a gynhelir gan y sefydliad.

Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn cymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn y sefydliad, ac mae'r Uned Adnoddau Dynol yn cymryd cyngor rheolaidd gan staff ac yn darparu unrhyw hyfforddiant perthnasol y mae angen amdano. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydeinig perthnasol i ofalwyr cartref er mwyn sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael cymaint o fynediad at wasanaethau a phosibl.

**Asesu Effaith**

Rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod yn nhermau cwblhau asesiadau effaith cadarn. Mae templed a chanllawiau ar gael ar ein mewnrwyd - MonITor - mae hyfforddiant wedi bod ar gael ac mae'r Uned Bolisi'n parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i wasanaethau. Mae linciau i wybodaeth berthnasol o wefan Infobase Ynys Môn a'r ddogfen Adolygiad Data Ynys Môn wedi'u cynnwys ar ein tudalen Cydraddoldeb ar ein mewnrwyd.

Y bwriad yn ystod 2013/14 yw adolygu'r canllawiau cyfredol ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb i gyd-fynd â'r canllawiau arfer dda i staff ar ymgynghori, a hynny er mwyn cryfhau'r cysylltiadau a hyrwyddo ymhellach yr angen i briflifo ystyriaethau cydraddoldeb.

## 4.0 Hyrwyddo Cydraddoldeb

Yn y paragraffau canlynol, rydym yn amlinellu rhai enghreifftiau o'r hyn y gwnaethom yn ystod 2011/12 ac yn fwy diweddar i hyrwyddo cydraddoldeb. Er mwyn cysondeb, rydym yn adrodd o dan themâu ein hamcanion cydraddoldeb rhanbarthol:

### 4.1 Iechyd

Cynhaliwyd diwrnod agored ynghyd â chyfres o sioeau teithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth am offer sy'n gallu helpu pobl hŷn a phobl anabl i fyw bywydau annibynnol a diogel. Trefnwyd y digwyddiadau hyn mewn partneriaeth â Mencap ac fe'u cynhaliwyd yn ystod mis Mawrth 2012. Mae offer Teleofal yn rhoi annibyniaeth i unigolion dirifedi i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac yn rhoi tawelwch meddwl i'w gofalwyr.

### 4.2 Addysg

Mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnig gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc ym mhob un o'r ysgolion uwchradd. Mae tîm o Gwnselwyr proffesiynol ar gael i wrando a chynnig cymorth i blant a phobl ifanc ar ystod eang o broblemau emosiynol y gallant eu hwynebu. Gellir cysylltu gyda'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Uwchradd Gwynedd a Môn ar 01286 679199 neu trwy ymweld â www.ynysmon.gov.uk/gwasanaethcwnselaysgolion

### 4.3 Cyflogaeth a Thâl

Yn dilyn adolygiad o'r meini prawf yn ystod 2011/12, cafodd yr Awdurdod ei ail-wobrwyo gyda'r Symbol Cadarn o blaid Pobl Anabl ar ôl dangos ymrwymiad parhaus i'r pum ymrwymiad o ran recriwtio, hyfforddiant, cadw, ymgynghori ac ymwybyddiaeth am anableddau.

### 4.4 Diogelwch Personol

Fe gytunodd yr Awdurdod i gais gan breswylydd lleol ac un o gyd-sylfaenwyr mudiad cefnogi trawsrywedd i godi baner trawsrywedd yn swyddfeydd y cyngor ar 20 Tachwedd 2011 i nodi Diwrnod Cofio Trawsrywedd. Mae'r dyddiad hwn yn cael ei gydnabod ar draws y byd i gofio rhai a gollwyd oherwydd rhagfarn ar sail casineb. Ynys Môn oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i godi'r faner trawsrywedd er mwyn cefnogi'r achos yma ac fe barhaodd gyda'i gefnogaeth trwy godi'r faner eto ar 20 Tachwedd 2012.

### 4.5 Cynrychiolaeth a Llais y Bobl

Mae newidiadau wedi'u gwneud mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid, trwy ganolbwyntio mwy ar fentrau cymunedol yn hytrach na hyrwyddo'r panelau tenantiaid a chyfarfodydd traddodiadol. Mae hyn wedi ein helpu i ddatblygu cysylltiadau ag asiantaethau partner a rhoi mwy o ffyrdd y gall tenantiaid eu dewis er mwyn cymryd rhan. Mae hyn wedi annog mwy o denantiaid i gymryd rhan, gan gynnwys y grwpiau sydd fel rheol yn anodd eu cyrraedd, fel pobl ifanc, gan sicrhau bod ein gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn cynrychioli nifer ehangach o'r tenantiaid.

### 4.6 Mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu lleol a wnaed y llynedd, fe'n hatgoffwyd am bwysigrwydd cynhyrchu dogfennau mewn fformatau eraill ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall. Mewn partneriaeth gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mae papur cymunedol y Cyngor - Newyddion Môn - nawr yn cael ei gynhyrchu mewn fformat clywedol ac yn cael ei gylchredeg i breswylwyr dall a rhannol ddall ar yr ynys (Cylchredwyd rhifyn y Gaeaf 2012/13 i 424 o unigolion).

## 5.0 Ein Hamcanion Cydraddoldeb

### 5.1 Yr hyn a wnaethom hyd yn hyn

Fe gyhoeddwyd ein hamcanion cydraddoldeb fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Yn **Atodiad 1,** rhoddir amlinelliad o'r cynnydd a wnaed hyd at Ragfyr 2012 tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

### 5.2 Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac rydym wedi ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor Sir, i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

**Mawrth 2013**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD: | PWYLLGOR SCRIWTINI CORFFORAETHOL |
| DYDDIAD: | 4 MAWRTH 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | RHEOLI RISG |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) |
| GWEITHREDIAD: | ER GWYBODAETH |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn galw a'r y Pwyllgor Scriwtini i:-

- Nodi risgiau sylweddol, fel yn addas, i'w sgriwtineiddio'n fwy manwl fel rhan o'u rhaglen gwaith;
- Derbyn, adolygu a herio'r broses ar gyfer gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y Cyngor;
- Bodloni ei hun bod prosesau a threfniadau cadarn yn bodoli ac yn cael eu gweithredu ar gyfer rheoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch.

1.1 Fe gyflwynwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol cychwynnol i'r Pwyllgor Archwilio ym Ionawr 2012.

## 2 CYNNYDD AR WEITHREDU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

2.1 Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg (Atodiad A) a'r Canllawiau Rheoli Risg (Atodiad B) gan y Pwyllgor Gwaith a'r y 15fed Hydref 2012.

2.2 Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith ar y 6ed o Dachwedd 2012.

2.3 Cadarnhawyd aelodaeth y Grwp Rheoli Risg yn Nhachwedd 2012 a cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y Grwp ar y 18fed o Ragfyr 2012.

2.4 Bu'r UDA gwrdd i adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol ar y 23ain o Ionawr 2013. Dylid nodi bod y cyfarfod hwn wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer y 18fed o Ionawr 2013 ond gohirwyd oherwydd yr eira.

2.5 Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth.

## 3 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

3.1 Atodir i'r adroddiad hwn fel Atodiad C y Gofrestr Risg Corfforaethol wedi ei adolygu.

3.2 Mae'r diffiniadau risg (y Bregysrwydd), Sbardynion a'r Effeithiau i gyd wedi eu hadolygu gan yr UDA ynghyd â'r Lefelau Risg. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser yn ystod y cyfarfod ar y 23ain o Ionawr 2013 nid yw'r Mesurau Rheoli wedi eu hadolygu. Gofynnwyd i'r UDA adolygu a diweddaru'r Mesurau Rheoli erbyn diwedd Chwefror 2013

3.3 Mae adolygiad yr UDA wedi adnabod y canylynnol fel y pump risg uchaf y Cyngor:-

| | |
|---|---|
| YM33 | Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir |
| YM36 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd |
| YM2 | Methu â chynnal y gwelliannau wnaes yn nhermau Llywodraethu |
| YM7 | Dim yn rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol |
| YM38 | Methu â chynllunio tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth |

3.4 Bydd y Gofrestr Risg Corfforaethol wastad yn ddogfen byw ac yn datblygu ac, felly, bydd yr UDA a'r Grwp Rheoli Risg yn parhau i adolygu a diweddaru'r ddogfen fel bo'r angen.

## 4 ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r Gofrestr Risg Corfforaethol a'r cynnydd hyd yma.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** **22 CHWEFROR 2013**

# STRATEGAETH RHEOLI RISG

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Pwrpas Ac Amcanion Y Strategaeth

Pwrpas y Strategaeth Rheoli Risg yma yw sefydlu fframwaith ar gyfer rheolaeth effeithiol a systemateg o risg, a fydd yn sicrhau fod rheoli risg wedi ei wreiddio drwy gydol y Cyngor a'i fod yn gwneud cyfraniad real tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cyngor.

Amcanion y Strategaeth yma yw:

- Diffinio beth mae rheoli risg yn ei feddwl a beth sy'n gyrru rheoli risg o fewn y Cyngor;
- Gosod allan buddiannau rheoli risg a'r dull strategol tuag at reoli risg;
- Amlinellu sut gweithredir y strategaeth;
- Nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau perthnasol ar gyfer rheoli risg o fewn y Cyngor.

Nid cyfrifoldeb newydd yw rheoli risg ond, yn syml, ffurfioli beth sy'n rhan o weithdrefnau da arferol. Mae'n bwysig i bwysleisio, felly, ni ddylai Rheoli Risg fod yn "ychwanegiad". Nid yw'n weithgaredd ar wahân sy'n digwydd unwaith y flwyddyn ochr yn ochr a weithgareddau rheoli arall. Yn hytrach, ddylai ffurfio rhan annatod o ddull rheoli perfformiad y Cyngor.

Mae yna ddogfen Canllawiau Rheoli Risg manwl sy'n atodol i'r Strategaeth yma ac mae'n rhoi rhagor o fanylder ar sut y dylid cynnal y broses rheoli risg.

### 1.2 Cymeradwyaeth, Cyfathrebu, Gweithredu Ac Adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg

Bydd y Strategaeth Rheoli Risg yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio ac, yn dilyn cymeradwyaeth, yn cael ei ddosbarthu i:

- Holl Aelodau'r Cyngor;
- Tîm Arweinyddiaeth Strategol;
- Holl Reolwyr;
- Cydranddeiliad allweddol, fel Partneriaid Strategol Lleol;
- Partïon arall â diddordeb, fel Swyddfa Archwilio Cymru.

Fe'i osodir ar safle intranet y Cyngor fel ceir yr holl aelodau staff fynediad iddo a chyfeirio ato'n hawdd. Bydd yn rhan o broses cyflwyniad staff i wneud yn siwr fod aelodau staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau nhw eu hunain ac eraill yn ymwneud â rheoli risg o fewn y Cyngor, adrannau a gwasanaethau.

Ceir y strategaeth ei adolygu'n fewnol yn flynyddol ac yn dilyn unrhyw newidiadau allweddol ym mholisi Llywodraeth Ganol neu gyfundrefnau arolygu, ac yn dilyn ad-drefnu mewnol neu newidiadau ym mholisi.

### 1.3 Beth Yw Rheoli Risg?

Gelli'r diffinio risg fel "ansicrwydd canlyniad, p'run a'i gyfle positif neu fygythiad negyddol, o weithrediadau neu ddigwyddiadau".

Gellir diffinio Rheoli Risg fel:

> "The management of integrated or holistic business risk in a manner consistent with the virtues of economy, efficiency and effectiveness. In essence it is about making the most of opportunities (making the right decisions) and about achieving objectives once those decisions are made. The latter is achieved through controlling, transferring and living with risks" ZMMS/SOLACE, Chance or choice? July 2000

Felly, yn ei hanfod mae rheoli risg ynglŷn â nodi'r holl rwystrau a gwendidau sy'n bodoli o fewn y Cyngor. Mae'r dull cyfannol yn hanfodol i sicrhau fod holl elfennau'r sefydliad yn cael eu herio, yn cynnwys y prosesau gwneud penderfyniadau, gweithio gyda phartneriaid, prosesau ymgynghori, polisïau a gweithdrefnau presennol ac, yn ogystal, y defnydd effeithiol o asedau - staff ac asedau ffisegol. Unwaith nodir y rhwystrau, y cam nesaf yw eu blaenoriaethu i nodi'r rhwystrau allweddol i'r sefydliad symud ymlaen. Unwaith byddent wedi eu blaenoriaethu, mae'n hanfodol i gymryd camau i reoli'n effeithiol y rhwystrau/risgiau allweddol yma. Y canlyniad yw y gellir lliniaru'r rhwystrau mawr sy'n bodoli o fewn y sefydliad er mwyn darparu'r Cyngor â'r cyfle orau i allu cyflawni ei amcanion.

Bydd y risgiau a wyneba'r Cyngor yn newid dros amser, gyda rhai yn newid yn barhaus, felly nid proses unwaith ac-am-byth yw hwn. Yn hytrach, dylai'r dull i reoli risg fod yn barhaus a dylid adolygu'r risgiau a'r dulliau i'w rheoli yn rheolaidd.

Mae'n bwysig nodi y gall risgiau hefyd gael manteision; mewn rhai achosion gall eu heffaith fod yn bositif yn ogystal â negyddol. Dyweder yn aml fod risg yr ochr arall i gyfle, felly gall yr holl broses rheoli risg hefyd gynorthwyo'r Cyngor i nodi'r cyfleoedd positif a fydd yn mynd ag o yn ei flaen.

Mae angen ystyried rheoli risg fel offeryn strategol ac fe ddaw'n rhan hanfodol o reoli a chynllunio effeithiol ac effeithlon.

### 1.4 Pam Rydym Eisiau (Ac Angen) Gwneud Rheoli Risg?

Drwy ychwanegu i'r prosesau cynllunio busnes a rheoli perfformiad, bydd rheoli risg yn cryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a gwella gwerth y gwasanaethau a ddarparir.

#### 1.4.1 Mae'n Ofynnol I Ni Ei Wneud

Mae rheoli risg yn rhywbeth sy'n ofynnol i'r Cyngor ei wneud, er enghraifft:

- Dan fframwaith CIPFA/SOLACE ar Lywodraethu Corfforaethol, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad sicrwydd i'r cyhoedd yn flynyddol ar, ymysg meysydd arall, strategaeth, proses a fframwaith rheoli risg y Cyngor. Dan y fframwaith, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu a chynnal strategaeth, fframwaith a phrosesau systemateg ar gyfer rheoli risg.
- Cyflwynodd y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio i Gymru 2005, gofyniad o 1af Ebrill 2005 am Ddatganiad cyflawn o Reolaeth Fewnol. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir sylw dyledus i'n trefniadau llywodraethu corfforaethol, i gynnwys ein dull tuag at reoli perfformiad a rheoli risg.
- Mae'n ofynnol dan Raglen Cymru ar Gyfer Gwella (WIP) i holl awdurdodau lleol Cymru i sicrhau gwelliant parhaus drwy gymryd rôl fwy rhagweithiol i gyflawni eu swyddogaethau ar lefel strategol a gweithredol. Un o'r prif elfennau o ofynion y WIP yw cynhyrchu cofrestr risg yn seiliedig ar wasanaethau a chofrestr risg corfforaethol.
- Yn fwyfwy mae rheoli risg yn dod yn ymarfer gorau yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat.

#### 1.4.2 Buddiannau Rheoli Risg

Byddai gweithredu'n llwyddiannus rheoli risg yn cynhyrchu nifer o fuddiannau i'r Cyngor petai'n dod yn offeryn byw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dull cyson i'r ffordd y rheolir risgiau drwy gydol y Cyngor;
- gwella penderfyniadau ar sail gwybodaeth – risgiau yr adroddir arnynt ac y ceir eu hystyried o fewn penderfyniadau'r Cyngor;
- dod yn llai yn erbyn cymryd risg arloesi (achos eich bod yn deall) ac, felly, yn dod yn fwy arloesol;
- gwella cynllunio busnes drwy broses penderfyniadau yn seiliedig ar risg;
- canolbwyntio ar ganlyniadau nid prosesau;
- gwella perfformiad (atebolrwydd a blaenoriaethu) - bwydo i mewn i fframwaith rheoli perfformiad;
- gwell llywodraethu – a'i ddangos i gydranddeiliaid;
- helpu amddiffyn y sefydliad.

Y prif fudd yw bydd y Cyngor yn fyw tebygol o gyflawni ei weledigaeth a'r amcanion allweddol sy'n ei danseilio, oherwydd bod y rhwystrau'n cael eu nodi a'u rheoli'n weithredol. Felly o gymorth i gyflawni'r nod strategol:

> *"I hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys, ei ddinasyddion a'i gymunedau drwy weithio ar y cyd yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol."*

**1.5 Lle Mae Rheoli Risg Yn Ffitio?**

Yn fyr, yn ateb yw "ym mhobman". Dylid cynnwys rheoli risg effeithiol o fewn pob proses penderfyniadau ar raddfa briodol. Felly, dylai'r dull rheoli risg cwmpasu risgiau canlynol y Cyngor:

| | |
|---|---|
| Risgiau Strategol a Chorfforaethol | • Y risgiau dylid eu hystyried wrth ddyfarnu ynglŷn â nodau ac amcanion tymor canolig i hir y Cyngor.<br>• Y risgiau sy'n effeithio cyflawni'n llwyddiannus amcanion corfforaethol a'u heffaith ar hyd y Cyngor cyfan. |
| Risgiau Gwasanaeth | Y risgiau sy'n effeithio cyflawni'n llwyddiannus amcanion gwasanaethau unigol. Yn aml, cant eu hadeiladu i mewn i'r broses cynllunio gwasanaeth. |
| Risgiau Gweithredol | Y risgiau y daw rheolwyr a staff ar eu traws yn ystod eu gwaith dyddiol |
| Risgiau Prosiect | Mae rheolaeth effeithiol o risg o fewn prosiectau yn allweddol i'w llwyddiant yn y pen draw, felly dylai prif brosiectau gael dull rheoli risg gadarn. |
| Risgiau Partneriaeth | Mae'r nifer cynyddol a graddfa'r gweithio mewn partneriaeth hefo partneriaid cyhoeddus, preifat a'r sector gwirfoddol, yn ein gwneud yn agored i risg, felly dylai partneriaethau sylweddol gael dull cadarn o reoli risg. |

Felly, mae dull cyson o dop y Cyngor i'w gwaelod. Felly, bydd mecanwaith yn bodoli ar gyfer pasio'r risgiau i fyny (o'r gwaelod i fyny) o fewn y Cyngor tra mae'r prif risgiau hefyd yn cael eu nodi'n benodol a'u rheoli (top i lawr).

Yn ymarferol, golyga hyn fydd y Cyngor yn cynnal asesiadau risg a datblygu'r cofrestrau risg canlynol:

- Cofrestr risg Corfforaethol (CRR) – y risgiau strategol a chorfforaethol, yn ymwneud yn benodol â'r Cynllun Cymuned ac amcanion y Cynllun Gwella.
- Cofrestr risg Gwasanaeth (SRR) - y risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth a chyflawni amcanion y gwasanaeth, fel amlinellwyd yn y Cynllun Busnes Gwasanaeth. Yn ddibynnol ar strwythur a chymhlethdod y gwasanaeth, efallai bod hefyd y gofyniad/dymuniad i gael cofrestrau risg Uned Busnes, fydd y bwydo i mewn i'r gofrestr risg Gwasanaeth.

O ystyried y newidiadau yn nhirwedd llywodraeth leol, mae pwysigrwydd prosiectau a phartneriaethau'n cynyddu, felly mae'n ofynnol i gael dull rheoli risg mwy penodol ac wedi ei theilwra.

**1.5.1 Rheoli Risg Prosiect.**

Gellir diffinio prosiect fel:-

"*a temporary organisation that is needed to produce a unique and predefined outcome or result at a pre-specified time using predetermined resources" PRINCE2*

Ac, i fod yn effeithiol, mae angen i reolwyr allu rheoli tri agwedd o'r prosiect:-

- Fod y prosiect yn cyflawni ar amser;
- Fod y prosiect yn cyflawni'r safon;
- Fod y prosiect yn cyflawni o fewn y gyllideb.

Mae'n amlwg bydd rheoli risg effeithiol o gymorth i'r broses, ac mae'n ofynnol ym mhob dull rheoli prosiect effeithiol. Dylid nodi a rheoli risgiau o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol oes y prosiect. Mae'n hanfodol y ceir risgiau eu cyfathrebu'n effeithiol a'u pasio i fyny o fewn y strwythur prosiect.

Dylai fod gan bob prif brosiect eu cofrestr risg eu hunain yn berthnasol i amcanion y prosiect a'r cynllun. Dylai unrhyw risgiau sylweddol a nodir cael eu hadrodd i'r swyddogion, grŵp, pwyllgor perthnasol a'u cynnwys yn y gofrestr risg gwasanaeth perthnasol a/neu yn y gofrestr risg corfforaethol.

### 1.5.2 Rheoli Risg Partneriaeth

*"A third of those working in partnerships experience problems, according to auditors. These problems arise when governance and accountability are weak: leadership, decision-making, scrutiny and systems and processes such as* ***risk management*** *are all under-developed in partnerships".* Governing Partnerships, Audit Commisson, 2005

Felly, mae rheoli risg effeithiol o bartneriaethau sylweddol y Cyngor yn hanfodol. Bydd hyn angen eglurder ynglŷn â beth yw partneriaethau ac, yn arbennig, pa rai sy'n sylweddol. Mae'r rhain wedyn angen dull deuol tuag at reoli risg:

- Y tu allan yn edrych i mewn – y risgiau i'r Cyngor gymryd rhan yn y bartneriaeth;
- Y tu mewn yn edrych allan – y risgiau i'r bartneriaeth gyflawni ei amcanion.

Dylid cynnwys y risg tu allan yn edrych i mewn yng nghofrestr risg y gwasanaeth perthnasol a/neu gofrestr risg corfforaethol. Dylai pob partneriaeth sylweddol ddatblygu cofrestr risg eu hun yn berthnasol i amcanion a chynllun y bartneriaeth. Dylai datblygu hyn ar y cyd â'r holl bartneriaid. Dylai integreiddio rheoli risg o fewn prosesau llywodraethu'r bartneriaeth.

## 2. STRWYTHUR RHEOLI RISG

### 2.1 Strwythur Adrodd

Mae'r broses rheoli risg yn un parhaus ac, felly, mae risgiau yn gallu cael eu hadrodd unrhyw bryd. Fodd bynnag, mi fydd risgiau yn cael eu hadrodd ar yn ffurfiol yn unol â'r broses cynllunio busnes a Chyfarfodydd Rheoli Perfformiad Chwarterol.


Bydd angen, felly, i Wasanaethau ail edrych ar eu risgiau yn sgil unrhyw newid ac o leiaf unwaith y chwarter. Mi fyddent yn adrodd unrhyw risgiau newydd sydd wedi eu nodi, datblygiadau ar weithrediad i liniaru risgiau cyfredol, ac unrhyw newid i'r lefel gweledig o risg fel rhan o'r Cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Chwarterol neu fel eithriad os oes unrhyw weithgaredd sylweddol rhwng y Cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Chwarterol. Dylai unrhyw risgiau sy'n cael eu hadrodd fel eithriad gael eu hadrodd i'r Grŵp Rheoli Risg gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi eu hategu yn Atodiad 3 i'r Canllawiau Rheoli Risg sy'n mynd hefo'r strategaeth hwn.

Yn debyg, mi fydd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn ystyried risgiau corfforaethol newydd, newidiadau i'r risgiau cyfredol a risgiau sydd wedi eu pasio i fyny o leiaf unwaith y chwarter. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn adrodd ar y risgiau corfforaethol uchaf, datblygiadau ar weithrediad i liniaru'r risgiau hynny, ac unrhyw newid sylweddol yn y lefel gweledig o'r risgiau hynny yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Sgriwtini pob tri mis. Bydd unrhyw weithgaredd sylweddol rhwng yr adrodd ffurfiol yn cael ei ystyried ac yn cael ei adrodd fel eithriad.

Mi fydd y Grŵp Rheoli Risg yn gweithredu fel ffilter i asesu'r risgiau Gwasanaethau sydd angen ystyriaeth gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a hefyd i'r risgiau Corfforaethol sydd angen ystyriaeth ar lefel Gwasanaeth. Mi fydd hyn yn sicrhau dull cyson top i lawr a gwaelod i fyny a bod pictiwr cyfredol bob tro o'r risgiau allweddol mae'r Cyngor yn eu hwynebu a sut maent yn cael eu rheoli.

Bydd y strategaeth rheol risg hwn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn flynyddol fel bo'r angen.

Mae'r drefn adrodd yn cael ei gynrychioli isod:




## 2.2 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r canlynol yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau bydd Aelodau a swyddogion yn chwarae i gyflwyno, ymgorffori a bod yn berchen ar y broses rheoli risg:

### 2.2.1 Pwyllgor Gwaith

- Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg;
- Cymeradwyo "archwaeth risg" y Cyngor h.y. diffiniad o risgiau uchel (coch), risgiau canolig (ambr) a risgiau isel (gwyrdd) fel yr argymhellwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol;
- Dal y Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn atebol am reolaeth effeithiol o risg;
- Monitro'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau strategol a chorfforaethol y Cyngor drwy'r adroddiadau chwarterol;
- Ystyried y risgiau sy'n bodoli wrth wneud penderfyniadau;
- Derbyn ac adolygu'r gofrestr risg a'r cynlluniau gweithredu canlyniadol ar gyfer y risgiau uchaf corfforaethol;
- Dyrannu adnoddau'n addas er mwyn delio â'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r fframwaith rheoli risg;
- Sicrhau bod llinellau adrodd addas ac effeithiol mewn lle ar gyfer rheoli risg;
- Mae'r Arweinydd yn cymeradwyo ac yn arwyddo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### 2.2.2 Pwyllgor Archwilio

- Adolygu effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- Adolygu Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a sut mae'n cael ei weithredu;
- Adolygu a herio'r gofrestr risg a'r cynlluniau gweithredu canlyniadol ar gyfer y risgiau corfforaethol uchaf;
- Derbyn, adolygu a herio'r broses ar gyfer gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y Cyngor;
- Bodloni ei hun bod prosesau a threfniadau cadarn yn bodoli ac yn cael eu gweithredu ar gyfer rheoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch;
- Scriwtineiddio a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

**2.2.3 Pwyllgor Sgriwtini**

- Nodi risgiau sylweddol, fel yn addas, i'w sgriwtineiddio'n fwy manwl fel rhan o'u rhaglen gwaith;
- Derbyn, adolygu a herio'r broses ar gyfer gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y Cyngor;
- Bodloni ei hun bod prosesau a threfniadau cadarn yn bodoli ac yn cael eu gweithredu ar gyfer rheoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch.

**2.2.4 Aelod Arweiniol – Rheoli Risg**

Y Deilydd Portffolio Cyllid, Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol yw'r Aelod Arweiniol ar gyfer rheoli risg. Mae cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Hyrwyddo ac annog aelodau a swyddogion y Cyngor i reoli risg yn effeithiol;
- Codi ymwybyddiaeth rheoli risg o fewn y Cyngor a sicrhau bod anghenion hyfforddiant ac addysgol rheoli risg yn cael eu nodi a'u gweithredu;
- Mynychu'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini, gyda'r swyddogion addas, i adrodd cynnydd ar reoli risg;
- Ceisio datrys unrhyw faterion/rhwystrau sy'n wynebu'r effeithiolrwydd o ymgorffori rheoli risg.

**2.2.5 Pob Aelod**

Aelodau sy'n gyfrifol am lywodraethu'r ddarpariaeth gwasanaeth i'r gymuned leol ac mae ganddynt gyfrifoldeb i ddeall y risgiau mae'r Cyngor yn wynebu a sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli. Un ffordd o gael sicrwydd bod y risgiau sydd wedi eu nodi yn cael eu rheoli'n effeithiol yw drwy herio a sgriwtineiddio'n gadarn ac adeiladol.

**2.2.6 Prif Weithredwr a Tîm Arweinyddiaeth Strategol**

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn ganolog ar gyfer hyrwyddo ac ymgorffori rheoli risg drwy reoli newid y diwylliant o fewn y Cyngor. Maent yn gyfrifol am reoli risgiau strategol a chorfforaethol, yn ogystal a risgiau gwasanaethol sy'n syrthio o fewn y meysydd maent yn gyfrifol am.

Eu tasgau allweddol yw:

- Adolygu dull y Cyngor o reoli risg a'r prosesau cefnogol ac argymell ar gyfer cymeradwyo unrhyw newidiadau dilynol;
- Argymell y Strategaeth Rheoli Risg i aelodau;
- Awgrymu "archwaeth risg" y Cyngor h.y. diffiniad o risgiau uchel (coch), risgiau canolig (ambr) a risgiau isel (gwyrdd);
- Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg drwy'r Cyngor - gyda phob aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol yn y meysydd maent yn gyfrifol am;
- Nodi, dadansoddi a chreu proffil yn weithredol ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol o leiaf pob chwarter;
- Penderfynu a blaenoriaethu gweithredoedd ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol, gan ddyrannu perchnogaeth unigol o'r risgiau allweddol i aelodau addas o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Bydd pob cyfarwyddwr yn gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y risgiau a neilltuwyd iddynt ac yn atebol am sicrhau y cyflawnir gwelliannau risg;
- Derbyn risgiau gwasanaeth a rhoi ystyriaeth i'w cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol;
- Monitro cynnydd ar trefniadau risg fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad cyfredol;
- Adrodd i'r Pwyllog Gwaith yn chwarterol ar risgiau allweddol a'u rheolaeth;
- Sicrhau bod (lle'n addas) adroddiadau a'r "benderfyniadau allweddol" yn cynnwys rhan i ddangos fod trefniadau mewn lle i reoli unrhyw risgiau;
- Sicrhau bod gan y Cyngor brosesau a threfniadau cadarn mewn lle, sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, i reoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch;
- Mae angen i'r Prif Weithredwr gytuno ac arwyddo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon blynyddol.

**2.2.7 Swyddog Hyrwyddo Risg**

Y Dirpwy Brifweithredwr sydd wedi ei nodi fel y Swyddog Hyrwyddo Risg ac yn arwain ar holl faterion rheoli risg. Mae cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Sicrhau bod Strategaeth Rheoli Risg yn cael ei ddatblygu a'i adolygu'n flynyddol i adlewyrchu unrhyw newid yn natur y Cyngor;
- Sicrhau bod fframwaith cadarn yn cael ei ddatblygu i ddarparu a gweithredu'r Strategaeth;
- Hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn rheolaidd o ddatblygiadau yn y prosesau rheoli risg a'r canlyniadau;
- Hyrwyddo'r broses o reoli risg fel ymarfer rheoli da ac offeryn rheoli gwerthfawr;
- Cadeirio'r Grŵp Rheoli Risg.

**2.2.8 Grŵp Rheoli Risg**

- Asesu'r cynnydd ar reoli risg o fewn y Cyngor yn flynyddol ac adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Sgriwtini;
- Ymchwilio, ystyried ac argymell gwelliannau i'r broses rheoli risg o fewn y Cyngor;
- Argymell y strategaeth rheoli risg ac unrhyw ddiweddariad dilynol i'r Tim Arweinyddiaeth Strategol;
- Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg drwy'r Cyngor;
- I fod yn bwynt cyswllt o fewn y Cyngor ar gyfer canllawiau a chyngor ar reoli risg;
- Sicrhau bod gan y Cyngor brosesau a threfniadau cadarn mewn lle ac sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer rheoli holl risgiau;
- Monitro'n rheolaidd unrhyw gynnydd ar roi cofrestrau risg at eu gilydd a gweithredu'r cynlluniau gweithredu a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Sgriwtini;
- Asesu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth a phasio unrhyw risg o sylwedd neu gyda themâu cyffredin i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol;
- Asesu'r Risgiau Corfforaethol sydd wedi eu nodi a phasio unrhyw risgiau perthnasol lawr i'r Gwasnaeth(au);
- Argymell cynnwys unrhyw risgiau newydd mae'n dod ar ei draws ar y gofrestr risg perthnasol.

**2.2.9 Penaethiaid Gwasanaeth**

Eu prif rôl yw rheoli risgiau gwasanaeth drwy:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o risg o fewn eu Gwasanaeth;
- Hwyluso asesiadau risg o fewn eu maes gwasanaeth er mwyn datblygu Cofrestr Risg Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â chynllun berfformiad y gwasanaeth;
- Derbyn risgiau sydd wedi pasio'i fyny gan Unedau Busnes ac ystyried eu cynnwys ar y Gofrestr Risg Gwasanaeth;
- Nodi, dadansoddi a chreu proffil yn weithredol ar gyfer risgiau'r Gwasanaeth bob chwarter - yn gysylltiedig â chynllun berfformiad y gwasanaeth;
- Penderfynu a blaenoriaethu gweithredoedd ar gyfer risgiau'r Gwasanaeth, gan ddyrannu perchnogaeth unigol o'r risgiau allweddol i reolwyr addas o fewn eu Gwasanaeth;
- Pasio'r risgiau uchaf, y rhai uwchben y llinell goddefgarwch, i fyny i'r Grŵp Rheoli Risg ystyried;
- Ymgorffori'r broses rheoli risg i mewn i brosesau cynllunio busnes y gwasanaeth gan sicrhau eu bod yn bwydo i mewn i'r cynllun busnes;
- Annog staff i fod yn agored ac onest wrth nodi risgiau neu gyfleoedd sydd wedi eu colli;
- Sicrhau bod y broses rheoli risg yn rhan benodol o bob prosiect sylweddol a mentrau rheoli newid;
- Monitro ac adrodd ar gynnydd a'r gweithgareddau risg fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad cyfredol;
- Sicrhau bod gan y Cyngor brosesau a threfniadau cadarn mewn lle, sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ac yn gadarn o fewn y Gwasanaethau, i reoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch.

**2.2.10 Archwilio Mewnol**

Er mwyn cynnal annibyniaeth a gwrthrychedd nid yw Archwilio Mewnol yn gyfrifol am nac yn atebol am reoli risg nag am reoli'r risgiau ar ran y rheolwyr. Bydd Archwilio Mewnol yn:

- Archwilio'r broses rheoli risg;
- Cefnogi, fel bo'r angen, gweithdai risg sy'n nodi ac asesu risg;
- Asesu digonolrwydd y dull o nodi, dadansoddi a lliniaru risgiau allweddol;
- Rhoi sicrwydd i swyddogion ac Aelodau ar effeithiolrwydd rheolaethau;
- Bydd y Gofrestr Risg yn gyrru'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio at y lle mae'r risgiau uchaf a lle sydd angen sicrwydd fwyaf.

**2.2.11 Arweinwyr Prosiect**

Mae gan arweinwyr prosiect gyfrifoldeb i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'u prosiect yn cael eu nodi, cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli prosiect. Rhaid adrodd ar risgiau sylweddol a'u cynnwys ar y gofrestr risg gwasanaeth priodol neu'r Gofrestr Risg Corfforaethol.


**2.2.12 Pob Aelod o Staff**

Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i:

- Rheoli risg yn effeithiol yn eu swydd ac adrodd unrhyw gyfleoedd a risgiau i'w rheolwyr gwasanaeth;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau asesu risg a chynllunio gweithredu fel bo'r angen;
- Cydymffurfio a pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor;
- Mynychu sesiynau datblygu a hyfforddi fel bo'r angen.

**2.3 Cysylltiadau â Phrosesau Busnes Eraill**

Mae yna gysylltiad rhwng rheoli risg, cynllunio argyfwng a pharhad busnes, fodd bynnag, mae'n ofynnol i lwyddiant rheoli risg bod rôl pob un, a'r cysylltiadau, yn cael eu deall yn iawn. Mae'r diagram isod yn dangos y gwahaniaethau.




- **Rheoli Risg** yw ceisio nodi a rheoli'r risgiau hynny sy'n fwy tebygol o ddigwydd a bydd yn cael effaith andwyol neu drychinebus ar ein hamcanion.
- **Rheoli Parhad Busnes** yw ceisio nodi eich swyddogaethau blaenorol a rhoi mesuriadau mewn lle i'w gwarchod yn erbyn y risgiau trychinebus hynny a all stopio'r sefydliad yn stond. Mae yna rywfaint o orgyffwrdd, e.e. lle nid yw'r rhwydwaith TG ddim yn gadarn bydd yn rhan o asesiad risg y sefydliad a hefyd yn cael ei gynnwys mewn cynllunio parhad busnes.
- **Cynllunio Argyfwng** yw rheoli'r digwyddiadau hynny a all gael effaith ar y gymuned (ac mewn rhai achosion yn gallu hefyd bod yn fater parhad busnes) e.e. mae damwain awyren yn argyfwng, ond yn fater parhad busnes os yw'n syrthio ar y swyddfa!

Mae’r Cyngor wedi nodi'r cysylltiad rhwng Rheoli Risg a Rheoli Parhad Busnes a Cynllunio Argyfwng ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy’r swyddogion arweiniol yn y meysydd hyn fod yn rhan o’r Grŵp Rheoli Risg er mwyn cael cyd-weithio, rhannu gwybodaeth, a lleihau dyblygu.

## 3. CASGLIAD

Mi fydd y strategaeth hon yn sylfaen i integreiddio rheoli risg i mewn i ddiwylliant y Cyngor. Bydd hefyd yn ffurfioli’r broses i gael ei ddefnyddio ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder i ddeall rhôi a buddiannau rheoli risg strategol.

Dylai’r adrodd chwarterol a phasio risgiau i fyny ac i lawr gyd-gloi gyda’r trefniadau chwarterol cyfredol ar gyfer adrodd ar berfformiad. Y bwriad yw bod rheoli risg yn cael ei hymgorffori i mewn i gynlluniau busnes fel bod adrodd ar berfformiad yn adrodd yn naturiol ar y cynnydd i liniaru risgiau.

Bydd mabwysiadu’r strategaeth yn ffurfioli'r gwaith ar reoli risg hyd yma ac yn symud y Cyngor tuag at gwrdd y gofynion hynny sy’n cael eu hadnabod fel arfer gorau ac arolwg.

## CANLLAWIAU RHEOLI RISG


**Gweithredu Canllawiau Rheoli Risg**
Mae'r canllawiau hyn yn mynd law yn llaw a Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor felly dylid cyfeirio at y ddwy ddogfen.

Pwrpas y ddogfen hon yw gwella'r modd y mae risg yn cael ei reoli a gwneud hynny mewn dull cyson ledled y Cyngor.

**Y Broses Rheoli Risg**
Mae'r broses ar gyfer adnabod, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan annatod o'r broses rheoli. Mae parhau i adnabod ac asesu risg yn allweddol i gyflawni ein canlyniadau yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd allanol newidiol a'r penderfyniadau a wneir wrth redeg y Cyngor yn cael effaith parhaus ar statws risgiau a nodwyd a'r risgiau newydd sy'n dod i'r wyneb. Dylai'r broses asesu risg gefnogi'r trefniadau parhaus yma ar gyfer adnabod ac asesu risg fel rhan o redeg y Cyngor.

Dangosir trosolwg o'r broses asesu risg isod:




Y gofrestr risg yw sut mae risgiau yn cael eu cofnodi. Mae ffurf y gofrestr risg gyfredol i'w gweld yn Atodiad 1. Pwrpas y gofrestr yw darparu dull cyson o gasglu gwybodaeth ynghylch risgiau. Er dylid ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r broses, mae'n bwysig bod y gofrestr yn ddogfen berthnasol a deinamig. Ei phrif bwrpas yw cynorthwyo i sicrhau ein bod yn cymryd camau lle bo angen.

Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn adnabod y risgiau i'r Cyngor gyfan. Yn ogystal, rhaid i bob Gwasanaeth a Phartneriaeth gadw cofrestr risg gyfredol. Mater i'r Gwasanaeth yw penderfynu os yw hefyd yn cofnodi asesiad risg ag yn cynnal cofrestrau risg ar lefel uned fusnes. Bydd hyn yn dibynnu ar faint, cymhlethdod ac ystod y gweithgareddau yn y gwasanaeth. Dylid adnabod risgiau prosiect yn ystod y DCP ac, os bydd prosiect yn mynd yn ei flaen, mae'n rhaid i'r Rheolydd Prosiect gadw cofrestr risg cyfredol ar gyfer y prosiect hwnnw.

Ni fydd trefniadau asesu risg yn berthnasol nac yn ddeinamig os nad ydym o ddifrif mewn perthynas â risgiau gan neud dim mwy na ysgrifennu rhestr ohonynt.

Cynhelir asesiadau risg, ar bob lefel, o fewn y cylch cynllunio busnes rheolaidd, gan wneud rheoli risg yn rhan o broses sefydledig, gan sicrhau hefyd bod camau lliniaru ar gyfer risgiau allweddol wedi ei gynnwys o fewn cynlluniau busnes. Gan fod rheoli risg wedi ei integreiddio gyda chynllunio busnes, defnyddir y system gyfredol ar gyfer rheoli perfformiad i fesur perfformiad rheoli risg.


**Cam 1 - Diffinio Amcanion**
Mae'n bwysig bod y rheini sy'n cymryd rhan yn y broses asesu risg yn gwbl eglur ynghylch ar amcanion busnes allweddol h.y. *'yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni'* er mwyn medru adnabod y *'rhwystrau i gyflawni'*. Y mwyaf eglur mae'r amcanion wedi eu diffinio, y rhwyddaf fydd hi i ystyried y risgiau hynny a allai gael effaith wirioneddol ar amcanion. Rhaid i'r amcanion felly fod yn rhai CAMPUS (Cyferiadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol a Synhwyrol). Mae'n dilyn felly:-

- Fod risgiau corfforaethol a strategol yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu mewn perthynas â gweledigaeth y Cyngor a'i amcanion allweddol;
- Bod risgiau gwasanaeth yn cael eu hadnabod a'i blaenoriaethu mewn perthynas â chynllun busnes y gwasanaeth;
- Bod risgiau i bartneriaethau a phrosiectau yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu mewn perthynas ag amcanion penodol y bartneriaeth/prosiect.

**Cam 2 – Adnabod Risg**
Mae risgiau yn cael ei adnabod i geisio sefydlu pam mor agored yw'r Cyngor i ansicrwydd. I sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu hadnabod, mae angen dychymyg, creadigrwydd, dyfeisgarwch a chyfraniad llawn yn y broses yn ogystal â fframwaith trefnus.

Hwn, mae'n debyg, yw un o'r camau pwysicaf yn y broses, gan na allwn ond ceisio rheoli'r risgiau yr ydym wedi eu hadnabod.

Er mwyn ceisio sicrhau trefniadau cadarn i asesu risg, mae'n ddefnyddiol ystyried yr holl sbectrwm risg, sef yr holl wahanol feysydd lle gall y Cyngor neu'r gwasanaeth wynebu risg. Gellir defnyddio'r categorïau isod i gynorthwyo'r broses feddwl:




Egluri'r rhain mewn mwy o fanylder yn Atodiad 2. Gan ddefnyddio'r themâu hyn gellid defnyddio amryw o dechnegau i geisio adnabod risgiau can gynnwys:-

- Sesiynau taflu syniadau;
- Profiad yn y gorffennol;
- Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau neu ymarfer tebyg;
- Cyfnewid gwybodaeth/arferion da gydag eraill.

Nid yw un person yn dal yr holl risgiau, felly er mwyn sicrhau bod y broses mor gynhwysfawr â phosib dylai grŵp adnabod y risgiau, pa bynnag ddull (iau) a ddefnyddir.

Mae'n bwysig hefyd adnabod y risgiau hynny nad yw eu cyfraniad i amcanion yn gwbl glir, yn arbennig ar lefelau gweithredol neu wasanaeth lle dylai hefyd ystyried risgiau i ddiogelwch a cholled ariannol, ynghyd a risgiau o ran cydymffurfio a gofynion statudol.

Dylid cofio adnabod risgiau os ydi'r Cyngor yn eu rheoli'n uniongyrchol neu beidio. Ar gyfer partneriaethau sylweddol, mae angen ystyried y risgiau i'r Cyngor yn ogystal â'r risgiau i'r bartneriaeth ei hun.

Mae darganfod y geiriau iawn i ddiffinio'r risg yn bwysig er mwyn egluro'n union beth yw'r risg. Canllaw da yw y dylid medru edrych yn ôl a dweud a yw'r digwyddiad risg wedi digwydd ai peidio. Mae'n werth ddechrau disgrifiad gyda "Risg bod .......", neu " Y risg o ......". Mae defnyddio ymadrodd byr yn unig fel arfer yn gadael gormod o le i gamddehongli, e.e. "Methiant TG" o'i gymharu â "Y risg bod methiant y system xxx yn arwain at amharu'n sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir".

**Cam 3 – Asesu**

Ar ôl asesu'r risg (neu fregysrwydd) mae'n bwysig asesu achosion neu sbardunau, canlyniadau/effaith posib a pha mor effeithiol mae'r risg yn cael ei reoli. Y modd y mae achos(ion) a chanlyniad(au) yn cael eu rheoli sy'n penderfynu pa mor dda mae risg yn cael ei reoli. Mae hyn, yn ei dro, yn penderfynu pa gamau pellach y gall bod eu hangen.

Y bregysrwydd, yn ei hanfod, yw'r risg neu'r gwendid sy'n bodoli ar hyn o bryd. Y sbardunau yw'r pethau a allai achosi i'r risg ddigwydd, a'r canlyniadau yw'r gadwyn waethaf debygol o ddigwyddiadau a allai ddigwydd pe baent yn cael eu sbarduno.

Pan fyddwn yn asesu'r effaith a thebygolrwydd o risg rydym yn gwneud hynny ar sail weddilliol. Y risg gweddilliol yw risg fel y mae ar hyn o bryd gyda'r trefniadau rheoli cyfredol mewn grym.

**Cam 4 – Blaenoriaethu Risgiau**


Oherwydd cyfyngiadau amser ac oherwydd nad oes pwll di waelod o adnoddau, ni ellir rheoli'r holl risgiau a nodwyd. Gan hynny, ar ôl adnabod a dadansoddi risgiau fydd angen eu pwyso a'u mesur i asesu pa rhai sydd bwysicaf. Felly mae tebygolrwydd a difrifoldeb pob risg yn cael eu hasesu o fewn yr amserlen berthnasol yn y cynllun busnes/prosiect.

Mae tebygolrwydd yn cael ei asesu drwy ofyn pa mor debygol yw hi fod y sbardun yn achosi digwyddiad risg yn yr amserlen a bennwyd.

Dylid cymharu effaith bosibl neu ddifrifoldeb y risgiau, neu'n fwy penodol y canlyniadau a nodwyd, gyda'r amcanion priodol. Yr her ar gyfer pob risg yw'r effaith mae'n cael neu y gallai gael ar allu i gyflawni'r amcanion.

Mae Atodiad 3 yn darparu meini prawf asesu risg ar gyfer risgiau corfforaethol. Mae'r meini prawf asesu risg yn "lled-feintiol" sy'n caniatáu asesiad mwy gwrthrychol fel y gellir blaenoriaethu'r risgiau a newid eu statws yn gyson. Gellir defnyddio'r meini prawf asesu risg fel canllaw ar gyfer risgiau Gwasanaeth, Prosiect, a Partneriaeth ond bydd angen ei haddasu yn unol â maint, cyllideb ac amlygrwydd y Gwasanaeth, Prosiect neu Bartneriaeth berthnasol. Fel arweiniad, gall ddweud bod tebygolrwydd lefel 5 yn "rhywbeth sydd eisoes yn digwydd, neu sy'n sicr o ddigwydd", gyda'r categorïau eraill, felly, yn gynyddol is. Mewn perthynas â difrifoldeb lefel 5 gellir dweud "yr effaith yn golygu na fyddai modd cyflawni unrhyw un, neu nifer sylweddol o'r amcanion perthnasol" gyda'r gweddill yn gynyddol is. Mae'n bwysig cymryd agwedd gytbwys wrth sgorio effaith risgiau a'r tebygolrwydd y bydd risgiau yn digwydd.

Mae'r cyfuniad o debygolrwydd a difrifoldeb yn rhoi sgôr risg sy’n caniatáu cynnwys y risgiau ar y matrics a’u cymharu yn erbyn ei gilydd.




Mae’r risgiau hynny tuag at y gornel uchaf ar y dde, sef y rhai sydd fwyaf tebygol ac sy’n cael yr effaith mwyaf (coch) yw'r rhai pwysicaf gyda’r flaenoriaeth yn disgyn wrth i ni symud i lawr tuag at y gongl isaf ar yr ochr chwith.

Mae’r blaenoriaethu hwn yn cynorthwyo i benderfynu ar feysydd y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion rheoli risg arnynt. Ni ddylid anwybyddu’r risgiau hynny sydd yn y blociau gwyrdd ond ni ddylid treilio amser nac adnoddau sylweddol i'w rheoli.

**Cam 5 - Ymateb i Risgiau**

Mae hyn yn holl bwysig oherwydd mae yn ystod y cam hwn mae’r gwelliant yn digwydd. Fel arfer mae opsiynau ar gyfer gwella’r fordd o reoli risgiau ac maent yn disgyn i'r categorïau isod.

| Ymateb | Sy’n golygu? | Enghraifft |
|---|---|---|
| Goddef | Gwneud dim byd ‘ychwanegol’ i reoli’r risg | Os yw’r mesurau rheoli cyfredol yn ddigonol i ostwng tebygolrwydd o risg ac effaith y risg i lefel dderbyniol, does dim gwerth ychwanegol mewn gwneud mwy ac nid yw'n gost effeithiol nac yn realistig i geisio rheoli’r risg ymhellach.<br>Risgiau sydd y tu allan i'n rheolaeth ac nid oes gennym unrhyw ddylanwad arnynt, e.e. y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n cael effaith negyddol ar y Cyngor. Rhaid derbyn y risgiau hyn ond gellir ei fonitro. |
| Treat | Lliniaru’r risg trwy reoli;<br>• y tebygolrwydd<br>• yr effaith<br>• neu’r ddau | Hwn yw’r dull mwyaf tebygol o reoli’r rhan fwyaf o risgiau. Datblygu camau CAMPUS i reoli'r tebygolrwydd y bydd risgiau yn digwydd, eu heffaith petaent yn digwydd, neu'r ddau.<br>Defnyddir camau ataliol i liniaru’r tebygolrwydd - i sicrhau nad yw rhywbeth yn digwydd e.e. rhoi hyfforddiant fel nad ydyw’r staff yn gwneud rhywbeth yn y ffordd anghywir neu sefydlu waliau tân i rwystro ymosodiad firws ar gyfrifiaduron. Lliniarir effaith yn aml gan ryw fath o drefniadau wrth gefn e.e. darparwyr gwasanaeth amgen neu drefniadau gwasanaeth amgen. |

| | | |
|---|---|---|
| Trosglwyddo | Yswiriant / allanoli / partneriaethau | Yswiriant, er na fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r risgiau a wynebir.<br>Gall allanoli neu ymrwymo i bartneriaethau drosglwyddo risgiau penodol, fodd bynnag, bydd yn anochel yn creu risgiau newydd a gwahanol y bydd rhaid eu rheoli. |
| Terfynu | Rhoi'r gorau i wneud gweithgaredd | Lle mae risg mor ddifrifol nad oes unrhyw ddewis arall ond rhoi'r gorau i'r gweithgaredd sy'n cynhyrchu'r risg. Gall hyn fod yn anodd i awdurdod leol o gofio'r nifer o swyddogaethau statudol. Fodd bynnag, gellid dod a gwasanaethau anstatudol i ben. |

Os oes angen, dylai datblygu camau penodol gydag amserlenni a pherchnogaeth. Pan fo'r asesiad risg yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r broses cynllun busnes dylid cynnwys camau penodol yn y cynllun busnes hwnnw.

Wrth benderfynu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd, mae'n bwysig ystyried effaith y camau hynny ar reoli y risg dan sylw, ac yn benodol yr effaith bydd yn cael ar yr effaith a / neu tebygolrwydd y risg. Dylid rhoi sylw hefyd i 'Côst-mantais' pob mesur rheoli a'i fesur yn erbyn y gost / effaith pe bai'r risg yn digwydd. D.S. mae 'cost/effaith' yn cynnwys yr holl agweddau gan gynnwys oblygiadau ariannol, adnoddau ond hefyd goblygiadau i enw da.

**Cam 6 - Monitro Risgiau**
Mae monitro risgiau yn weithgaredd rheoli arferol ac felly dylid eu hintegreiddio fel rhan o gyfrifoldebau arferol rheoli llinell. Nid ymarfer unwaith ac am byth yw Rheoli Risg - rhaid iddo fod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithio. Bydd y cynnydd a wneir o ran rheoli risgiau yn cael ei fonitro ac adroddir ar i sicrhau bod colledion yn cael eu lleihau ac y gellir cwrdd â'r amcanion.

Mae monitro risgiau a'r camau a nodwyd i'w lliniaru, felly, yn:
- rhan o amserlenni cyfredol ar gyfer monitro perfformiad;
- canolbwyntio ar y risgiau hynny sydd wedi cael y flaenoriaeth uchaf (coch).


Caiff risgiau i'r Gwasanaeth a'r camau a nodwyd i'w lliniaru eu monitro'n ffurfiol a'u hadolygu fel rhan o'r Adolygiadau Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth.

**Cam 7/8 - Adolygiad Ac Adroddiad / Cyfathrebu Ac Ymgynghori**
Y broses gynllunio flynyddol yw pryd y bydd canlyniadau yn cael eu hadolygu a'u diwygio ac, felly, mae'n rhesymegol hefyd i adolygu risgiau allweddol ar yr un pryd ac ystyried sut maent yn cael eu rheoli. Mae cynllunio busnes yn rhoi cyfle i edrych ymlaen ac i fod yn rhagweithiol o ran rheoli risg. O fewn y broses gynllunio (e.e. achosion busnes, cynlluniau gwasanaeth) mae angen ateb tri prif gwestiwn:
- Ydym ni wedi ystyried yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn y flwyddyn/blynyddoedd i ddod i gyflawni ein cynlluniau a'r risgiau o beidio â gwneud y pethau hyn?
- Ydym ni wedi ystyried beth allai fynd o'i le, ynghyd a'r effaith sylweddol, yn ein cynllun, a sut y bydd modd i ni ddod o hyd iddo mewn dull amserol?
- Ydym ni wedi ystyried risgiau allanol ac adnabod rhai mae'n realistig i ni gynllunio ar gyfer?

Dylai bod trafodaeth, adolygu ac adrodd ar risg mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rheoli ddigwydd yn rheolaidd. Dylid adolygu'r risgiau allweddol a'r cynnydd yn y cyfarfodydd hyn yn seiliedig ar ddifrifoldeb y risg.

Mae adroddiadau mewnol rheolaidd yn caniatáu i uwch reolwyr ac Aelodau fod yn gwbl ymwybodol o faint y risgiau a'r newidiadau ynddynt. Yn ymarferol, adroddir ar risgiau fel rhan o brosesau rheoli perfformiad a chynllunio busnes.

Mae trefniadau adrodd mewnol yn rhoi'r wybodaeth sydd fwyaf priodol i wahanol lefelau o'r Cyngor. Eglurir broses adrodd yn fanwl yn y Strategaeth Rheoli Risg ond mae crynodeb ohoni isod:




Bydd y Grŵp Rheoli Risg yn gweithredu fel "porth geidwad" ar gyfer y risgiau hynny sy'n cael eu gwthio i fyny o'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol a'r risgiau hynny sy'n cael eu gwthio i lawr o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Cofrestri Risg Gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ac adnabod themâu cyffredin.

**Dylai ychwanegu risgiau newydd at y gofrestr risg perthnasol cyn gynted ag y maent wedi'u hadnabod. Os oes risg sylweddol (coch), rhaid adrodd ar y risg honno ar sail eithriad trwy'r strwythur rheoli perthnasol a pheidio â gadael tan y cyfarfod adrodd arferol nesaf.**

Rhaid adolygu tebygolrwydd ac effaith pob risg yn rheolaidd yn wyneb effeithiau'r mesurau rheoli neu ffactorau eraill sy'n cael effaith ar y risg. Os yw'r mesurau rheoli wedi llwyddo dylai'r sgôr ar gyfer y risg ostwng ond os yw'r mesurau yn aneffeithiol neu'n annigonol gall y sgôr godi. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid adolygu'r camau lliniaru ac ystyried cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol.

Os yw risg a nodwyd yn flaenorol ddim bellach yn risg i'r amcanion a bennwyd, dylid ystyried tynnu'r risg oddi ar y gofrestr risg berthnasol. Dylid ond gwneud hyn pan fo'r risg wedi ei harchwilio'n ddigonol fel rhan o'r adolygiad rheoli perfformiad perthnasol.

Rhaid adolygu pob agwedd o'r broses rheoli risg o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Atodiad 1 – Cofrestr Risg

# COFRESTR RISG

| Cyfeirnod Risg | Perchennog Risg / Swyddog Arweiniol | Dyddiad Adnabod neu Ddiwygio | Risg Adnabuwyd | | | Lefel y Risg | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth Angenrheidiol | | | Lefel Risg Gweddilliol | | | Dyddiad Adolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregysrwydd / Perygl | Sbardun | Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Camau | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |

**Nodiadau**

Tebygolrwydd:
1 = Prin
2 = Annhebygol
3 = Posibl/Cymedrol
4 = Tebygol
5 = Bron yn Bendant / Eisoes yn Digwydd

Difrifoldeb:
1 = Ddibwys
2 = Bychan
3 = Cymedrol
4 = Mawr
5 = Trychinebus

Sgôr = Tebygolrwydd x Difrifoldeb

## Atodiad 2 – Categorïau Risg

| | | |
|---|---|---|
| **Gwleidyddol**<br>Yn codi o'r sefyllfa wleidyddol<br><br>• Newid ym Mholisi'r Llywodraeth<br>• Cyfansoddiad Gwleidyddol<br>• Cylch Etholiadau<br>• Strwythur gwneud penderfyniadau<br>• Cam-drin (e.e. twyll, llygredd)<br>• Rheoli enw da | **Economaidd ac Ariannol**<br>Yn codi o'r sefyllfa economaidd a'r fframwaith cynllunio ariannol<br><br>• Trysorlys - buddsoddiad, diwygio<br>• Rhagamcanion ynghylch galw<br>• Cystadleuaeth a'r effaith ar brisiau<br>• Y sefyllfa economaidd gyffredinol / rhanbarthol<br>• Gwerth / cost asedau cyfalaf | **Cymuned**<br>Demograffeg, tueddiadau cymdeithasol a chwrdd â disgwyliadau ag anghenion cwsmeriaid<br><br>• Patrymau a phroffil preswyl<br>• Gofal cymdeithasol<br>• Adfywio<br>• Gofal cwsmer<br>• Ansawdd ymgynghori gyda'r gymuned |
| **Technolegol**<br>Yn codi o'r gallu i ddelio gyda chyflymder newid, a'r sefyllfa dechnolegol<br><br>• Capasiti i ddelio gyda newid / datblygiadau<br>• Cyflwr Pensaernïaeth<br>• Hen dechnoleg<br>• Perfformiad a dibynadwyedd cyfredol<br>• Diogelwch a safonau<br>• Methiant system neu brosiect allweddol | **Deddfwriaethol / Rheoleiddiol**<br>Yn codi o'r heriau cyfreithiol cyfredol a rhai posib ac / neu achosion posib o dorri deddfwriaethau a gwybodaeth rheoleiddiol y sefydliad<br><br>• Deddfwriaeth a rheoliadau newydd<br>• Agoredwydd i rheoleiddwyr<br>• Heriau Cyfreithiol / adolygiad barnwrol<br>• Digonolrwydd y cymorth cyfreithiol | **Amgylcheddol**<br>Ymwneud â'r amgylchedd ffisegol<br><br>• Math o amgylchedd (trefol, gwledig, cymysg)<br>• Defnydd tir - llain las, safleoedd tir llwyd<br>• Materion cael gwared ar wastraff ac ailgylchu<br>• Effaith argyfwng sifil (h.y. llifogydd)<br>• Problemau traffig, cynllunio a thrafnidiaeth<br>• Llygredd, allyriadau, sŵn<br>• Newid hinsawdd ac effeithiolrwydd ynni |
| **Proffesiynol / Rheolaethol**<br>Yr angen i fod yn effeithiol yn rheolaethol ac yn broffesiynol<br><br>• Adolygiadau Cymheiriaid (e.e. IDeA, ymgynghori)<br>• Sefydlogrwydd y strwythur swyddogion<br>• Cymhwysedd a chapasiti<br>• Fframweithiau a phrosesau rheoli<br>• Trosiant, recriwtio a chadw staff<br>• Materion sy'n benodol i ddisgyblaethau penodol | **Peryglon Ffisegol ac Iechyd a Diogelwch**<br>Peryglon ffisegol syn gysylltiedig â phobl, tir, adeiladau, cerbydau ac offer<br><br>• Iechyd, lles a diogelwch staff, partneriaid a'r gymuned<br>• Cadw cofnod o ddamweiniau a digwyddiadau<br>• Arferion gwaith cynnal<br>• Diogelwch staff, asedau, adeiladau, offer<br>• Natur a chyflwr y sylfaen asedau | **Partneriaeth / Cytundebau**<br>Partneriaethau, contractau a gweithio ar y cyd<br><br>• Partneriaid allweddol - cyhoeddus, preifat a gwirfoddol<br>• Atebolrwydd fframweithiau a ffiniau partneriaethau<br>• Prosiectau mawr gyda mentrau ar y cyd<br>• Gwasanaethau sydd wedi eu allanoli<br>• Rheoli cydberthnasau<br>• Rheolaeth newid / strategaethau gadael<br>• Parhad busnes<br>• Partneriaethau - cyfrifoldebau o dan gontract |

## Atodiad 3 – Meini Prawf Asesu Risg

| TEBYGOLRWYDD | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgwylir y digwyddiad neu mae eisoes yn digwydd yn rheolaidd | Misol neu'n amlach na hynny | Bron yn bendant | 5 | | | | | |
| | Mae'n debyg y bydd yn digwydd | Blynyddol | Tebygol | 4 | | | | | |
| | Gall ddigwydd | 1 mewn 2 flynedd | Posib / Cymedrol | 3 | | | | | |
| | Efallai ddigwyddith | 1 mewn 3 blynedd | Annhebygol | 2 | | | | | |
| | Gall ddigwydd mewn rhai amgylchiadau | 1 mewn 10 mlynedd | Prin | 1 | | | | | |
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | | | | Dibwys | Bychan | Cymedrol | Mawr | Trychinebus |
| | | Gwasanaeth / Gweithgareddau | | | Dim effaith ar ansawdd y gwasanaeth, amharu ychydig bach ar weithgareddau | Effaith fechan ar ddarparu'r gwasanaeth, methiant i gwrdd â'r safonau gwasanaeth mân, amharu ar weithgareddau yn y tymor byr | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, amhariad difrifol â safonau gwasanaeth | Effaith fawr ar ansawdd y gwasanaeth, methiant i gwrdd â nifer o safonau gwasanaeth gan amharu ar weithgareddau yn y tymor hir | Gostyngiad trychinebus yn ansawdd gwasanaeth a methiant i gwrdd â safonau gwasanaeth allweddol, amharu'n drychinebus yn y tymor hir ar weithgareddau |
| | | Enw Da | | | Pryder cyhoedd wedi ei gyfyngu i gwynion lleol | Mân gwynion gan y cyhoedd / a mân sylw andwyol yn y cyfryngau lleol | Sylw negyddol yn y cyfryngau rhanbarthol neu genedlaethol a gan y cyhoedd | Feirniadaeth negyddol ddifrifol yn genedlaethol neu'n rhanbarthol | Beirniadaeth rhanbarthol a chenedlaethol am gyfnod hir |
| | | Ariannol | Cost (£) | | < £50k | £50k - £350k | £350k - £1m | £1m - £5m | >£5m |
| | | | | | DIFRIFOLDEB | | | | |

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd | | | Lefel Risg | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen | | | Lefel Risg Gweddilliol | | | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregysrwydd / Perygl | Sbardun | Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | |
| YM2 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â chynnal y gwelliannau wnaed yn nhermau Llywodraethu | • Etholiadau a chyflwyno wardiau mwy nac un aelod ayb<br>• Ansefydlogrwydd gwleidyddol | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Niwed i enw da<br>• Ymyrraeth pellach<br>• Ansicrwydd<br>• Morâl isel | 3 | 5 | 15 | | | | | | | |
| YM1 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â gweithio ar y cyd gydag eraill er budd y Cyngor, neu parhau i weithio ar y cyd lle nad oes buddiannau i'r Cyngor o wneud hyn | • Pwysau Cyllidebol<br>• Agenda LIC<br>• Perthnasau Gwael<br>• Diffyg hyder yn y Cyngor<br>• Diffyg Cynllunio<br>• Diffyg Ymgynghori<br>• Rhwystrau Gwleidyddol | • Niwed i enw da<br>• Gwasanaethau llai effeithiol<br>• Amcanion heb eu cyflawni<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol (dim cydweithio)<br>• Colli gwneud penderfyniadau yn lleol (pan yn cydweithio)<br>• Colli cyllid (dim cydweithio) | 4 | 3 | 12 | | | | | | | |
| YM8 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chynllunio am ostyngiad mewn cyllid | • Setliad llai gan LIC<br>• Llai o incwm<br>• Ddim yn gymwys i ymgeisio am rhai ffynonellau cyllido<br>• Effeithiau chwyddiannol a chyfraddau llog<br>• Blaenoriaethau fforddiadwy - arbedion heb eu cyflawni | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir<br>• Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM33 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 01/2013 | Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir | • Cyllidebau yn lleihau<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaeth<br>• Diffyg gwybodaeth amserol i rheolaeth ariannol / rheolaeth gyllidebol | • Lleihad yng ngwasanaethau a ddarperir mewn blynyddoedd sydd i ddod<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol | 5 | 4 | 20 | | | | | | | |
| YM9 | Dirpwy Prif Weithredwr | 10/2011 | Diffyg capasiti a/ neu'r gallu i ymgymryd llwyth gwaith y Cyngor | • Dyletswyddau cynyddol neu ychwanegol<br>• Awdurdod bach<br>• Diffyg systemau cyfunedig<br>• Trefniadau cynllunio gweithlu gwan<br>• Gofynion allanol<br>• Prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni) | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Oediadau<br>• Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir<br>• Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir<br>• Niwed i enw da<br>• Morâl staff isel<br>• Lefelau damweiniau a salwch uwch<br>• Anodd cadw staff<br>• Cynnydd yn y dibyniad ar staff dros dro a rhai asiantaeth<br>• Ansicrwydd | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM32 | Dirprwy Prif Weithredwr/ Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chwblhau yr adolygiad Arfarnu Swyddi | • Gofyn statudol i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd<br>• Amser cymerwyd hyd yma i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd (>10 mlynedd) | • Morâl staff isel<br>• Lefelau tâl anghystadleuol<br>• Risg uwch o anghydraddoldeb tâl yn parhau | 3 | 2 | 6 | | | | | | | |
| YM34 | Dirpwy Prif Weithredwr | 01/2013 | Methu â chyraedd cytundeb mewn perthynas â hawliadau tâl cyfartal | • Oedi yn cwblhau Arfarnu Swyddi | • Niwed i enw da<br>• Costau ariannol uwch | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM3 | Dirpwy Prif Weithredwr | 10/2011 | Trefniadau Cynllunio Busnes, Rheoli Risg, a Rheoli Perfformiad gwan | • Diffyg capasiti<br>• Heb ei wreiddio'n llawn<br>• Gweithrediadau digysylltiad<br>• Diffyg gwerthfawrogiad am y gofyn a'r angen i gynllunio<br>• Trawiad prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni)<br>• Targedau perfformiad ddim yn cael eu gweld yn bwysig o fewn y Cyngor | • Ansicrwydd<br>• Gwneud penderfyniadau anaddas<br>• Deunydd aneffeithiol o adnoddau<br>• Beirniadaeth gan rheoleiddwyr<br>• Diffyg atebolrwydd, cydymffurfiaeth a sicrwydd<br>• Methu â chyflawni targedau allweddol<br>• Effaith ariannol | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |



Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod  Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus  ■ Risg Uchel ▒ Risg Canolig ☐ Risg Isel ☐ Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd: Bregysrwydd / Perygl | Risg Adnabuwyd: Sbardun | Risg Adnabuwyd: Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Lefel Risg: Tebygrwydd | Lefel Risg: Llymder | Lefel Risg: Sgôr | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Gweithrediad | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Swyddog Cyfrifol | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Dyddiad Targed | Lefel Risg Gweddilliol: Tebygrwydd | Lefel Risg Gweddilliol: Llymder | Lefel Risg Gweddilliol: Sgôr | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM13 | Dirpwy Prif Weithredwr | 10/2011 | Cyfathrebu mewnol annigonol ac aneffeithiol | • Cyfathrebu gwael<br>• Diffyg gwerthfawrogi'r angen i ymgynghori | • Niwed i enw da<br>• Amser a chost o ddelio â chwynion<br>• Penderfyniadau anaddas<br>• Dyblygu<br>• Darpariaeth gwasanaeth llai effeithiol | 3 | 2 | 6 | | | | | | | |
| YM22 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â rheoli Adeiladau a Thir yn effeithiol | • Cyfyngiadau cyllidebol<br>• Gofynion deddfwrol<br>• Diffyg hanesyddol o fuddsoddi<br>• Gofynion datblygol parhaus y Cyngor<br>• Dirywiad economaidd | • Colli / llai o incwm<br>• Costau uwch atgyweiriadau a chynnal a chadw<br>• Yr angen am atgyweiriadau argyfwng<br>• Staff yn gweithio mewn cyflyrau anaddas (e.e. adeiladau dros dro, diffyg lle)<br>• Gormodedd o gapasiti lle mewn rhai llefydd<br>• Tor-cyfraith iechyd a diogelwch<br>• Adeiladau gwag yn draen ar adnoddau | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM7 | Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau | 10/2011 | Risg o beidio rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol | • Systemau TG mawr nad yw'n addas<br>• Diffyg buddsoddi yn systemau TG<br>• Cyfyngiadau cyllidebol<br>• Gofynion deddfwrol<br>• Gofyn datblygol parhaus y Cyngor | • Analluedd i gydymffurfio ag anghenion cyfreithiol / statudol / contract<br>• Data cywir a chyfredol ddim ar gael yn cael effaith ar benderfyniadau<br>• Dyblygu<br>• Gwasanaethau llai effeithlon<br>• Colli / llai o incwm | 5 | 3 | 15 | | | | | | | |
| YM31 | Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol / Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau | 08/2012 | Risg o beidio gydymffurfio â gofynion data | • Systemau anniogel<br>• Gwall dynol<br>• Trefniadau storio/gwaredu annigonol<br>• Diffyg arweiniad corfforaethol | • Niwed i enw da<br>• Cosbau Ariannol | 4 | 3 | 12 | | | | | | | |
| YM20 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Ddim hefo trefniadau Rheoli Parhad Busnes addas na chadarn yn eu lle | • Rheoli Parhad Busnes aneffeithiol<br>• Diffyg gwerthfawrogi o'r anghenion statudol a'u heffaith<br>• Diffyg capasiti | • Methu ag ymateb yn briodol<br>• Amharu ar wasnaethau<br>• Y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd o dan y Ddeddf Argyfwng Sifil<br>• Niwed i enw da<br>• Adfer hir | 2 | 4 | 8 | | | | | | | |
| YM28 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â chwrdd â thargedau effeithlonrwydd ynni | • Prisiau farchnad cynyddol<br>• Methu â diogelu/adnewyddu termau contract ffafriol<br>• Targedau mwy llym<br>• Diffyg cyfranogiad cydranddeiliaid<br>• Diffyg cyllideb ar gael | • Costau uwch<br>• Effaith ar y gyllideb ar gael | 3 | 3 | 9 | | | | | | | |

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus

■ Risg Uchel ▒ Risg Canolig □ Risg Isel □ Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd: Bregysrwydd / Perygl | Risg Adnabuwyd: Sbardun | Risg Adnabuwyd: Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Lefel Risg: Tebygrwydd | Lefel Risg: Llymder | Lefel Risg: Sgôr | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Gweithrediad | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Swyddog Cyfrifol | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Dyddiad Targed | Lefel Risg Gweddilliol: Tebygrwydd | Lefel Risg Gweddilliol: Llymder | Lefel Risg Gweddilliol: Sgôr | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM15 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith y Diwygiadau Buddiannau Lles | • Newidiadau i'r system Buddiannau Lles yn genedlaethol<br>• Diwygiadau Gronfa Gymdeithasol<br>• Diffyg manylder darparir o Llywodraeth Ganol a Chymraeg | • Gwaethygu cynhwysiant ariannol<br>• Cynnydd yn ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gweithgareddau troseddol yn cynnwys twyll<br>• Cynnydd sylweddol yn ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Rent - £1m diffyg posibl yn y Dreth Gyngor<br>• Colli incwm i Gwasanaethau Tai, yn effeithio ymarferoldeb y cynllun busnes 30 mlynedd<br>• Cynnydd yn ddigartrefedd a dyled unigolyn<br>• Lleihad incwm wrth i'r gallu i dalu am wasanaethau penodol leihau<br>• Costau uwch<br>• Galw uwch am wasanaeth, yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol a gwasanaethau cynghori<br>• Amser ychwanegol i asesu ceisiadau | 2 | 4 | 8 | | | | | | | |
| YM23 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Methu â gweithredu cynnwys y cynllun ôl – arolygiad Estyn a gwella perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol | • Darganfyddwyd arolygiad Estyn fod perfformiad a'r rhagolygon i wella yn anfoddhaol<br>• Disgwyliadau Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>• Disgwyliad ar y Cyngor i gyflwyno gwelliannau | • Ymyrraeth allanol pellach<br>• Canlyniadau difrifol i wasanaethau Addysg ar Ynys Môn | 2 | 4 | 8 | | | | | | | |
| YM24 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Ddim yn delio â llefydd dros ben yn ysgolion cynradd ac uwchradd y Cyngor. | • Anghydbwysedd yn y galw a'r cyflenwi<br>• Disgwyliadau LlC a'r rheoleiddwyr allanol<br>• Yr angen am ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau<br>• Diffyg cyllideb i gynnal adeiladau ysgolion<br>• Capasiti arweinyddiaeth | • Canlyniadau ariannol tymor hwy<br>• Cost uwch o ddarparu gwasanaeth<br>• Canfyddiad rheoleiddwyr allanol o'r Cyngor | 2 | 5 | 10 | | | | | | | |
| YM25 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Methu ag ymateb i adroddiad Estyn mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Caergybi, yn enwedig y diffyg yn y gyllideb | • Disgwyliadau Estyn<br>• Disgwyliadau'r Awdurdod o'r Ysgol. | • Gall gosod yr ysgol o dan fesurau arbennig, fyddai'n dylanwadu canfyddiad Estyn o'r Awdurdod.<br>• Niwed i enw da'r ysgol a'r Cyngor<br>• Lleihad yn nifer y disgyblion yn dewis yr ysgol | 4 | 3 | 12 | | | | | | | |
| YM27 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgol ddim yn cael ei sefydlu. | • Agenda cydweithio – disgwyliadau LlC<br>• Arbedion effeithlonrwydd | • Ansicrwydd ac effaith ar capasiti cefnogaeth ar amser pan fo hyn yn flaenoriaeth<br>• Lleihad yn ansawdd gwasanaeth ac amser ymateb | 2 | 3 | 6 | | | | | | | |
| YM5 | Cyfarwyddwr Cymuned | 10/2011 | Methu â chwrdd â gofynion y boblogaeth oedolion, yn enwedig y rheini sy'n gymwys am gefnogaeth | • Newidiadau demograffeg<br>• Cyffredinolrwydd uwch o orffwylltra<br>• Newid yng nghyllido o'r Gwasanaeth Iechyd a LlC<br>• Newidiadau i Buddiannau Lles<br>• Dyfarniad diweddar yn ymwneud â setlo ffioedd ar gyfer cartrefi Preswyl / Nyrsio Annibynnol | • Galw uwch am wasanaethau yn y dyfodol<br>• Llai o incwm<br>• Costau cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r cyllidebau ar gael<br>• Lleihad yn ansawdd gwasanaeth<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Niwed i enw da<br>• Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrdd | 3 | 3 | 9 | | | | | | | |

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod   Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus

Risg Uchel   Risg Canolig   Risg Isel   Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd | | | Lefel Risg | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen | | | Lefel Risg Gweddilliol | | | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregysrwydd / Perygl | Sbardun | Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | |
| YM16 | Cyfarwyddwr Cymuned | 10/2011 | Methu â chwrdd â gofynion Plant Ynys Môn, yn enwedig y rhieni sy'n gymwys am gefnogaeth ac amddiffyniad | • Asesiadau a monitro annigonol<br>• Diffyg dogfennaeth<br>• Diffyg canllawiau priodol a hyfforddiant<br>• Cyfathrebu gwael<br>• Trosiant uchel o staff<br>• Diffyg capasiti<br>• Galw cynyddol am wasanaethau | • Ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant dan fygythiad<br>• Cyflawni canlyniadau da ar gyfer plant dan fygythiad<br>• Amcanion allweddol na thargedau heb eu cyflawni<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrdd<br>• Penderfyniadau yn cael eu gwneud heb ystyried barn / buddiannau cydranddeiliad<br>• Gwasanaeth llai effeithiol<br>• Cynnydd mewn cwynion, hawliadau ac ymrwymiadau<br>• Cynnydd yn y pwysau ar y cyllidebau<br>• Morâl staff isel a lefelau salwch uchel<br>• Diffyg darpariaeth arall, yn cynnwys allsirol | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM38 | Cyfarwyddwr Cymuned | 11/2011 | Methu â cynllunio tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth | • Diffyg mewnbwn/cynnydd<br>• Diffyg capasiti | • Dim yn cwrdd â'r targedau<br>• Colli arian grant o LIC i'r Awdurdod (Cytundeb Canlyniad)<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaaethau eraill (digartref, gwasanaethau cymdeithasol ayyb) | 3 | 5 | 15 | | | | | | | |
| YM37 | Cyfarwyddwr Cymuned | 08/2012 | Methu â cynllunio ar gyfer mynediad i wasanaethau hamdden i gwrdd ag anghenion y boblogaeth | • Diffyg penderfyniadau Corfforaethol.<br>• Diffyg cyfleusterau addas a darpariaeth gwasanaeth.<br>• Diffyg buddsoddiad yn hanesyddol. | • Dirywiad pellach yn y cyfleusterau (adeiladau) a'r gwasanaethau ar gael<br>• Diffyg darpariaeth ar gyfer gweithgareddau gofal cymunedol<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaaethau eraill (ymddygiad gwrth-gymdeithasol ayyb) | 2 | 3 | 6 | | | | | | | |
| YM29 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â chwrdd â thargedau Rheoli Gwastraff. | • Targedau mwy llym<br>• Diffyg cyfranogiad cydranddeiliaid | • Effaith ar y gyllideb ar gael<br>• Cosbau ariannol | 3 | 4 | 12 | | | | | | | |
| YM35 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Ddim hefo trefniadau Cynllunio Argyfwng addas na chadarn yn eu lle | • Diffyg gwerthfawrogi o'r anghenion statudol a'u heffaith<br>• Diffyg capasiti | • Methu ag ymateb yn briodol<br>• Y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd o dan y Ddeddf Argyfwng Sifil<br>• Niwed i enw da | 4 | 2 | 8 | | | | | | | |
| YM36 | Cyfarwyddwr Cymuned | 01/2013 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd | • Diffyg gwybodaeth gan LIC a'r Ymddirodolaeth Iechyd<br>• Diffyg capasiti | • Beichiau ychwanegol yn nhermau darparu gwasanaeth<br>• Costau ychwanegol<br>• Costau heb eu cyllido amdanynt | 4 | 4 | 16 | | | | | | | |

Tudalen 168

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus

■ Risg Uchel ☐ Risg Canolig ☐ Risg Isel ☐ Aros am Wybodaeth